RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
14/2020

DYDDIAD CYHOEDDI:
05/03/2020

# Gwerthusiad o'r Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth, Arloesedd a Gwasanaethau

© Hawlfraint y Goron

ISBN digidol 978-1-80038-269-5

Gwerthusiad o’r Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth, Arloesedd a Gwasanaethau Cynghori

Awdur(on) / Cwmni

SQW

Adroddiad ymchwil llawn - dyfyniad: Pates, R; Hindle, R; 2020. Gwerthusiad o’r Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth, Arloesedd a Gwasanaethau. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 14/2020.
Ar gael yn: https://llyw.cymru/gwerthusiad-or-rhaglen-trosglwyddo-gwybodaeth-arloesi-gwasanaethau-cynghori

Safbwyntiau’r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw’r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Tom Cartwright
SCEC
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 0300 025 6024
E-bost: tom.cartwright@llyw.cymru

## Tabl cynnwys

Rhestr o dablau ........ 2
Rhestr o ffigurau ........ 3
Geirfa ........ 4
1. Rhagymadrodd ........ 5
2. Trosolwg o Raglen Cyswllt Ffermio ........ 9
3. Gweithredu ........ 36
4. Canlyniadau ac effeithiau ........ 67
5. Casgliadau ........ 82
Atodiad A: Trosolwg o astudiaethau achos ........ 90
Atodiad B: Ymgynghoreion ........ 97
Atodiad C: Gweithgareddau cyfryngau cymdeithasol ........ 99

**Rhestr o dablau**

Tabl 1-1: Cwestiynau allweddol y gwerthusiad ... 5
Tabl 2-1: Cyllideb flynyddol y rhaglen (Atodlen ariannol a gyflwynwyd yn y bidiau contract yn ôl blwyddyn contract) ... 13
Tabl 2-2: Trosolwg o wariant hyd yma o gymharu â'r rhagolwg (£miliwn) ... 20
Tabl 2-3: Lot 1 – Cyfanswm y gwariant hyd at fis Mawrth 2019 a'r gwariant a ragamcanwyd ar ddarparu gweithgareddau Cyswllt Ffermio ... 21
Tabl 2-4: Lot 3 – Cyfanswm y gwariant hyd at fis Mawrth 2019 a'r gwariant a ragamcanwyd ar ddarparu gweithgareddau Cyswllt Ffermio ... 23
Tabl 2-5: Lot 2 - Cyfanswm y gwariant hyd at fis Mawrth 2019 a'r gwariant a ragamcanwyd ar ddarparu gweithgareddau Cyswllt Ffermio ... 24
Tabl 2-6: Allbynnau a thargedau rhaglen Lot 1 ... 26
Tabl 2-7: Targedau ac allbynnau blynyddol Lot 2 ... 28
Tabl 2-8: Targedau ac allbynnau blynyddol Lot 3 ... 29
Tabl 3-1: Crynodeb o'r adborth ar bob gweithgaredd yr ymdriniwyd â hwy gan yr astudiaethau achos, gan ddefnyddio ymgynghoriad gyda staff rheoli a chyflenwi, astudiaethau achos a rhanddeiliaid allanol ... 43
Tabl 4-1: Tystiolaeth astudiaethau achos ... 68
Tabl 4-2: Tystiolaeth astudiaethau achos ar ffactorau sy'n helpu neu'n llesteirio gweithrediad a chynnydd tuag at ganlyniadau ... 70

**Rhestr o ffigurau**

Ffigur 2-1: Gweithgareddau Cyswllt Ffermio ... 14

Ffigur 2-2: Allbynnau targed ar gyfer y rhaglen (2015-2019 - 4 blynedd) ... 16

Ffigur 2-3: Cadwyn resymeg drosfwaol ar gyfer Cyswllt Ffermio ... 18

Ffigur 2-4: Theori o Newid ... 19

Ffigur 2-5: Nodweddion unigolion ... 31

Ffigur 2-6: Cefnogaeth a gyrchwyd gan *unigolion* sydd wedi cofrestru ... 32

Ffigur 3-1: Delweddau o siwrneiau buddiolwyr ... 59

Ffigur 4-1: Negeseuon o adroddiad AHDB (Ebrill 2018) ar “ddeall sut i ddylanwadu ar ymddygiad gwneud penderfyniadau ffermwyr: adolygiad llenyddiaeth gwyddor cymdeithasol ... 71

Ffigur 4-2: Canlyniadau i’w gweld ar draws astudiaethau achos ... 73

Ffigur 5-1: Theori o newid … ar waith ... 89

**Geirfa**

| Acronym | Diffiniad |
|---|---|
| AHDB | *Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth* |
| BAS | System Cyfrif Busnes |
| BBaCh | Busnesau bach a chanolig |
| BOSS | Gwasanaeth Cefnogaeth Busnes ar-lein |
| CAP | Polisi Amaethyddol Cyffredin |
| CDP | Cynllun Datblygu Personol |
| CFf | Cyswllt Ffermio |
| CFfI | Clybiau Ffermwyr Ifanc |
| EAFRD | Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig |
| EIP | Partneriaeth Arloesi Ewrop |
| HCC | Hybu Cig Cymru |
| IAB | Bwrdd Cynghori Diwydiant |
| IBERS | Athrofa y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig |
| MaB | Menter a Busnes |
| M2M | Mesur I rholi |
| RDP | Rhaglen Datblygu Gwledig |
| SAB | Bwrdd Cynghori Strategol |
| SCEC | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| TG | Technoleg Gwybodaeth |
| UE | Undeb Ewropeaidd |

# 1. Rhagymadrodd

1.1 Comisiynwyd SQW, gydag Arad a'n harbenigwr amaethyddol Martin Collison, i gynnal gwerthusiad o'r Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth, Arloesedd a Gwasanaeth Cynghori (2014-2020), a adnabyddir fel Cyswllt Ffermio. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau cam cyntaf y gwerthusiad; cynhyrchir ail adroddiad gwerthuso yn ystod Gwanwyn 2020

**Cwestiynau allweddol yr ymchwil**

1.2 Mae tri ffocws i'r gwerthusiad: yn gyntaf, asesu effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gweithrediad; yn ail, casglu tystiolaeth ar natur a maint y canlyniadau a gyflawnwyd hyd yma, i ba raddau y mae'r rhain yn ychwanegol (na fyddent wedi eu cyflawni fel arall) a mynd i'r afael â nodau ac amcanion gwreiddiol y rhaglen; ac yn drydydd, dysgu beth sy'n digwydd (a pham) er mwyn llywio'r gwaith parhaus o gyflenwi a chynllunio rhaglenni ar gyfer y dyfodol. Cyflwynir cwestiynau gwerthuso mwy manwl yn Nhabl 1-1, sy'n defnyddio ein manyleb wreiddiol, cynnig SQW, a thrafodaethau gyda'r grŵp llywio.

**Tabl** Error! No text of specified style in document.**-1: Cwestiynau allweddol y gwerthusiad**

- Pa weithgareddau sydd wedi'u cyflawni hyd yma, o gymharu â'r disgwyliadau?
- Pa mor ddwys y mae ffermwyr yn ymgysylltu â'r rhaglen a'r cynnydd drwy'r cynnig, a beth sy'n ysgogi hyn?
- Pa mor effeithiol ac effeithlon mae'r rhaglen yn cael ei chyflenwi, ei rheoli a'i llywodraethu?
- I ba raddau y caiff newidiadau eu gweithredu ar ffermydd?
- Pa ganlyniadau ac effeithiau sydd wedi'u cyflawni hyd yma?
- I ba raddau y mae canlyniadau yn ychwanegol, a pha elfennau o'r rhaglen sy'n gwneud y cyfraniad mwyaf i gyflawni canlyniadau/sydd fwyaf effeithiol (ar eu pen eu hunain neu mewn cyfuniad)?
- Pa ffactorau sy'n galluogi neu'n llesteirio gweithrediad a chynnydd tuag at y canlyniadau a fwriadwyd?
- Beth yw'r gwersi allweddol i hysbysu cyflenwi parhaus a chynllunio ymyriadau yn y dyfodol?
- Sut mae'r rhaglen yn perfformio yn gyffredinol?

Ffynhonnell: SQW

**Dull**

1.3 Er mwyn casglu tystiolaeth yn erbyn y cwestiynau uchod, rydym wedi mabwysiadu dull sy'n bennaf ansoddol ar gyfer y gwerthusiad. Yn unol â'r Fanyleb wreiddiol ar gyfer yr astudiaeth gan Lywodraeth Cymru, nid oedd casglu data meintiol (er enghraifft, drwy arolwg dros y ffôn gyda buddiolwyr) a thechnegau gwerthuso effaith gwrthffeithiol o fewn cwmpas yr aseiniad hwn - o ganlyniad, nid ydym yn ceisio cynhyrchu amcangyfrifon meintiol o Werth Ychwanegol Gros/Enillion ar Fuddsoddiad ar gyfer y rhaglen yn gyfan. Yn hytrach, mae'r ffocws ar ddysgu am yr hyn sy'n gweithio'n dda (neu beidio) er mwyn creu newid o fewn busnesau ffermio yng Nghymru, a sut y gellir cryfhau'r ddarpariaeth bresennol a chynllun y rhaglen yn y dyfodol er mwyn cael yr effeithiau gorau ar draws y sector. Mae'r gwerthusiad wedi cynnwys y tasgau canlynol:

- Adolygiad o ddogfennaeth y rhaglen a dadansoddiad o ddata monitro i asesu gwariant a pherfformiad allbwn yn erbyn targedau a nodweddu'r sail buddiolwyr, ochr yn ochr ag adolygiad pennawd o weithgarwch cyfryngau cymdeithasol gan Press Data.
- 18 o ymgynghoriadau manwl gyda staff llywodraethu, rheoli a chyflenwi yn Llywodraeth Cymru, Menter a Busnes (MaB) a Lantra. Rhestrir yr ymgynghoreion yn Atodiad B.
- Pedwar grŵp ffocws rhanbarthol gyda buddiolwyr, yn cynnwys 22 o ffermwyr a phob un yn para tua 1.5 awr. Dewiswyd y buddiolwyr drwy gyfuniad o samplo ar hap o gronfa ddata Cyswllt Ffermio ac enwebiadau gan MaB o fuddiolwyr oedd wedi ymgysylltu'n flaenorol â 'fforymau adborth ffermwyr' Cyswllt Ffermio mewn cyfnodau cynharach y rhaglen. Hwyluswyd y grwpiau ffocws hyn gan SQW ac Arad; gwnaethant gasglu adborth ansoddol ar y gefnogaeth a dderbyniwyd a'r gwahaniaeth a wnaeth hyn i unigolion a'u busnesau, a sut y gellid gwella'r cynnig.
- Cyfres o 13 o astudiaethau achos manwl (wyth yn canolbwyntio ar Lotiau 1 a 3, a phump ar Lot 2), a oedd yn cynnwys ymgynghoriadau manwl gyda staff cyflenwi a thua pum buddiolwr a oedd yn rhan ym mhob gweithgaredd. Casglwyd adborth am y gweithgaredd dan sylw a'u profiadau o elfennau eraill Cyswllt Ffermio, eu siwrnai fel cwsmeriaid a'u gallu i lywio drwy'r cynnig, y canlyniadau a gyflawnwyd a'r ffactorau sydd wedi cynorthwyo neu lesteirio cynnydd. Diffiniwyd pob astudiaeth achos mewn trafodaeth â Llywodraeth Cymru, MaB a Lantra, i sicrhau lledaeniad ar draws parthau polisi, lefelau arloesedd (e.e. cynyddraddol

hyd at fwy trawsnewidiol), lleoliad daearyddol a'r amrywiol ddwyster o ymgysylltiad gyda'r rhaglen. Ni fwriedir i'r astudiaethau achos fod yn gynrychioliadol - o gofio nifer yr astudiaethau achos a gynhaliwyd, ac ystod a maint y gweithgareddau a ddarperir gan Cyswllt Ffermio, nid oedd hyn yn ymarferol o fewn cylch gwaith y gwerthusiad hwn[1]. Wedi dweud hynny, rydym yn fwriadol wedi dewis astudiaethau achos a deimlir sy'n enghreifftiau cymharol "nodweddiadol o weithgaredd, yn hytrach na'r enghreifftiau achos gorau. Ar gyfer gweithgareddau grŵp, mae un astudiaeth achos yn cwmpasu un hwylusydd ond buddiolwyr o ddau grŵp (yn cynnwys y rheini sydd wedi gweithio'n dda neu ddim cystal), ac ar gyfer gweithgareddau wedi'u paru neu rai un i un rydym wedi ymgynghori â nifer o barau/unigolion er mwyn ehangu'r amrediad o safbwyntiau. Rhagwelir y bydd yr astudiaethau achos yn hydredol, ac felly ailymwelir â buddiolwyr flwyddyn nesaf i dracio eu siwrneiau parhaus drwy Cyswllt Ffermio ac a yw canlyniadau a ragwelwyd wedi eu gwireddu. Ceir rhagor o wybodaeth am yr astudiaethau achos yn Atodiad A.

- Ymgynghoriadau gyda 10 o randdeiliaid ehangach, yn cynnwys cynrychiolwyr undebau ffermio Cymru, cwmni ardollau, AHDB, Clwb Ffermwyr Ifanc a Bwrdd Cynghori Amaethyddol. Rhestrir yr Ymgynghoreion yn Atodiad B.

1.4 Cynhyrchwyd adroddiad cwmpasu yn haf 2018 wedi'r adolygiad dogfennau a data cyntaf, gan ddarparu cynllun gwaith mwy manwl ar gyfer yr astudiaeth i'w gymeradwyo gan y cleient. Roedd cam cyntaf yr ymchwil yn golygu dadansoddi data mwy manwl, grwpiau ffocws rhanbarthol gyda rhanddeiliaid ac ymgynghoriadau manwl gyda staff llywodraethu, rheoli a chyflenwi. Cyflwynwyd casgliadau a ddaeth i'r amlwg mewn adroddiad interim yn nhymor yr Hydref 2018, a thrafodwyd hwn gyda Llywodraeth Cymru, Menter a Busnes (MaB) a Lantra. Yna, roedd ail gam yr ymchwil yn cynnwys astudiaethau achos ac ymgynghoriadau manylach gyda rhanddeiliaid ehangach.

[1] Er enghraifft, gwnaethom gwmpasu dau o 117 grŵp Agrisgôp.

### Strwythur yr adroddiad

1.5 Mae'r adroddiad wedi'i strwythuro yn y modd canlynol:

- Mae Adran 2 yn rhoi trosolwg o'r rhaglen Cyswllt Ffermio, yn cynnwys y model rhesymeg a theori o newid a ragwelir, a chrynodeb o'r cynnydd hyd yma.
- Mae Adran 3 yn rhoi adborth ar weithredu, yn cynnwys beth sydd wedi gweithio'n dda (neu beidio) drwy gydol siwrnai'r cwsmer o ran rheoli a llywodraethu y rhaglen.
- Mae Adran 4 yn archwilio i ba raddau y mae ffermwyr yn rhoi newidiadau ar waith o ganlyniad i Cyswllt Ffermio, a'r canlyniadau a'r effeithiau a gyflawnwyd.
- Yn olaf, mae Adran 5 yn cyflwyno ein casgliadau.

1.6 Cefnogir yr adroddiad gan dri atodiad: mae Atodiad A yn rhoi trosolwg o'r astudiaethau achos; Atodiad B yn rhoi rhestr o'r ymgynghoreion ar gyfer yr astudiaeth; ac Atodiad C yn cyflwyno gwybodaeth Press Data am gyfryngau cymdeithasol. Hefyd, mae'r adroddiadau astudiaethau achos manwl wedi'u darparu mewn atodiad ar wahân.

## 2. Trosolwg o Raglen Cyswllt Ffermio

2.1 Yn yr Adran hon rydym yn rhoi trosolwg o gynllun y rhaglen Cyswllt Ffermio, yn cynnwys y rhesymeg wreiddiol, nodau, mewnbynnau a gweithgareddau'r rhaglen, ac allbynnau, canlyniadau ac effeithiau a fwriadwyd. Rydym hefyd yn crynhoi cynnydd hyd yma, o ran gwariant ac allbynnau yn erbyn targedau, ac yn rhoi trosolwg o nodweddion ac ymgysylltiad buddiolwyr.

### Trosolwg o'r rhaglen

*Cyd-destun*

2.2 Datblygwyd fframwaith Cyswllt Ffermio o dan Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, rhaglen saith mlynedd Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru. Nod Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 (RDP) Cymunedau Gwledig Cymru yw cynyddu **cynhyrchiant, amrywiaeth ac effeithlonrwydd** busnesau ffermio a choedwigaeth Cymru; gwella amgylchedd Cymru, annog **rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol a gweithredu ar hinsawdd** yng Nghymru; a hyrwyddo **twf economaidd gwledig cryf a chynaliadwy** yng Nghymru. Mae Cyswllt Ffermio wedi alinio gyda, ac mae'n darparu gweithgareddau tanategu craidd i fynd i'r afael â, chwe phrif flaenoriaeth yr RDP:

- Meithrin trosglwyddo gwybodaeth ac arloesi ym maes amaethyddiaeth, coedwigaeth ac ardaloedd gwledig
- Gwella hyfywedd a chystadleurwydd ffermydd ym mhob maes amaethyddol
- Hyrwyddo trefniadaeth y gadwyn fwyd a rheoli risg mewn amaethyddiaeth
- Adfer, gwarchod a gwella ecosystemau sy'n dibynnu ar amaethyddiaeth a choedwigaeth
- Hyrwyddo effeithlonrwydd o ran adnoddau a chynorthwyo'r gwaith o symud at economi carbon isel, sy'n gallu gwrthsefyll effeithiau'r hinsawdd, yn y sectorau amaethyddiaeth, bwyd a choedwigaeth
- Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, gwaith i leihau tlodi a datblygu'r economi mewn ardaloedd gwledig

*Rhesymeg ar gyfer ymyrraeth*

2.3 Fel y nodir yn y Fanyleb ar gyfer cyflenwi Cyswllt Ffermio, cafodd cynllun y rhaglen ei lywio drwy ymgynghoriad ac ymgysylltiad gyda'r diwydiant a rhanddeiliaid mewnol drwy gydol proses gynllunio'r RDP, a defnyddiodd lawer o brofiad gyda rhaglenni cynharach ac ystyriaethau mewnol ar y profiad hwn. Nododd y fanyleb:

> 'Mae angen darparu pecyn trosglwyddo gwybodaeth, arloesedd a gwasanaethau cynghori wedi'i gydlynu a'i integreiddio sy'n targedu'r sectorau ffermio, coedwigaeth a bwyd. Mae trosglwyddo gwybodaeth a datblygu busnes yn ddwy flaenoriaeth allweddol i'r Cleient er mwyn cynorthwyo i sicrhau newid diwylliannol mewn amaethyddiaeth ac economi wledig gref yn fwy cyffredinol.
>
> Mae cael gwybodaeth, cyfnewid syniadau a chefnogi defnydd arferion arloesol ar lawr gwlad yn offer pwysig i gefnogi'r symud at economi carbon isel, sy'n gallu gwrthsefyll effeithiau'r hinsawdd, yn y sectorau amaethyddiaeth, bwyd a choedwigaeth. Maent yn allweddol i gynorthwyo i adfer, gwarchod a gwella ecosystemau, diogelu bioamrywiaeth, lleihau tlodi a hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol mewn ardaloedd gwledig.'

2.4 Rydym wedi tybio'r rhesymeg - o ran methiannau'r farchnad a/neu fethiannau eraill sy'n cyfeirio at yr angen ar gyfer ymyrraeth - fel a ganlyn.

- Methiannau gwybodaeth ac anhoffter o risgiau: yn nodweddiadol nid yw ffermwyr yn gallu cyrchu'r ffynonellau DU/rhyngwladol diweddaraf sy'n crynhoi canfyddiadau ymchwil a rhaglenni arloesol ym maes gwyddor amaeth, a fyddai'n eu galluogi i ganfod beth allai fod fwyaf defnyddiol yn eu cyd-destun eu hunain, ac i drosi hyn yn ddatrysiadau ymarferol ar eu fferm. Yna mae ffermwyr yn gyndyn i fuddsoddi mewn technoleg neu brosesau newydd gan nad ydynt yn sylweddoli maint yr enillion posibl, maent yn teimlo bod y risg yn rhy uchel, a/neu maent yn gweithredu o fewn cyfyngiadau amser/ariannol oherwydd bod llawer ohonynt yn fusnesau micro/bach.

- Methiannau cydlynu: O gofio nifer o chwaraewyr sy'n gysylltiedig, a sector sy'n cynnwys cymysgedd amrywiol o ran maint a mathau o fusnesau, gall ffermwyr gael anhawster i wybod lle i fynd am gefnogaeth.
- Allanoldebau a goferu ehangach: Mae ffermwyr yn debygol o danfuddsoddi mewn arloesedd o safbwynt cymdeithasol oherwydd na allant gael yr enillion llawn ar y buddsoddiad hwn. Mae'r wybodaeth/technolegau y maent yn eu caffael yn dod yn rhan o stoc gwybodaeth fyd-eang, gan arwain at well perfformiad busnesau ffermio eraill. Felly, mae methu â chyflawni'n llawn ar amcanion sy'n ddymunol yn gymdeithasol, yn cynnwys cynorthwyo i fynd i'r afael â heriau cymdeithasol, newid yn yr hinsawdd, cynaliadwyedd amgylcheddol a materion sicrwydd bwyd, i ryw raddau yn 'Fethiannau arloesedd'. Mae'r amodau hyn hefyd yn lleihau i ba raddau yr eir i'r afael ag allanoldebau negyddol, canlyniadau posibl ffermio ar yr amgylchedd neu iechyd/lles anifeiliaid.

*Nodau ac amcanion*

2.5 Un o amcanion allweddol Cyswllt Ffermio yw cynyddu'r pwyslais ar ymddygiad sy'n canolbwyntio ar fusnes ac felly gwella **proffidioldeb, cystadleurwydd a pherfformiad amgylcheddol** busnesau ffermio, coedwigaeth a bwyd, a thrwy ymestyn, **hyrwyddo twf economaidd a datblygiad ardaloedd gwledig.**[2] Nod y rhaglen yw cefnogi'r diwydiant coedwigaeth a ffermio drwy gyfnod o newid sylweddol a chynorthwyo i gefnogi'r gwaith o symud oddi wrth daliadau uniongyrchol (taliadau Polisi Amaethyddol Cyffredin {CAP}). Y nod yw cyflenwi rhaglen a fydd yn darparu dull **ymatebol a hyblyg** er mwyn mynd i'r afael â blaenoriaethau strategol esblygol y diwydiant a Llywodraeth Cymru. O fewn y fframwaith hwn nodwyd y meysydd blaenoriaeth canlynol ar gyfer Llywodraeth Cymru: newid yn yr hinsawdd; glaswelltir; bioamrywiaeth; coedwigaeth; cig coch; cynnyrch llaeth; tir âr; garddwriaeth; cynhyrchu organig; moch a dofednod.[3]

---

[2] Trosglwyddo Gwybodaeth, Arloesedd a Gwasanaethau Cynghori o dan Raglen Datblygu Cymru Wledig 2014 – 2020, Manyleb ar gyfer fframwaith cyflenwi Cyswllt Ffermio.

[3] Trosglwyddo Gwybodaeth, Arloesedd a Gwasanaethau Cynghori o dan Raglen Datblygu Cymru Wledig 2014 – 2020, Manyleb ar gyfer fframwaith cyflenwi Cyswllt Ffermio – gweler rhagor o wybodaeth ar bob blaenoriaeth

2.6 Mae tair lot yn y rhaglen, pob un â nodau penodol:

- Nod y Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth (Lot 1) yw cefnogi'r diwydiannau ffermio a choedwigaeth i adeiladu gwytnwch a gwella cynaliadwyedd busnesau ar gyfer y dyfodol, gyda phwyslais ar welliannau technegol ac o ran effeithlonrwydd. [4]
- Nod y Rhaglen Dysgu Gydol Oes a Datblygu (Lot 2) yw sicrhau diwydiant mwy proffesiynol drwy ei gefnogaeth ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus, hyfforddiant achrededig, platfform e-ddysgu newydd a ffocws clir ar ddatblygiad personol. [5]
- Nod y Gwasanaeth Cynghori (Lot 3) yw rhoi cyngor annibynnol, pwrasol, un i un ac mewn grwpiau er mwyn gwella rheolaeth gynaliadwy a pherfformiad economaidd ac amgylcheddol BBaChau ym meysydd ffermio, coediwgaeth a chynhyrchu bwyd sy'n gweithredu mewn ardaloedd gwledig. [6]

*Menbynnau a Fwriadwyd*

2.7 Cyfanswm cyllideb y rhaglen yw £27.7 miliwn, gyda £19.5 miliwn wedi'i glustnodi i Lot 1, £2.4 miliwn wedi'i glustnodi i Lot 2, a £5.7 miliwn wedi'i glustnodi i Lot 3. Disgwylir i wariant gynyddu'n flynyddol hyd at 2018-2019, fel y dangosir isod.

[4] Trosglwyddo Gwybodaeth, Arloesedd a Gwasanaethau Cynghori o dan Raglen Datblygu Cymru Wledig 2014 – 2020, Manyleb ar gyfer fframwaith cyflenwi Cyswllt Ffermio.
[5] Manyleb ar gyfer: Gwerthusiad o'r Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth, Arloesedd a Gwasanaethau Cynghori a gyflenwir gan Cyswllt Ffermio.
[6] Trosglwyddo Gwybodaeth, Arloesedd a Gwasanaethau Cynghori o dan Raglen Datblygu Cymru Wledig 2014 – 2020, Manyleb ar gyfer fframwaith cyflenwi Cyswllt Ffermio.

**Tabl 2-1: Cyllideb flynyddol y rhaglen (Atodlen ariannol a gyflwynwyd yn y bidiau contract yn ôl blwyddyn contract)**


| Lot | Contractwr | Blwyddyn 1 Awst 2015-Awst 2016 | Blwyddyn 2 Awst 2016-Awst 2017 | Blwyddyn 3 Awst 2017-Awst 2018 | Blwyddyn 4 Awst 2018-Awst 2019 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Lot 1: Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth | MaB | £4,892,046 | £4,763,720 | £4,834,106 | £5,051,208 | £19,541,080 |
| Lot 2: Rhaglen Dysgu Gydol oes a Datblygu | Lantra Cymru | £598,895 | £598,883 | £598,857 | £598,441 | £2,395,076 |
| Lot 3: Cynllun Cynghori Busnesau Gwledig | MaB | £1,551,072 | £1,405,773 | £1,373,491 | £1,349,728 | £5,680,064 |
| **Cyfanswm** | **-** | **£7,042,013** | **£6,768,376** | **£6,806,454** | **£6,999,377** | **£27,616,220** |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, dyddiedig 10/09/2019

*Gweithgareddau a fwriadwyd, rheolaeth a llywodraethu*

2.8 Crynhoir y gweithgareddau a fwriadwyd o dan raglen Cyswllt Ffermio isod, ynghyd â'r targed ar gyfer nifer y gweithgareddau/grwpiau/cymorth lle bo'n briodol.

**Ffigur 2-1: Gweithgareddau Cyswllt Ffermio**




*Ffynhonnell: SQW. Sylwer: ni chyflawnwyd y Digwyddiadau Cymraeg a Lot 4 fel y cynllunwyd*

2.9 Llywodraeth Cymru sy'n goruchwylio Cyswllt Ffermio, a chontractiodd Menter a Busnes (MaB) i gyflenwi Lotiau 1 a 3, a Lantra i gyflenwi Lot 2. Fe wnaeth MaB a Lantra is-gontractio peth o'r gweithgareddau cyflenwi, fel rhan o'u tendr ar gyfer y rhaglen.

- O dan Lot 1, mae MaB wedi is-gontractio darpariaeth rhai o'r gweithgareddau - er enghraifft, Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) Prifysgol Aberystwyth sy'n gyfrifol am gynnal yr Hyb Cyfnewid Gwybodaeth ar Gampws y Brifysgol. Mae Menter a Busnes hefyd wedi gweithio mewn partneriaeth gyda Rhwydwaith Ffermydd Arloesol Cymru, Gwasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol Cymru, Kite Consulting, Innovis, Lantra, Prifysgol Bangor ac eraill i gyflenwi'r Rhaglen.
- Er mwyn cyflenwi'r Rhaglen Dysgu Gydol Oes a Datblygu (Lot 2), cydweithiodd Lantra gydag IBERS, Think Associates a Menter a Busnes. Unwaith eto, bydd gan bob is-gontractwr rôl benodol; er enghraifft, mae

IBERS yn gyfrifol am gynhyrchu'r modiwlau e-ddysgu, tra bod Think Associates wedi datblygu'r CDP ar-lein.

- Mae'r Gwasanaeth Cynghori (Lot 3) yn cael ei gyflenwi gan wyth cwmni cynghori sy'n gweithredu fel isgontractwyr i Menter a Busnes: ADAS Cymru, Agri Plan Cymru, Andersons, CARA, Kite Consulting, Landsker, Promar International a Savills.

2.10 Mae tîm o Swyddogion Datblygu sydd wedi'u lleoli'n lleol wedi'i sefydlu er mwyn sicrhau bod y broses gyffredinol yn effeithiol, yn cynnwys symud rhwng y cynhyrchion a'r gwasanaethau o fewn Cyswllt Ffermio a'r cyfeiriad lle bo hynny'n angenrheidiol i'r partner priodol. Bydd wyth Swyddog Technegol yn cefnogi'r Swyddogion Datblygu drwy gymryd cyfrifoldeb am gydlynu prosiectau a threialon yn eu maes gwaith penodol.


2.11 Mae Bwrdd Cynghori Strategol (SAB) Cyswllt Ffermio, sy'n goruchwylio'r rhaglen, yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, HCC, Coleg Cambria, Agri Advisor, AHDB a Coed Cymru. Rôl y Bwrdd Cynghori Strategol yw nodi a blaenoriaethu ymchwil, gwybodaeth a dealltwriaeth a gyflenwir i ddiwallu anghenion y diwydiant a chynnig argymhellion i dîm rheoli Cyswllt Ffermio. Mae tri Is-grŵp yn eistedd o dan y Bwrdd Cynghori Strategol, un ar gyfer pob Lot, yn darparu cyngor ar anghenion busnesau ffermio a choedwigaeth yng Nghymru. Rhagwelwyd hefyd y byddai gan y rhaglen Fwrdd Cynghori Diwydiant (IAB) yn cynnwys cynrychiolwyr o'r diwydiant, wedi'i fwriadu i nodi blaenoriaethau a sicrhau bod y gweithgareddau yn bodloni anghenion sy'n esblygu y sector[7]. Roedd yr IAB i fod i adrodd yn uniongyrchol wrth y Bwrdd Cynghori Strategol.

**Allbynnau, canlyniadau ac effeithiau a fwriadwyd**

2.12 Crynhoir y dangosyddion perfformiad allweddol o dan bob Lot yn Ffigur 2 2.

[7] Sylwer: Cyfarfu IAB ar ychydig o achlysuron, ond nid oedd yn cyflawni ei ddiben felly nid yw'n weithredol mwyach.

**Ffigur 2-2: Allbynnau targed ar gyfer y rhaglen (2015-2019 - 4 blynedd)**




*Ffynhonnell: Adroddiadau cynnydd /Manyleb Cyswllt Ffermio*

2.13 Rydym wedi canfod o'r nodau ac amcanion a'r ddogfennaeth ehangach bod canlyniadau ac effeithiau a fwriadwyd ar gyfer y rhaglen yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Canlyniadau: datblygiad sgiliau, galluedd ac arbenigedd; annog trosglwyddo/cyfnewid gwybodaeth a'r defnydd o arloesedd mewn busnesau a gefnogir; adeiladu gwytnwch a gwella cynaliadwyedd busnesau ar gyfer y dyfodol; gwelliannau technegol ac o ran effeithlonrwydd; cynyddu ymddygiad 'ffocws ar fusnes' a 'phroffesiynol' ffermydd, gyda mwy o ffocws ar ddatblygiad personol; gwell proffidioldeb busnes fferm/bwyd/coedwigaeth, cystadleurwydd a pherfformiad amgylcheddol.
- Effeithiau: galluogi goferu gwybodaeth/technolegau/ troseddau/arloesedd yn ehangach i'r sector amaethyddol yn fwy eang; gwell integreiddiad y gadwyn gyflenwi, mwy o gystadleurwydd, cynhyrchiant, amrywiaeth,

hyfywedd ac effeithlonrwydd busnesau ffermio a choedwigaeth yng Nghymru yn gyffredinol; llai o ddibyniaeth ar daliadau uniongyrchol; gwella amgylchedd Cymru, annog rheolaeth gynaliadwy ar ein hadnoddau naturiol a gweithredu ar hinsawdd yng Nghymru; hyrwyddo twf economaidd gwledig cryf a chynaliadwy yng Nghymru; cyfrannu tuag at amcanion strategol ehangach, megis creu Cymru ffyniannus, iach a mwy cyfartal a chyfrifol yn fyd-eang.


*Cadwyn resymeg a theory o newid*

2.14 Ni chynhyrchwyd cadwyn resymeg a theori o newid cryno ar gyfer y rhaglen ar y dechrau. Felly mae SQW wedi defnyddio, ac ychwanegu at, y ddogfennaeth a adolygwyd hyd yma er mwyn datblygu cadwyn resymeg trosfwaol. Fel y dangosir yn Ffigur 2-3, mae hwn yn nodi'r rhesymeg a'r cynnwys strategol, nodau ac amcanion, mewnbynnau ac allbynnau a fwriadwyd[8], canlyniadau ac effeithiau ar gyfer y rhaglen yn gyfan. Nodir y cynnwys a gafwyd o'n hadolygiad o ddogfennaeth gyda thestun coch. Mae SQW wedi ychwanegu peth gwybodaeth ar gyfer eglurder a/neu i sicrhau llif rhesymegol o resymeg i effeithiau, yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o'r rhaglen ac adborth gan y Grŵp Llywio a'r ymgynghoreion cwmpasu: dangosir hyn mewn testun glas.

2.15 Yn Ffigur 2-4, rydym wedyn yn cyflwyno dehongliad SQW o'r Theori o Newid ar gyfer y rhaglen. Mae hyn yn ceisio dangos sut a pham y mae disgwyl i Cyswllt Ffermio greu effeithiau a chanlyniadau, drwy osod cysylltiadau achosol rhwng gweithgareddau, allbynnau, canlyniadau ac effeithiau, a thybiaethau cysylltiedig a risgiau/rhesymau pam y gall y rhesymeg dorri lawr.


[8] Mae'r rhain yn cynnwys canlyniadau canolraddol megis ennill sgiliau a gwybodaeth, ac effeithiau dilynol ar berfformiad busnes.

**Ffigur 2-3: Cadwyn resymeg drosfwaol ar gyfer Cyswllt Ffermio**




Ffynhonnell: SQW

**Ffigur 2-4: Theori o Newid**




Ffynhonnell: SQW. Sylwer: yn ymarferol , mae'r CDP wedi gorwedd o dan Lot 2, nid uwchben y tair lot. Rhagwelwyd yn wreiddiol y byddai CDPau yn cyfeirio at Lot 1 a 3, ac yn cael eu defnyddio fel cofnod byw o nodau ac amcanion ar gyfer pob unigolyn

**Proffil gwariant ac allbynnau hyd yma**

2.16 Yn yr Adran hon rydym yn cyflwyno data ar wariant ac allbynnau hyd at ddiwedd mis Mawrth 2019.

2.17 Erbyn y pwynt hwn, roedd ychydig dros £19.4 miliwn wedi'i wario ar gyflenwi rhaglen bresennol Cyswllt Ffermio, o gymharu â chyllideb ar gyfer oes gyfan y rhaglen o £27.7 miliwn erbyn Awst 2019. Mae'r tabl isod yn cyflwyno gwariant pennawd hyd yma a thargedau yn ôl Lot.

**Tabl 2-2: Trosolwg o wariant hyd yma o gymharu â'r rhagolwg (£miliwn)**

| | A: Cyfanswm gwariant hyd yma (o ddechrau'r rhaglen Awst 2015 hyd Mawrth 2019 diwedd blwyddyn ariannol 2018/19) | B: Rhagamcanid gwariant sy'n weddill hyd nes diwedd cyfnod y rhaglen (Awst 2019) | C: Cyfanswm rhagamcaniad gwariant erbyn diwedd cyfnod y rhaglen (A+B) | D: Cyfanswm Dyraniad Cyllideb | E: Gwahaniaeth (D-C) | F: % Gwahaniaeth (C/D) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Lot 1 | £13,691,560 | £4,823,812 | £18,515,372 | £19,541,080 | £1,025,709 | 94.8% |
| Lot 2 | £2,069,880 | £327,196 | £2,397,076 | £2,395,076 | -£2,000 | 100.1% |
| Lot 3 | £3,641,177 | £1,180,448 | £4,821,625 | £5,680,064 | £858,439 | 84.9% |
| **Cyfanswm** | **£19,402,617** | **£6,331,456** | **£25,734,073** | **£27,616,220** | **£1,882,147** | 93.2% |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, dyddiedig 10/09/2019

2.18 Isod rydym yn dadgyfuno'r gwariant hyd yma ar draws Lotiau a gweithgareddau Cyswllt Ffermio.

*Gwariant ar drosglywyddo gwybodaeth a gwasanaethau cynghori a gyflenwyd gan MaB*

2.19 O dan Lot 1, roedd born i £13.7 miliwn wedi'i wario hyd at fis Mawrth 2019 ar ddarparu gweithgareddau, sy'n cyfrif am 74% o gyfanswm y gwariant a ragamcanwyd erbyn diwedd cyfnod y rhaglen. Hyd yma, mae costau cynnal y rhaglen yn gyfrifol am fwyafrif y gwariant, sy'n cynnwys cost tîm mawr o Swyddogion Datblygu sy'n gweithredu ar draws Cymru. Yn ôl gweithgaredd, gwariant ar y rhwydwaith arddangos oedd y mwyaf hyd yma. O dan Lot 3, cyfanswm y gwariant hyd at fis Mawrth 2019 oedd £3.6 miliwm, sy'n cyfrif am 76% o gyfanswm y gwariant a ragamcanwyd erbyn diwedd cyfnod y

rhaglen. Roedd hanner yr holl wariant wedi'i wario ar hyfforddiant grŵp (51%) a thraean (34%) ar gyngor un i un. Roedd y tanwariant yn Lot 3 wedi'i ysgogi yn bennaf gan y gofyniad bod angen i bob busnes gael cynllun busnes er mwyn cyrchu cyngor technegol ar ddechrau cyfnod y rhaglen. Fodd bynnag, ym mis Mawrth 2017, cyflwynwyd llwybrau mynediad ychwanegol i gyngor technegol, megis presenoldeb mewn digwyddiad trosglwyddo gwybodaeth penodol a ddarparwyd drwy Lot 1.

**Tabl 2-3: Lot 1 – Cyfanswm y gwariant hyd at fis Mawrth 2019 a'r gwariant a ragamcanwyd ar ddarparu gweithgareddau Cyswllt Ffermio**

| Categori | | A: Cyfanswm gwariant hyd yma (Awst 2015 - Mawrth 2019) | B: % gwariant hyd yma (Awst 2015 - Mawrth 2019) | C: Rhagamcaniad o'r gwariant sy'n weddill hyd at ddiwedd cyfnod y rhaglen (Awst 2019) | Cyfanswm y gwariant disgwyliedig erbyn diwedd cyfnod y rhaglen (A+C) |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau Cynnal y Rhaglen | Mae'r costau hyn yn cynnwys darpariaeth staff cyflenwi a staff canolfan wasanaethau sy'n hyrwyddo a gweinyddu Cyswllt Ffermio yn gyfan (ar draws y tair lot). | £9,874,485 | 72 | £1,867,940 | £11,742,425 |
| Datblygu a Mentora | • Arweinwyr ifanc ac arloeswyr busnes<br>• Ymweliadau tymor byr<br>• Dysgu Gweithredol<br>• Mentro<br>• Cyfnewidfa rheolaeth ffermydd a choedwigaeth | £886,948 | 6 | £478,642 | £1,365,590 |

| Categori | | A: Cyfanswm gwariant hyd yma (Awst 2015 - Mawrth 2019) | B: % gwariant hyd yma (Awst 2015 - Mawrth 2019) | C: Rhagamcaniad o'r gwariant sy'n weddill hyd at ddiwedd cyfnod y rhaglen (Awst 2019) | Cyfanswm y gwariant disgwyliedig erbyn diwedd cyfnod y rhaglen (A+C) |
|---|---|---|---|---|---|
| | • Mentora fferm/coedwigaeth un i un | | | | |
| Gweithgareddau Technegol | • Rhwydwaith Arddangos<br>• Hyb Gwybodaeth<br>• Grwpiau Trafod | £1,841,709 | 13 | £1,204,001 | £3,045,710 |
| Digwyddiadau a Chefnogaeth Un i Un | • Digwyddiadau ymwybyddiaeth o arallgyfeirio<br>• Digwyddiadau Cymraeg<br>• Cymorthfeydd un i un a chlinigau<br>• Ymwybyddiaeth strategol | £846,525 | 6 | £909,241 | £1,755,766 |
| Cyfathrebu | Mae hyn yn cwmpasu cyfathrebu a marchnata ar gyfer y rhaglen gyfan (h.y. Lotiau 1, 2, a 3), ac yn cynnwys costau cyfieithu a mynychu sioeau ac arddangosfeydd. | £241,893 | 2 | £363,988 | £605,881 |
| **CYFANSWM** | | **£13,691,560** | **100** | **£4,823,812** | **£18,515,372** |

*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, dyddiedig 21 Tachwedd 2019*

**Tabl 2-4: Lot 3 – Cyfanswm y gwariant hyd at fis Mawrth 2019 a'r gwariant a ragamcanwyd ar ddarparu gweithgareddau Cyswllt Ffermio**

| Categori | A: Cyfanswm gwariant hyd yma (Awst 2015 - Mawrth 2019) | B: % gwariant hyd yma (Awst 2015 - Mawrth 2019) | C: Rhagamcaniad o'r gwariant sy'n weddill hyd at ddiwedd cyfnod y rhaglen (Awst 2019) | Cyfanswm y gwariant disgwylied ig erbyn diwedd cyfnod y rhaglen (A+C) |
|---|---|---|---|---|
| Costau Cynnal y Rhaglen | £312,272 | 9% | £17,921 | £330,193 |
| Cyngor Un i Un | £1,240,249 | 34% | £418,270 | £1,658,519 |
| Hyfforddiant Grŵp | £1,861,478 | 51% | £675,437 | £2,536,915 |
| EIP – Grwpiau Gweithredol | £194,340 | 5% | £68,731 | £263,071 |
| Meincnodi | £32,839 | 1% | £88 | £32,927 |
| **Cyfanswm** | **£3,641,177** | **100%** | **£1,180,448** | **£4,821,625** |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, dyddiedig 10/09/2019

*Gwariant ar ddarpariaeth hyfforddiant a gyflenwyd gan Lantra*

2.20 Cyfanswm y gwariant o dan Lot 2 oedd £2.1 miliwn rhwng Awst 2015 a Mawrth 2019, o gymharu â tharged cyfnod y rhaglen o £2.4 miliwn (86% o'r rhagamcaniad) erbyn Awst 2019. Mae mwyafrif y gwariant hyd yma wedi bod ar hyfforddiant achrededig cyrsiau byr (44%) a chostau cynnal y rhaglen (41%). Disgwylir gwario £327K ychwanegol erbyn diwedd Awst 2019, a gyfrifir yn bennaf amdano gan wariant ar gostau cynnal y rhaglen a hyfforddiant achrediedig cyrsiau byr. (gweler Tabl 2-5)

**Tabl 2-5: Lot 2 - Cyfanswm y gwariant hyd at fis Mawrth 2019 a'r gwariant a ragamcanwyd ar ddarparu gweithgareddau Cyswllt Ffermio**

| Categori | A: Cyfanswm gwariant hyd yma (Awst 2015 - Mawrth 2019) | B: % gwariant hyd yma (Awst 2015 - Mawrth 2019) | C: Rhagamcaniad o'r gwariant sy'n weddill hyd at ddiwedd cyfnod y rhaglen (Awst 2019) | Cyfanswm y gwariant disgwyliedig erbyn diwedd cyfnod y rhaglen (A+C) |
|---|---|---|---|---|
| Costau Cynnal y Rhaglen | £851,456 | 41% | £170,455 | £1,021,911 |
| Hyfforddiant Achrededig Cyrsiau Byr | £909,307 | 44% | £98,876 | £1,008,183 |
| e-ddysgu | £125,277 | 6% | £56,740 | £182,017 |
| Cynlluniau Datblygu Personol | £183,840 | 9% | £1,125 | £184,965 |
| **Cyfanswm** | **£2,069,880** | **100%** | **£327,196** | **£2,397,076** |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, dyddiedig 10/09/2019

*Proffil o allbynnau*

2.21 Hyd yma, gwnaed cynnydd da tuag at gyflawni targedau'r rhaglen o dan Lot 1, gyda'r rhan fwyaf o'r targedau eisoes wedi'u cyflawni neu wedi mynd y tu hwnt iddynt (gweler Tabl 2-6). Aethpwyd y tu hwnt i nifer o allbynnau'n ymwneud â gweithgareddau cefnogi a gweithredu gwybodaeth, er enghraifft, mae targedau rhaglen ar gyfer clinigau, erthyglau technegol a hysbysiadau'r wasg, cymorthfeydd un i un a ffeithlenni a chanllawiau i gyd wedi mynd 200% y tu hwnt i'r targed. Mae nifer y cofrestriadau ar gyfer Cyswllt Ffermio hefyd yn llawer uwch na'r targed, gyda nifer y cofrestriadau ar hyn o bryd dros 500% yn uwch na tharged y rhaglen[9].

[9] Cafwyd y ffigur cofresstru o adroddiad cynnydd MaB ac mae'n cwmpasu Lot 1 yn unig.

2.22 Fodd bynnag, mae rhai o dargedau hyd oes y rhaglen eto i'w cyflawni, yn benodol targedau ar gyfer Cyfnewidfa Rheolaeth (44%), Academi Amaeth (75%)[10] a sioeau ac arddangosfeydd (75%). Mae'r 14 o Gyfnewidfeydd Rheolaeth a gwblhawyd hyd yma ond wedi cynnwys unigolion sydd wedi cyflwyno eu hadroddiad cyfnewid, felly mae rhagor o unigolion (tua 9) wrthi'n cwblhau'r broses. Yn ogystal, mae 20 cynnig wedi'u cymeradwyo yn y flwyddyn bresennol a gofynnwyd i ymgeiswyr gwblhau eu cyfnod cyfnewid erbyn diwedd mis Medi 2019.

2.23 Nid oes targed ar gyfer nifer y Cyd-fentrau a sefydlwyd. Fodd bynnag, hyd at Ebrill 2019, roedd 182 o "geiswyr" (141 gweithredol, 41 anweithredol) a 137 o "ddarparwyr" (65 gweithredol, 72 anweithredol) yn gysylltiedig yn y llinyn Mentro. O'r 104 o "geiswyr" a 17 o "ddarparwr" a oedd wedi cofrestru'n llawn, mae 37 o "geiswyr" a 48 o "ddarparwyr" wedi canfod cyfatebiaeth, gydag 20 wedi sefydlu Cyd-fenter hyd yma. Mae hyn yn dangos sut y mae staff cyflenwi wedi chwarae rhan bwysig mewn cyfateb, gan fynd i'r afael â'r methiannau cydlynu gwreiddiol yr oedd y gweithgaredd hwn wedi'i gynllunio i fynd i'r afael â hwy.

[10] Sylwer, cynhaliwyd cyfweliadau ar gyfer Academi Amaeth ar ddiwedd mis Ebrill lle dewiswyd 12 ymgeisydd ar gyfer pob rhaglen (ffynhonnell: Adroddiad Cynnydd ar gyfer Fframwaith Cyswllt Ffermio, Lot 1 – Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesedd Ebrill 2019).

**Tabl 2-6: Allbynnau a thargedau rhaglen Lot 1**[11]

| Disgrifiad | Targed y rhaglen (2015- 2019) | Cyflawnwyd hyd yma (Mawrth 2019) | % a gyflawnwyd yn erbyn targed y rhaglen (erbyn 19 Awst 2019) |
|---|---|---|---|
| **Hyfforddiant Galwedigaethol** | | | |
| Academi Amaeth | 12 | 9 | 75% |
| Mentora un i un | 280 | 330 | 118% |
| **Gweithgareddau cefnogi a gweithredu gwybodaeth** | | | |
| Digwyddiadau Rhwydwaith Arddangos* | 480 | 554 | 115% |
| Cyfathrebu** | 314 | 695 | D/G |
| Sioeau ac Arddangosfeydd* | 64 | 48 | 75% |
| Ffeithlenni a Chanllawiau | 24 | 52 | 217% |
| Cyhoeddiadau Technegol | 24 | 19 | 79% |
| Erthyglau Technegol a Hysbysiadau yn y Wasg | 200 | 574 | 287% |
| Cynhadledd* | 2 | 2 | 100% |
| Cyfnewid Gwybodaeth | 2* | 2* | D/G |
| Grwpiau Trafod* | 100 | 119 | 119% |
| Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Strategol* | 280 | 385 | 138% |
| Digwyddiadau Cymraeg | 24 | 0 | D/G |
| Seminarau Ymwybyddiaeth o Arallgyfeirio* | 12 | 10 | 83% |
| Grwpiau Agrisgôp* | 120 | 117 | 98% |
| Cymorthfeydd Un i Un* | 240 | 680 | 283% |
| Clinigau* | 84 | 374 | 445% |
| Mentro | D/G | D/G | D/G |
| **Cefnogi cyfnewidfeydd rheolaeth ffermydd a choedwigaeth** | | | |
| Cyfnewidfeydd Rheolaeth* | 32 | 14 | 44% |
| Ymweliadau Astudio* | 24 | 23 | 96% |

[11] *Cyfnewid Gwybodaeth - proses yw hon yn hytrach na tharged rhaglen. Mae 2 aelod o staff IBERS yn darparu cefnogaeth dechnegol a llenyddiaeth i'r Hyb Cyfnewid Gwybodaeth ar gyfer yr erthyglau technegol, ffeithlenni ac adolygiadau llenyddiaeth EIP.
** Cyfathrebu - Mae'r targed hwn wedi gostwng yn fawr ers yr adroddiad cynnydd blaenorol oherwydd y tynnwyd postiadau cyfryngau cymdeithasol ac e-fwletinau ohono, yn unol â chais Rheolwr Contract Lot 1.

| Disgrifiad | Targed y rhaglen (2015- 2019) | Cyflawnwyd hyd yma (Mawrth 2019) | % a gyflawnwyd yn erbyn targed y rhaglen (erbyn 19 Awst 2019) |
|---|---|---|---|
| **Allbynnau eraill** | | | |
| Cyfanswm nifer y digwyddiadau (y rheini a nodir gyda * uchod) | 1,730 | 2,998 | - |
| Nifer mynychwyr digwyddiadau | D/G | - | - |
| Nifer cofrestriadau Cyswllt Ffermio | 2,000 | 10,133 | 507% |
| Cyfanswm busnesau wedi cofrestru ar BAS | D/G | 10,056 | - |
| Unigolion ar BAS | D/G | 20,431 | - |
| Unigolion ar BOSS | D/G | 12,467 | - |

Ffynhonnell: Adroddiad cynnydd ar gyfer Fframwaith Cyswllt Cymru, Lot 1 – Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesedd Ebrill 2019.

2.24 Dangosir y targedau blynyddol ar gyfer Lot 2 yn Tabl 2-7. Gwnaed cynnydd da tuag at gyrraedd y targedau blynyddol ar gyfer achosion o ddysgu un i un ac ar-lein (92% o'r targed wedi'i gyflawni), ac ar gyfer cwblhau Cynlluniau Datblygu Personol (76%).

2.25 Mae nifer y modiwlau e-ddysgu newydd a gynhyrchwyd ers dechrau'r rhaglen ar ei hôl hi o ran y targed. Er bod 18 o fodiwlau wedi'u cynhyrchu yn y cyfnod presennol, dywed adroddiad cynnydd Ebrill 2019 bod datblygiad pellach wedi'i oedi oherwydd meini prawf newydd arfaethedig ynglŷn â'r cynnig.

**Tabl 2-7: Targedau ac allbynnau blynyddol Lot 2**

| Disgrifiad | Targed blynyddol | Cynnydd yn erbyn y targed blynyddol | % a gyflawnwyd yn erbyn y targed blynyddol |
|---|---|---|---|
| Achosion o hyfforddiant achrededig un i un | 1,500 | 535 | 92% |
| Achosion o e-ddysgu ar-lein wedi'u cwblhau | | 848 | |
| Cynlluniau Datblygu Personol | 800 | 608 | 76% |
| Modiwlau hyfforddiant e-ddysgu newydd wedi'u cynhyrchu | 30 | 18 | 60% |

Ffynhonnell: Adroddiad cynnydd ar gyfer Fframwaith Cyswllt Cymru, Lot 2 – Dysgu Gydol Oes a Datblygu Ebrill 2019.

2.26 Rhoddir manylion targedau blynyddol ac allbynnau ar gyfer Lot 3 yn Nhabl 2-8. Pan fo targedau Blwyddyn 4 yn berthnasol, cyflawnwyd 590 o hawliadau hyfforddiant grŵp yn erbyn targed o 200 a chyflawnyd 328 o gyngor un i un yn erbyn targed o 800 (mae'n debygol fod hyn oherwydd yr oedi rhwng ceisiadau cymeradwyedig ac yna cyflenwi a hawliadau ariannol).

2.27 Sefydlwyd 119 o Grwpiau Trafod ers dechrau'r rhaglen a oedd yn cynnwys dros 1,000 o fusnesau. Cyflawnwyd y targed 30% o feincnodi aelodau Grwpiau Trafod, gyda 32% o fusnesau yn defnyddio Mesur i Reoli (M2M) a dros 50% yn defnyddio dulliau meincnodi eraill. Yn yr un modd, adroddodd 40% o'r Grwpiau hyn eu bod wedi defnyddio M2M, tra bod dros 50% o'r grwpiau yn defnydio dulliau meincnodi eraill.

**Tabl 2-8: Targedau ac allbynnau blynyddol Lot 3**

| Disgrifiad | Cyflawnwyd dros flwyddyn 1 i 3 | Targed Blwyddyn 4 | Cyfanswm Blwyddyn 4 hyd yma | % a gyflawnwyd yn erbyn y targed blynyddol |
|---|---|---|---|---|
| **Cefnogi'r defnydd o'r gwasanaeth cynghori** | | | | |
| Hawliadau cyngor un i un | 796 | 800 | 328 | 41% |
| Hawliadau unigol hyfforddiant grŵp | 1,053 | 200[12] | 590 | 295% |
| Cyfanswm nifer y grwpiau a hawliwyd | 283 | D/G | 156 | D/G |
| Grŵp gweithredol – arloesedd | 16 | 45 dros hyd oes RDP | 6 | D/G |
| **Meincnodi – mesur i reoli** | | | | |
| | | **Cynnydd ers dechrau'r rhaglen** | | |
| Nifer y busnesau mewn Grwpiau Trafod | | - | | 1,041 (161 gan grwpiau sydd wedi chwalu) |
| Nifer y busnesau yn meincnodi (M2M) | | | | 336 |
| Nifer y busnesau yn meincnodi (Arall) | | 30% o Aelodau Grwpiau Trafod yn Meincnodi | | 578 |
| Nifer y busnesau yn meincnodi (M2M) % | | | | 32% |
| Nifer y busnesau yn meincnodi (Arall) % | | | | 53% |
| Grwpiau (cyfanswm) | | | | 119 (96 o grwpiau cyfredol)[13] |
| Grwpiau yn meincnodi M2M (%) | | | | 44% |
| Grwpiau yn meincnodi Arall (%) | | | | 56% |

[12] Sylwer, cyfeiriodd y targed hwn yn wreiddiol at 200 o grwpiau, fodd bynnag, yn dilyn dryswch ar ddechrau'r rhaglen, tybiodd contractwyr bod hyn yn golygu 200 o unigolion o fewn grwpiau. Gan fod hyfforddiant grŵp wedi bod yn fwy poblogaidd na'r disgwyl, addaswyd y targed hwn i gyfeirio at unigolion o fewn grŵp.

[13] 119 yw cyfanswm y grwpiau sydd wedi'u sefydlu ers dechrau'r rhaglen - mae 23 wedi eu diddymu neu wedi cyfuno fel dau grŵp.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cefnogi'r defnydd o wasanaethau cynghori – Bwyd** | | | | |
| Fframwaith bwyd | D/G | 3 | D/G | D/G |
| **Cefnogi sefydlu gwasanaeth cynghori** | | | | |
| Sefydlu a rheoli gwasanaethau cynghori | 1 | 1 | - | - |

Ffynhonnell: Adroddiad cynnydd ar gyfer Fframwaith Cyswllt Cymru, Lot 3 – Gwasanaeth Cynghori Ebrill 2019.

**Proffiliau ac ymgysylltiad buddiolwyr**

2.28 Mae'r isadran hon yn cyflwyno'r canfyddiadau allweddol o ddadansoddiad data monitro (BAS) Cyswllt Ffermio, sy'n cwmpasu nodweddion yr unigolion a'r busnesau sydd wedi cofrestru gyda'r rhaglen, ac yn y rhan fwyaf o achosion wedi derbyn cefnogaeth, yn ogystal â'r mathau o gefnogaeth a ddarparwyd drwy'r rhaglen. Mae'r data monitro a ddadansoddwyd yn cwmpasu'r cyfnod hyd at ddiwedd Rhagfyr 2018.

*Proffil yr unigolion*


2.29 Roedd bron i 20,000 o unigolion wedi cofrestru gyda rhaglen Cyswllt Ffermio erbyn 2018[14]. Mae eu nodweddion allweddol fel a ganlyn:

- Gan ystyried natur y sector, mae bron i ddwy ran o dair ohonynt yn wrywaidd, ond yn galonogol mae 30% o'r unigolion sydd wedi cofrestru yn fenywod
- Mae ychydig dan dri chwarter y ffermwyr sydd wedi cofrestru yn nodi Saesneg fel eu dewis iaith ar gyfer gohebiaeth
- Mae'r rhaglen wedi denu unigolion ar draws pob grŵp oedran 16 i 75 a throsodd. Nid yw'r categorïau a ddefnyddir ar gyfer cofnodi oedran ar raddfa wastad ond y grŵp uchaf a gynrychiolir yw'r rheini rhwng 25-40 oed (24%) a 51-60 oed (22%)
- Mae unigolion y mae eu rôl yn "bartner busnes" neu'n "bennaeth daliad" yn cyfrif am dros hanner (57%) yr unigolion sydd wedi cofrestru, ond mae "partneriaid" a "meibion" hefyd yn gwneud cyfran sylweddol o'r rheini sydd wedi cofrestru, sef 15% a 14% yn yr un drefn

[14] Mae'r ffigur hwn yn cynnwys myfyrwyr a chontractwyr.

- Y siroedd mwyaf o ran eu maint daearyddol sydd hefyd â'r nifer mwyaf o unigolion cofrestredig. Mae'r rheini o Bowys yn cyfrif am bron i chwarter (24%) yr holl gofrestriadau, gyda'r rheini o Sir Gaerfyrddin yn cyfrif am 14% tra bod Ceredigion, Sir Benfro a Gwynedd yn cyfrif am 10% yr un
- Ar gyfartaledd, mae dau unigolyn wedi cofrestru ar gyfer pob busnes, ond mae'r ffigur hwn yn amrywio'n sylweddol gyda llawer o unigolion wedi cofrestru mewn rhai busnesau (mewn un achos, 31 o unigolion). O ystyried dim ond y rheini sydd wedi ymgysylltu'n weithredol, cyfartaledd nifer yr unigolion sydd wedi ymgysylltu fesul busnes yw llai na dau (1.7) a'r uchafswm yw 21 o unigolion.

**Ffigur 2-5: Nodweddion unigolion**




Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW o ddata BAS

*Dwyster yr ymgysylltu*


2.30 Mae dros ddwy ran o dair (69%) o'r unigolion cofrestredig wedi ymgysylltu'n weithredol â'r rhaglen. Nid yw'r 31% sy'n weddill wedi ymgysylltu hyd yma. Mae ymgysylltiad yn amrywio yn ôl teitl swydd, a'r unigolion y mae eu rôl naill ai'n "fyfyriwr[15]", "gŵr/gwraig" neu "ferch" sydd â'r gyfradd ymgysylltu isaf, sef 44%, 43% a 41% yn yr un drefn.

[15] Dylid cymryd gofal gyda'r ffigur hwn gan fod cyfanswm y myfyrwyr yn fach Mae'r ffigur hwn yn cynnwys myfyrwyr a chontractwyr (n=25).

2.31 Ymhlith y rheini sydd wedi ymgysylltu'n weithredol, mae'r mwyafrif wedi ymgysylltu gydag un Lot yn unig (63%), mae bron i draean (31%) wedi ymgysylltu gyda dwy Lot, a dim ond 6% sydd wedi ymgysylltu â gweithgaredd ym mhob un o'r tair Lot. Mae cyfran yr unigolion sydd wedi ymgysylltu gyda gwahanol Lotiau i'w gweld yn Ffigur **Error! No text of specified style in document.**-3. Mae bron i hanner yr unigolion sydd wedi ymgysylltu â rhyw weithgaredd, wedi ymgysylltu â Lot 1 yn unig (45%). Mewn cymhariaeth, mae cyfran fechan o unigolion wedi ymgysylltu â Lot 2 neu Lot 3 yn unig, sef 9% a 8% yn yr un drefn. Pan fo unigolion wedi ymgysylltu â mwy nag un Lot, byddant fel arfer yn cwblhau gweithgareddau o dan Lot 1 mewn cyfuniad â Lot 2 neu Lot 3.

2.32 Mae'r ymgysylltiad yn ôl Lotiau yn amrywio yn dibynnu ar deitl swydd, er enghraifft, mae mwyafrif y "myfyrwyr" wedi ymgysylltu â Lot 2 yn unig (79%), ac mewn cymhariaeth, mae'r rhan fwyaf o unigolion sy'n "bartner busnes" neu'n "bennaeth daliad" wedi ymgysylltu â Lot 1 yn unig, sef 54% a 51% yn yr un drefn.

**Ffigur** Error! No text of specified style in document.**-3: Cefnogaeth a gyrchwyd gan *unigolion* sydd wedi cofrestru**




Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW o ddata BAS

*Proffil busnesau*

2.33 **Mae 9,576 o fusnesau/daliadau unigryw wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio**, sy'n cynrychioli chwarter yr holl ddaliadau amaethyddol yng Nghymru [16]. Mae nifer y busnesau unigryw sydd wedi cofrestru yn sylweddol is na nifer yr unigolion sydd wedi cofrestru oherwydd yn aml mae mwy nag un unigolyn wedi cofrestru fesul busnes. Mae'r rhan fwyaf o fusnesau yn gweithredu yn y sector Amaethyddol (95%), Eidion yn bennaf (37%) a'r sectorau Defaid/Geifr (36%)[17]. Fel y gellid disgwyl, mae daearyddiaeth busnesau yn adlewyrchu'n agos lle mae unigolion wedi'u lleoli, gyda'r rhan fwyaf o fusnesau cofrestredig wedi'u lleoli ym Mhowys (23%) a Sir Gaerfyrddin (14%). Mae'r rhan fwyaf o fusnesau yn gymwys ar gyfer Cyswllt Ffermio fel "busnes ffermio" (92%), gyda chyfran fechan o fusnesau'n gymwys fel "myfyriwr" (5%).

2.34 Ar adeg cofrestru, roedd gan hanner y busnesau drosiant o rhwng £10K a £100K, ac roedd gan leiafrif sylweddol (17%) drosiant llai na £10K. Mae mwyafrif y busnesau (81%) yn rheoli llai na 200 hectar, gyda dros hanner (57%) yn rheoli llai na 100 hectar. Mae ychydig dros 2% o'r busnesau yn rheoli dros 500 hectar[18]. Nid oes gan tua dwy ran o dair o'r busnesau cofrestredig (64%) gyflogeion. O'r 36% (tua 3,400) o'r busnesau sydd â chyflogeion, mae gan 40% ohonynt un cyflogai llawn amser, a 35% ohonynt un cyflogai rhan amser[19]. Gan ystyried dim ond y busnesau hynny sydd wedi ymgysylltu, mae nodweddion busnesau yn debyg i'r boblogaeth Cyswllt Ffermio. Mae mwyafrif y busnesau yn rheoli llai na 200 hectar (80%), gyda throsiant llai na £500K (94%) a dim cyflogeion (63%)[20]. Mae maint y busnesau Cyswllt Ffermio yn gymharus o ran maint i fusnesau amaethyddol ar draws Cymru; yn 2016/17, cyfartaledd incwm busnes fferm (FBI) oedd £25,000 a'r maint daliad cyfartalog yng Nghymru ym Mehefin 2017 oedd 48 hectar[21].

[16] Ffynhonnell: Ffeithiau a Ffigurau Ffermio Cymru 2018, Llywodraeth Cymru - ar draws pob math o fferm roedd 38,470 o ddaliadau yn 2017. Sylwer, y ffigur a ddefnyddir yw nifer y daliadau, fodd bynnag, mae gan rai busnesau fwy nag un daliad yn gysylltiedig â'u busnes, felly mae cyfanswm y busnesau cymwys yn is na'r ffigur hwn. Ffigur mwy cywir fyddai nifer y rhifau cyfeirnod cwsmeriaid yn hytrach na nifer y daliadau. Er y cydnabuwyd y cyfyngiad hwn, nid oedd ffigur mwy priodol ar gael ar adeg cyhoeddi.
[17] Mae'r categorïau hyn yn annibynnol ar ei gilydd, rhaid i ffermwyr ddewis un prif sector yn unig yn BAS.
[18] Yn ôl DEFRA et al. 2017, Agriculture in the UK, cyfartaleee maint daliad >=20ha yng Nghymru ym mis Mhehefin 2017 oedd 99ha, o gymharu â 139ha yn Lloegr, 292ha yn yr Alban a 62ha yng Ngogledd Iwerddon.
[19] Sylwer, darperir y data hwn ar adeg cofrestru ac felly gall newid dros amser.
[20] Sylwer, gallai cwmnïau sydd heb gyflogeion fod â gweithwyr amaethyddol megis meibion/merched/cymar sydd ddiim yn derbyn tâl yn ffurfiol fel cyflogai ond sy'n aml yn ffurfio rhan or bartneriaeth.
[21] Ffynhonnell: DEFRA, 2018, Agriculture in the United Kingdom 2017.

**Ymgysylltiad â Cyswllt Ffermio**

*Lot* 1 a 3 (Trosglwyddo gwybodaeth a gwasanaethau cynghori)

2.35 **O dan Lot 1, y digwyddiad a fynychwyd yn fwyaf cyffredin yw un ar "ymwybyddiaeth strategol**", sy'n cyfrif am 29% (tua 12,900) o gyfanswm yr ymgysylltu gyda Lot 1. Mae "Grwpiau Trafod" (17%) a "Digwyddiadau Arddangos" (14%) hefyd wedi bod yn gyfrifol am gyfran sylweddol o'r holl ymgysylltu gyda gweithgareddau Lot 1, wedi'u dilyn gan "Agrisgôp" (8%) a "Cymorthfeydd un i un" [22].

2.36 Mewn cymhariaeth, roedd rhai gweithgareddau ond yn gyfrifol am gyfran fach o'r holl ymgysylltu gan fuddiolwyr, er enghraifft, "Mentora Un i Un" (n=491 ymgysylltiad gan n=144 buddiolwr), "Academi Amaeth" (n=376 ymgysylltiad gan n=139 buddiolwr), a "Gweithdai Mentro" (n=135) [23]. Cyfartaledd nifer y digwyddiadau a fynychwyd fesul unigolyn yw pedwar, gydag uchafswm o 66 o ddigwyddiadau wedi cael eu mynychu gan un unigolyn.

2.37 **Hyd yma, cyflwynwyd dros 3,400 o geisiadau cynghori o dan Lot 3, gyda 2,183 (63%) ohonynt wedi cael eu hawlio hyd yma[24]**. Mae cefnogaeth wedi cael ei hollti rhwng cyngor grŵp (55%) a chyngor un i un (43%)[25]. Er mwyn cyrchu cefnogaeth o dan Lot 3, mae'r rhan fwyaf o unigolion wedi mynychu digwyddiad Trosglwyddo Gwybodaeth penodol (49%) neu wedi datblygu cynllun busnes drwy Cyswllt Ffermio (38%) i ddangos sut y gellid datblygu'r cyngor a dderbyniwyd. Mae'r gweddill wedi cwblhau cynllun busnes o dan y rhaglen Cyswllt Ffermio flaenorol (8%) neu wedi drafftio un eu hunain / yn breifat gyda chymorth o rywle arall (6%).

2.38 Mae busnesau sy'n gweithredu yn y sectorau Cig a Llaeth yn gyfrifol am y gyfran fwyaf o fusnesau sydd wedi derbyn cefnogaeth hyd yma, sef 35% ar gyfer pob sector. Y categori cyngor a gwblhawyd amlaf oedd "technegol - rheoli glaswelltir a chnydau", fodd bynnag, mae hyn yn amrywio yn ôl math cynghori - ar gyfer cyngor un i un, "cynllunio busnes" oedd yr un a gwblhawyd amlaf, ac ar gyfer cyngor grŵp, "technegol

[22] Sylwer, mae'r ffigurau hyn yn cyfeirio at gyfanswm nifer yr ymgysylltiadau gyda phob llinyn gweithgredd o o dan Lot 1, nid cyfanswm buddiolwyr unigryw sydd wedi ymgysylltu.

[23] Rydym ar ddeall gan MaB bod 400+ o bobl wedi mynegi diddordeb yn Mentro hyd yma, sydd fel petai'n cydweddu â'r ffigurau a ddyfynnir ar gyfer dilyn i fyny ym mharagraff 2.22, uchod ond mae data BAS yn dangos dim ond 6 digwyddiad Mentro gyda 135 o fynychwyr.

[24] Sylwer, mae'r ffigur hwn yn cynnwys ceisiadau sydd wedi eu hawlio hyd yma yn unig, mae'r ffigur cyffredinol ar gyfer cyfradd cais i hawliad yn tua 80%.

[25] A hefyd grŵp 1% - mentrau ar y cyd.

- rheoli glaswelltir a chnydau" oedd yr un a gwblhawyd amlaf. Y thema drawsbynciol fwyaf cyffredin yr aed i'r afael â hi oedd 'Rheolaeth Gynaliadwy Adnoddau Naturiol.

*Lot 2 (dysgu gydol oes a datblygu)*

2.39 O dan Lot 2 cyflwynwyd 5,924 o geisiadau hyfforddiant hyd at ddiwedd Rhagfyr 2018. Cyfartaledd nifer y ceisiadau hyffroddiant fesul unigolyn yw dau, gyda'r uchafswm hyd yma yn un ar ddeg[26]. Mae dros dri chwarter y ceisiadau hyn wedi cael eu cwblhau/cefnogi hyd yma.

2.40 Mae cyfartaledd o un cwrs hyfforddi wedi'i fynychu fesul unigolyn, gydag uchafswm o saith cwrs wedi'u cwblhau gan un person. O'r tua 3,200 o geisiadau hyfforddiant sydd wedi'u cwblhau, "peiriannau ac offer" yw'r categori hyfforddiant mwyaf cyffredin (50% o'r cyrsiau hyfforddi wedi'u cwblhau) ac yna cefnogaeth "dechnegol" (35%). Mewn cymhariaeth, mae "gwella busnes" wedi cyfrif am 14% o'r cyrsiau a gwblhawyd hyd yma.

2.41 Mae hyfforddiant wedi'i ledaenu ar draws 53 o wahanol gyrsiau, gyda "Dyfarniad Lefel 2 mewn Defnydd Diogel o Blaladdwyr (PA1) a Defnydd Diogel o Blaladdwyr gan ddefnyddio Offer Chwistrellu ar Gerbyd (PA2)" a "Dyfarniad Lefel 2 mewn Defnydd Diogel o Blaladdwyr (PA1) Defnydd Diogel o Blaladdwyr gan ddefnyddio Offer Llaw (PA6)" y cyrsiau a gwblhawyd amlaf gan gyfrif am 18% a 10% o'r holl gyrsiau a gwblhawyd (yn yr un drefn).

2.42 Mae mathau o gyrsiau yn amrywio yn ôl sector busnes. Er enghraifft, mae cyrsiau "gwella busnes" yn cyfrif am y mwyafrif o gyrsiau hyfforddiant a gwblhawyd ymhlith unigolion sy'n gweithio ym maes Amaethyddiaeth - sector Moch, tra bod deiliaid/perchnogion coedwigoedd yn cwblhau'r cwrs hyfforddi "peiriannau ac offer" fwyaf aml. Mae myfyrwyr amaethyddiaeth, coedwigaeth a garddwriaeth wedi cwblhau cyrsiau "peiriannau ac offer" yn fwyaf aml.

2.43 Coleg Sir Gâr sydd wedi darparu'r nifer mwyaf o gyrsiau hyfforddi hyd yma (12%), ac yna Jimmy Hughes Services Ltd (11%) a Simply the Best Training Consultancy Ltd (11%). Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn darparu mwy nag un math o gwrs hyfforddi, gyda saith darparwr yn darparu dros 20 o wahanol gyrsiau. Jimmy Hughes Services Ltd sydd wedi darparu'r ystod fwyaf, gyda 33 o wahanol gyrsiau.

[26] Ffigur ond yn cynnwys unigolion sydd wedi cwblhau un neu ragor o geisiadau.

# 3. Gweithredu

3.1 Yn yr Adran hon rydym yn cyflwyno canfyddiadau ar y cynnig Cyswllt Ffermio ac effeithiolrwydd y cyflenwi drwy siwrnai'r cwsmer, yn cynnwys agweddau ar y rhaglen sy'n gweithio'n dda (neu ddim) a pham. Rydym hefyd yn asesu integreiddiad mewnol y rhaglen a gallu buddiolwyr i lywio drwy'r cynnig, ac effeithiolrwydd gweithgareddau cyfathrebu. Yn olaf, rydym yn rhoi adborth ar reolaeth a threfniadau llywodraethu, ac i ba raddau y mae Cyswllt Ffermio yn gweithio'n dda gyda phartneriaid. Mae'r deunydd a gyflwynir isod yn defnyddio ymgynghoriadau gyda staff rheoli, cyflenwi a llywodraeth a phartneriaid allanol, ochr yn ochr â'n grwpiau ffocws ac astudiaethau achos.

**Y Cynnig Cyswllt Ffermio**

3.2 Cynigir ystod eang o gefnogaeth, **wedi'i gynllunio i gynrychioli gwahanol anghenion ffermwyr**, eu cam yn eu busnes/gyrfa, profiad o arloesedd, a'r dulliau dysgu a datblygu a ffafrir ganddynt. Mae Cyswllt Ffermio yn rhaglen fawr ac amlweddog – sydd â goblygiadau ar gyfer y lefel o reoli a chydgysylltu sydd ei angen – ond roedd ymgynghoreion yn gwerthfawrogi'r modd y mae'n cynnig "siop un stop" a "rhywbeth i bawb". Wedi dweud hynny, roedd peth pryder ymhlith rhanddeiliaid allanol bod y rhaglen mor eang fel bod diffyg cydlyniaeth ar gyfer y rheini a oedd yn llai agos i'r rhaglen, a bod y dull "blanced" yn gwanhau ei heffaith (rydym yn archwilio hyn mewn rhagor o fanylder isod).

3.3 Yn hollbwysig, teimlwyd ei bod yn cynnig y **cyfle ar gyfer cynnydd** tuag at newid mwy arloesol a trawsnewidiol wrth i hyder unigolion dyfu. Mae hirhoedledd Cyswllt Ffermio wedi bod yn bwysig mewn rhoi'r gefnogaeth barhaus drwy gydol siwrneiau'r ffermwyr. Disgrifiodd yr ymgynghoreion sut y mae Cyswllt Ffermio yn rhaglen "gyfarwydd", "yn un a berchir" ac sydd â "pharch mawr" iddi ar draws Cymru. Roedd ymgynghoreion hefyd yn cytuno bod heriau parhaus wrth annog ffermwyr i ymgysylltu mewn cefnogaeth allanol a bod y cyd-destun ffermio yn ddigon nodedig a penodol i gyfiawnhau dull gwahaniaethol ar gyfer ei gefnogaeth fusnes (yn hytrach na disgwyl i ffermwyr ddefnyddio cynnig generig, a ddarperir i bob sector busnes).

3.4 Yn ogystal â throsglwyddo gwybodaeth am **gyngor ymarferol a datblygiad sgiliau technegol** ac ati, mae newid agweddau tuag at **reoli busnes yn thema allweddol** drwy lawer o'r gweithgareddau (ac ystyrir yn bwysig er mwyn galluogi newid). Mae'r gweithgareddau wedi'u cynllunio i fod yn ategol yn fewnol (o fewn y rhaglen) ac yn

allanol (gyda chefnogaeth arall sy'n cael ei chynnig). Mae rhai meysydd cymharol fychan o ddyblygu o fewn Cyswllt Ffermio (e.e. cyrsiau datblygu busnes yn Lotiau 1 a 2) wedi cael eu dileu yn y rhaglen bresennol.

3.5 Mae'n ymddangos bod nodau ac amcanion Cyswllt Ffermio (CFf) yn cael eu deall yn dda gan y cyrff cyflenwi a'r sefydliadau partner. Ar draws y sail cwsmeriaid, roedd peth pryder ymhlith nifer o randdeiliaid, tra bo ffermwyr yn ymwybodol iawn bod cefnogaeth ar gael drwy Cyswllt Ffermio, roedd rhai wedi colli golwg ar y nodau a'r rhesymeg waelodol ar gyfer y rhaglen. Er enghraifft:

> 'Mae CFf yn rhan o ethos y mwyafrif o ffermwyr, ond nid ydynt yn deall y nod ehagnach'

3.6 Mae gwahaniaeth bychan rhwng ystyried mai'r nod yw "darparu cefnogaeth" (h.y. ymgysylltu mewn gweithgareddau) o gymharu â "gwella perfformiad busnes" (h.y. ysgogi newid mewn canlyniadau). Mae MaB yn mynd i drafferth i hyrwyddo effaith bosibl cymryd rhan, ond roedd rhanddeiliaid yn dal yn bryderus nad hon oedd y brif ffactor bob amser mewn ysgogi ymgysylltu yn y rhaglen ac roedd rhai ffermwyr yn cymryd rhan "oherwydd ei fod ar gael" yn hytrach nag fel llwybr i newid. Roedd pryderon bod ffermwyr yn mynychu gweithgareddau Cyswllt Ffermio ar hap heb wir gymhelliant i newid, cyn ac wedi cefnogaeth. Pan anogodd hyn ffermwyr i feddwl neu weithredu'n wahanol, hyd yn oed pan nad oedd ffermwyr yn sylweddoli bod angen newid nes eu bod wedi cymryd rhan, ni welwyd hyn fel problem gan ymgynghoreion. Fodd bynnag, roedd mwy o bryder pan fo ffermwyr yn ymgysylltu â'r rhaglen heb nod terfynol i ysgogi effaith (trafodir hyn hefyd mewn rhagor o fanylder isod).

**Effeithiolrwydd siwrnai'r cwsmer**

*Marchnata, codi ymwybyddiaeth a'r galw*

3.7 Mae Cyswllt Ffermio yn defnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau a mecanweithiau i godi ymwybyddiaeth o'r cynnig ar draws y gymuned ffermio. Cafodd hyn ei lywio gan ymchwil cynharach i ymrannu cynulleidfa darged y rhaglen a gwahaniaethu'r dull marchnata (h.y. deunyddiau, negeseuon, mecanweithiau) yn unol â hynny. Ar y cyfan, teimlai ymgynghoreion bod hyrwyddiad Cyswllt Ffermio yn gryf:

- Teimlwyd bod y dull amlweddog yn bwysig, o gofio amrywiaeth marchnad darged y rhaglen.

- Mae'r rhaglen yn gwneud defnydd da o gyfryngau cymdeithasol, sydd wedi denu dilyniant cryf a chynyddol (yn arbennig ymhlith pobl iau). Ar yr un pryd, mae hysbysebu yng ngwasg y diwydiant ac ati yn parhau'n bwysig.
- Mae'r rhaglen yn gweithio gyda rhai partneriaid a chyfryngwyr i ddefnyddio eu rhwydweithiau/mynediad i'r gymuned ffermio (er y gellid gwneud rhagor yn hyn o beth, gweler isod). Cynorthwywyd hyn drwy gynnwys sefydliadau allweddol fel rhan o gonsortiwm MaB yn hytrach na bod y cyrff hyn yn cystadlu gyda Cyswllt Ffermio. Hefyd, yn ddiweddar mae MaB wedi treialu cyfarfodydd brecwast gyda chyfryngwyr (e.e. cyfrifyddion, cyfreithwyr, rheolwyr banc) sydd wedi cael eu mynychu'n dda ac wedi rhoi mynediad at eu cwsmeriaid.
- Teimlir bod presenoldeb Swyddogion Datblygu yn y gymuned leol yn hollbwysig er mwyn codi ymwybyddiaeth: mae targedau i gynnal 12 digwyddiad agored, gan arwain at 60 o ymholiadau yr un i Cyswllt Ffermio bob blwyddyn, wedi helpu i hybu ymgysylltiad.
- Mae ehangu'r meini prawf cymhwyster, e.e. i fyfyrwyr a chontractwyr, a chyflwyno presenoldeb mewn digwyddiadau Cyswllt Ffermio fel rhagamod ar gyfer grantiau, wedi cynorthwyo i ehangu cyrhaeddiad (er bod peth pryder bod ehangu cymwhyster hefyd wedi ymgysylltu mwy o ffermwyr hamdden sydd o bosibl â llai o ddiddrodeb mewn newid sylweddol, gweler isod).

3.8 **Mae ehangu cyrhaeddiad Cyswllt Ffermio yn parhau'n her.** Cwestiynodd rhai rhanddeiliaid allanol ai'r nod ddylai fod i ehangu ymgysylltiad mewn cefnogaeth (drwy ledaenu'r cynnig yn eang a thenau) neu i greu gwir effaith drwy ganolbwyntio ymdrechion lle mae mwy o botensial ar gyfer newid. Awgrymodd ffermwyr yr ymgynghorwyd â hwy drwy'r grwpiau ffocws ac astudiaethau achos hefyd na fyddai fawr o werth parhau i geisio gweithio gyda'r rheini sy'n parhau i beidio ag ymgysylltu, gan fod y rhaglen mor adnabyddus. Fel y daeth un grŵp ffocws i gasgliad, o ystyried prinder adnoddau, ni ddylid gwario arian cyhoeddus yn 'gwastraffu amser yn mynd ar ôl y rheini sydd ddim eisiau cael cymorth'. Wedi dweud hynny, roedd rhai ymgynghoreion o'r farn y gallai nifer o'r mathau hyn o fusnesau elwa fwyaf o gael cefnogaeth ac efallai bod angen iddynt gael eu cefnogi mewn gwahanol ffyrdd, yn arbennig gan y gallai'r newidiadau mewn polisi a grëir gan Brexit arwain at newid strwythurol yn y diwydiant.

3.9 Gan dybio bod ehangu ac adnewyddu cyrhaeddiad yn parhau'n flaenoriaeth ar gyfer y rhaglen (yn arbennig yr angen i atgoffa busnesau presennol yn y sector a throsglwyddo gwybodaeth i'r genhedlaeth nesaf a newydd-ddyfodiaid), awgrymodd ymgynghoreion y gellid gwneud mwy:

- **defnyddio rhwydweithiau partneriaid a chyfryngwr i annog mwy o atgyfeiriadau**, ac archwilio posibiliadau ar gyfer rhagor o farchnata ar y cyd. Disgrifiodd un ymgynghorai lawer o'r deunydd marchnata fel "goddefol" ac yn ddibynnol ar y ffermwr i fynegi diddordeb - fodd bynnag, os oes cyfryngwyr yn gysylltiedig, gallent chwarae mwy o ran mewn annog ffermwyr i fanteisio, gan arwain at fwy o ymgysylltu a gwell canlyniadau. Yn gysylltiedig â hyn, mae lle i weithio'n agosach gyda phartneriaid i "drosi'r" cynnig Cyswllt Ffermio i iaith briodol ar gyfer sail cleientiaid partneriaid. Er enghraifft, roedd pryder y teimlir bod y rhaglen yn "rhy gorfforaethol" a brawychus ar gyfer ffermwyr iau sy'n gyndyn i ffonio/e-bostio pobl nad ydynt yn eu hadnabod; gallai codi ymwybyddiaeth wedi'i deilwra drwy lwybrau cyfryngu yr ymddiriedir ynddynt fod yn fwy effeithiol
- **cael cymorth buddiolwyr Cyswllt Ffermio a ystyrir yn "ddylanwadwyr allweddol**" er mwyn chwarae mwy o rôl (trafodir hyn mewn rhagor o fanylder isod, hefyd mewn perthynas â lledaenu dysgu o Cyswllt Ffermio i gynulleidfa ehangach) [27]
- **teilwra a thargedu deunyddiau marchnata yn fwy effeithiol**. Roedd teimlad bod rhai o'r deunyddiau yn cael eu gwthio i bob grŵp gyda'r gobaith y bydd peth ohono'n taro deuddeg gyda'r darllenydd, ond yn ymarferol mae ffermwyr yn teimlo wedi'u llethu gan swm y wybodaeth y maent yn ei dderbyn ac yn aml yn ei anwybyddu. Fel y nododd un rhanddeiliaid allanol, "mae'n hawdd cyrraedd pwynt dirlawn", a theimlai rhai rhanddeiliaid bod y cynnig mor eang a chymhleth fel ei fod yn drysu ffermwyr
- **ailgysylltu â'r rheini sydd wedi cofrestru ond heb ymgysylltu** er mwyn dangos perthnasedd Cyswllt Ffermio i'w busnesau. Er enghraifft, awgrymodd un rhanddeiliad allanol y gallai ffermwyr ar raddfa fawr/perchnogion tir a oedd wedi ymgysylltu â Cyswllt Ffermio nifer o flynyddoedd yn ôl ond heb wneud ers hynny feddwl nad oes gan y rhaglen fawr o berthnasedd iddynt hwy, a gallant

[27] Sylwer, mae hwn wedi'i roi ar waith wedi'r ymgynghoriad.

ddanbrisio sut y gallai helpu i fynd â'u busnes "i'r lefel dechnegol nesaf". Dylid nodi y rhoddwyd ymgyrch ar waith llynedd i ymgysylltu â busnesau sydd wedi cofrestru ond heb ymgysylltu, ond nid oedd yr ymgynghorai yn ymwybodol o'r digwyddiad hwn.

3.10 Nid oes gan garfanau mawr o ffermwyr chwaith sgiliau a hyder o ran TG a/neu mae eu darpariaeth/cyflymder band eang yn wael sy'n golygu bod deunyddiau marchnata mwy traddodiadol yn parhau'n bwysig. Fodd bynnag, mae heriau'n dal i fodoli ynglŷn â chofrestru ar-lein ac ymgysylltiad parhaus gyda'r cynnig. Roedd ymgynghoreion allanol yn poeni bod y broses gofrestru, system BOSS a CDP gorfodol (ar gyfer y rheini sy'n dymuno gwneud cais am hyfforddiant), hyd yn oed ar gyfer y rheini sy'n llythrennog o ran TG, yn gweithredu fel "rhwystr at fynediad".

*"Pwyntiau mynediad" ac assesiad o anghenion*

3.11 Mae nifer o "bwyntiau mynediad" i Cyswllt Ffermio, ond teimlir bod y Swyddogion Datblygu a digwyddiadau agored yn bwyntiau cyswllt cyntaf hollbwysig gyda'r rhaglen. Mae cynyddu nifer y Swyddogion Datblygu yn y rhaglen gyfredol, gan ganiatáu ar gyfer darpariaeth fwy dwys mewn ardaloedd llai, wedi bod yn ddefnyddiol iawn yn hyn o beth.

3.12 Mae i ba raddau yr asesir anghenion ffermwyr ar y cychwyn yn amrywio.

- Bydd rhai ffermwyr yn cael trafodaeth "anffurfiol" gyda Swyddog Datblygu, sydd wedyn yn eu cyfeirio at gefnogaeth berthnasol o fewn y rhaglen. Gall hwn fod yn sgwrs unwaith yn unig neu'n un barhaus gyda'r ffermwr. Canmolwyd Swyddogion Datblygu am eu dull rhagweithiol ar gyfer hyn ar draws y gymuned, gan ddarparu "drws agored" parhaus ac arweiniad defnyddiol.
- Bydd rhai ffermwyr yn dod yn uniongyrchol i'r rhaglen drwy'r wefan ac yn hunanddewis y gefnogaeth fwyaf priodol i ddiwallu eu hanghenion.
- Mae rhai gweithgareddau o fewn y rhaglen yn cynnwys asesiad o angen ar y cychwyn – a allai ganolbwyntio'n gul ar fater penodol (er enghraifft, mewn achos rhai Gwasanaethau Cynghori) neu eu trafod yn fwy eang (e.e. yng nghyd-destun thema grŵp Agrisgôp, neu heriau busnes cyffredinol yr ymdrinnir â hwy gan gefnogaeth mentora).

3.13 Ar y cyfan, teimlir bod yr hyblygrwydd hwn yn briodol – mae rhai ffermwyr angen mwy o gefnogaeth nag eraill i asesu eu hanghenion a chanfod y cynnig mwyaf priodol o fewn Cyswllt Ffermio, ac mae rhai gweithgareddau angen asesiad mwy manwl o broblemau penodol nag eraill. Fodd bynnag, byddem yn gwneud dau sylw.

- Yn gyntaf, mae'n ymddangos mai mater i'r ffermwr yn bennaf yw ddechrau'r ymarferiad hwn ac, fel y dangosir yn yr astudiaethau achos, gall diffyg arweiniad ar y cam hwn arwain at ddiffyg cyfatebu rhwng angen/cefnogaeth ac effaith gyfyngedig (gweler yr astudiaethau achos hyfforddiant isod).
- Yn ail, mae'n ymddangos mai prin yw'r berthynas rhwng y gwahanol bwyntiau lle mae staff cyflenwi yn asesu anghenion ffermwyr. Tra bod cyfeirio yn digwydd, teimlai rhai ymgynghoreion bod yn rhaid iddynt esbonio eu sefyllfa nifer o weithiau; efallai bod cyfle'n cael ei golli i greu pecyn cefnogaeth mwy effeithiol (archwilir hyn mewn rhagor o fanylder isod).

3.14 Cymysg oedd llwyddiant cyflwyniad Cynllun Datblygu Personol (CDP). Rhagwelwyd yn wreiddiol y byddai ffermwyr yn cwblhau CDP pan oeddent yn cofrestru gyntaf â Cyswllt Ffermio. Mewn theori, bwriadwyd i hyn annog ffermwyr i fyfyrio ar eu hanghenion a nodi'r gefnogaeth fwyaf priodol. Yn ymarferol, er bod Lantra wedi annog ffermwyr i gwblhau ac ailedrych ar eu CDP, cytunodd mwyafrif y rheini yr ymgynghorwyd â hwy ei fod yn fecanwaith aneffeithiol. Nodwyd nifer o faterion.

- Mae'r CDP wedi tue
- dddu i ganolbwyntio ar asesu anghenion hyfforddiant penodol, yn hytrach na bod yn asesiad mwy cyfannol a chyflawn o'r angen ar gyfer y busnes yn gyffredinol.
- Roedd llawer o ffermwyr yn teimlo bod y ffurflen ar-lein yn anodd ei llenwi, hyd yn oed y rheini sy'n llythrennog o ran TG, ac mae hyn wedi galw am lawer iawn o "ddal dwylo" gan Swyddogion Datblygu sydd wedi bod yn dreth ar eu galluedd. Teimlai ffermwyr a rhai aelodau staff cyflenwi nad oedd y system yn un hawdd i'w defnyddio a'i bod yn or-gymhleth.
- Ystyrir bod y CDP yn bennaf yn "gylch" i neidio drwyddo er mwyn cyrchu hyfforddiant, yn hytrach na bod yn offeryn gwerthfawr.
- Nid yw'r gefnogaeth a argymhellir y cyfeirir ati gan y CDP wedi'i theilwra ddigon.

- Anaml y bydd y ffermwr yn ailedrych ar y CDP, oherwydd ei bod yn anodd cael mynediad ato (e.e. anghofio cyfrineiriau, anawsterau mewn dod o hyd i'w tudalen datblygiad personol ac ati) ac oherwydd ni theimlir ei fod yn ddefnyddiol.

3.15 Pan fo'r broses CDP wedi gweithio'n well, llenwir y ffurflen mewn sgwrs gyda Swyddog Datblygu, mae'r gefnogaeth wedi'i phersonoleiddio mewn ymateb i hyn, ac yna ailedrychir ar y ffurflen mewn trafodaeth gyda'r un hwylusydd i edrych ar y datblygiad (e.e. gweler yr astudiaeth Academi Amaeth isod). Yn yr achosion hyn, mae gan y CDP ddiben clir a defnyddiol, a chefnogir y broses o'i defnyddio dros amser (yn hytrach na bod yn ymarferiad o dicio blychau/mater o ffurf ar y cychwyn).

***Cyflenwi gweithgareddau***

3.16 Mae Tabl 3-1 yn rhoi crynodeb o beth sy'n gweithio'n dda (neu ddim) ar draws y gweithgareddau yr ymdriniwyd â hwy yn ein hastudiaethau achos[28], gan ddefnyddio adborth gan bartneriaid cyflenwi, buddiolwyr a rhanddeiliaid allanol: darperir yr adroddiadau astudiaeth achos llawn mewn Atodiad ar wahân). Mae'n bwysig nodi mai canfyddiadau yw'r rhain o'r astudiaethau achos a gynhaliwyd, yn seiliedig ar farn y rheini yr ymgynghorwyd â hwy, ac nid ydynt o reidrwydd yn gynrychioliadol o bob grŵp/achos o gefnogaeth o dan bob gweithgaredd. Pan fo safbwyntiau'n wahanol i adborth ehangach MaB a Lantra ar y gweithgaredd, rydym wedi nodi hyn mewn troednodyn.

[28] I'w nodi, ni chafodd holl weithgareddau Cyswllt Ffermio eu cynnwys yn yr astudiaethau achos.

**Tabl 3-1: Crynodeb o'r adborth ar bob gweithgaredd yr ymdriniwyd â hwy gan yr astudiaethau achos, gan ddefnyddio ymgynghoriad gyda staff rheoli a chyflenwi, astudiaethau achos a rhanddeiliaid allanol**

| Beth sy'n gweithio'n dda | Heriau / Cyfleoedd i wella |
|---|---|
| **Gwasanaethau cynhgori** | |
| • Gweddu'n dda i'r cynnig CFf ehangach, mae gweithgareddau eraill CFf yn bwydo'n dda i mewn i'r gwasanaeth cynghori (e.e. digwyddiadau, grwpiau trafod, Agrisgôp, ffermydd arddangos), lle caiff syniadau/materion eu canfod yn rhywle arall a bod angen cyngor un i un er mwyn eu gweithredu/mynd i'r afael â hwy<br>• Roedd clinigau/cymorthfeydd cynghori yn rhagflaenydd defnyddiol i gyngor un i un, gan roi'r cyfle i ffermwyr drafod syniadau/materion yn gryno a phrofi pa mor addas yw'r cynghorydd cyn gorfod cyfrannu at gost cyngor un i un<br>• Mae cyngor personol, wedi'i deilwra a phwrpasol, gyda dewisiadau clir, ymarferol a fforddiadwy ar gyfer y fferm, yn hollbwysig i lwyddiant. Mae dilysiad allanol hefyd yn ddefnyddiol<br>• Cyfrinachol, gan annog ffermwyr i fod yn agored ynglŷn â'r heriau a wynebir – sy'n bwysig os yw newid effeithiol yn mynd i ddigwydd<br>• Cynghorwyr o ansawdd uchel ar y cyfan – profiad, arbenigedd, dealltwriaeth ymarferol o'r cyd-destun ffermio, teimlir eu bod yn gynghorwyr yr ymddiriedir ynddynt<br>• Peth ôl-ofal "anffurfiol" i gefnogi gweithredu, a chyfeirio at gefnogaeth arall<br>• Enghreifftiau o weithio'n dda mewn partneriaeth gyda chyrff allanol, gydag atgyfeiriadau i'r Gwasanaeth Cynghori | • Peth tystiolaeth o amrywiaeth ansawdd rhwng cynghorwyr, gyda rhai profiadau gwael yn arwain at amharodrwydd i fuddsoddi arian y ffermwyr eu hunain mewn cyngor<br>• Cymhorthdal yn bwysig lle bo ffermwyr sy'n newydd i gyngor allanol/ansicr o fanteision (yn unol â rhesymeg) ond nad yw'r gyfradd ymyrraeth wedi'i phrofi ar gyfer y rhaglen bresennol na chaiff ei haddasu chwaith yn dibynnu ar achosion o gefnogaeth a dderbyniwyd.<br>• Peth tystiolaeth (brin) o darfu gyda'r farchnad sector preifat, gan arwain at ddi-fuddiant (trafodir isod)<br>• Rheoli llif y galw (o gymharu â galluedd cynghorydd) a defnydd o "ddyrannu" (gyda rhai ffermwyr mewn mwy o angen yn dihysbyddu eu dyraniad)<br>• Diffyg cyllid ar gael i roi argymhellion y gwasanaeth cynghori ar waith, ddim wedi'u halinio gyda rhaglenni grant (amseru/cwmpas) |

| Beth sy'n gweithio'n dda | Heriau / Cyfleoedd i wella |
|---|---|
| **Agrisgôp** | |
| • Mae'r ffocws yn hyblyg ac wedi'i deilwra i bob grŵp, lle mae aelodau yn cytuno ar y cyd ar ffocws "o'r gwaelod i fyny", sy'n sicrhau ymrwymiad<br>• Cefnogaeth rhwng cymheiriad mewn sefyllfa grŵp bach sy'n gyfrinachol a ddim yn fygythiol<br>• Dysgu gweithredol, gan roi i'r cyfranogwyr "y sylfeini ar gyfer newid" - h.y. y gallu/galluedd i fyfyrio, newid agweddau, trafod a phrofi posibiliadau, a meithrin yr hyder i'w rhoi ar waith. Canolbwyntir ar weithredu/newid mewn amgylchedd cefnogol/cydweithredol, yr oedd yr ymgynghoreion yn teimlo oedd yn "rymusol" a chymhellol. Daw cyfranogwyr i'w casgliadau eu hunain (yn hytrach na bod rhywun yn dweud wrthynt beth i'w wneud) y dywed ymgynghoreion sy'n arwain ar well canlyniadau.<br>• Gellir ei addasu o ran cyflenwi (e.e. amlder a chyfnodau rhwng cyfarfodydd)<br>• Mae hwylusiad yn allweddol - gwthio, arwain, cwestiynu effeithiol a heriol er mwyn sicrhau y gwneir cynnydd ac y cedwir y ffocws. Mae cysylltiad personol a pharhaus yn bwysig er mwyn cynnal momentwm, meithrin ymddiriedaeth a chydberthynas<br>• Cyfeirio anffurfiol at gefnogaeth ehangach, "drws agored" ar gyfer cefnogaeth anffurfiol/ cofleidiol rhwng cyfarfodydd<br>• Mynediad at siaradwyr i ddod ag arbenigedd penodol ac ysbrydoliaeth i mewn<br>• Gweithio'n dda gydag elfennau eraill CFf, e.e. mae grŵp Agrisgôp yn trafod *sut* i fynd i'r afael â materion a amlygir mewn ymarferiad meincnodi, cyngor un i un yn dilyn trafodaethau yn Agrisgôp | • Ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r gyllideb a glustnodwyd i grŵp Agrisgôp/nifer y sesiynau a ariennir[29]<br>• Angen posibl am fwy o hyblygrwydd o ran nifer y sesiynau a ariennir, yn dibynnu ar yr angen / potensial ar gyfer effaith. Ar hyn o bryd teimlir bod diffyg hyblygrwydd, ond mae rhai grwpiau yn fwy hunanysgogol nac eraill[30].<br>• Mae lledaenu/rhannu gwybodaeth y tu hwnt/ar draws grwpiau yn her, o gofio natur gyfrinachol y gweithgaredd hwn. Ni theimlir mai cyfrifoldeb y grŵp yw lledaenu<br>• Anghysondeb ar draws hwyluswyr, yn arbennig o ran cyfeirio anffurfiol, cefnogaeth gofleidiol, defnydd o ddeunyddiau CFf. Cyllideb gyfyngedig ar gael ar gyfer rôl yr hwylusydd<br>• Gellir gwella effeithiolrwydd pe bai'n cael ei alinio'n agosach gyda chefnogaeth un i un fanwl yn ôl y galw wrth weithredu newid (o bosibl yn fwy effeithiol os y'i cyflwynir gan hwylusydd Agrisgôp yr ymddiriedir ynddo/ynddi, yn ddibynnol ar arbenigedd?)[31] |

[29] Sylwer, dylid trafod hyn gyda grwpiau ar y cychwyn, fodd bynnag mae 'n ymddangos bod y wybodaeth am y gyllideb yn amrywio rhwng grwpiau.
[30] O safbwynt MaB mae hyblygrwydd, yn arbennig os oes potensial ar gyfer effaith.
[31] O safbwynt MaB mae hyn yn cael ei annog yn barod ac mae'n digwydd.

| Beth sy'n gweithio'n dda | Heriau / Cyfleoedd i wella |
|---|---|
| **Academi Amaeth** | |
| • Mae'r dull cystadleuaeth yn ddefnyddiol i gael ymrwymiad a sicrhau bod cyfranogwyr yn gwerthfawrogi eu lle, mae safon ceisiadau yn uchel, gydag unigolion yn awyddus i fanteisio i'r eithaf ar y cyfle<br>• Llwyddiannus mewn ymgysylltu â ffermwyr ifanc a menywod<br>• Rhaglen ddwys ond wedi'i strwythuro'n dda a gyda ffocws, gyda chyfle i gwrdd â chymheiriaid sy'n meddwl yn debyg/cyfleoedd rhwydweithio<br>• Teimlwyd bod diben clir i'r gweithgaredd hwn a ffocws ar ganlyniadau<br>• Ffocws cryf ar nodi anghenion (gan ddefnyddio CDP a chynllun busnes) ar ddechrau'r gweithgaredd, asesir cynnydd ar ddiwedd y gefnogaeth<br>• Taith dramor yn helpu i "feddwl tu allan i'r blwch" a chreu syniadau newydd, arloesol/arallgyfeirio<br>• Arbenigedd ymarferol o ddatblygu cynlluniau busnes (er enghraifft) gyda chyngor gan arbenigwr a oedd yn ddefnyddiol ochr yn ochr â syniadau/profiadau ymarferol gan gymheiriaid<br>• Rhwydweithio grŵp cymheiriaid anffurfiol parhaus, rhannu syniadau a chefnogi ei gilydd, cydweithio i ddatrys problemau (carfan wrth garfan)<br>• Digon hyblyg i alluogi cefnogaeth wedi'i theilwra a chanolbwyntio ar feysydd allweddol o ddiddordeb/pwysigrwydd ar gyfer cyfranogwyr<br>• Peth tystiolaeth o gyfranogwyr yn rhannu dysgu/profiadau yn fwy eang oherwydd "eu bod yn falch o fod yn rhan ohono"<br>• Ategol i'r cynnig CFf ehangach, e.e. mentora er mwyn helpu gyda gweithredu prosesau/syniadau newydd a gafwyd yn yr Academi Amaeth | • Perthnasedd amrywiol o daith dramor rhwng cyfranogwyr, ac mewn rhai achosion syniadau arloesol yn anodd eu cymhwyso i arferion ffermio mwy traddodiadol<br>• Cyfle i rannu dysgu ar draws carfannau ac yn fwy eang ar draws rhaglen CFf/cymunedau ffermio - e.e. cyn-fynychwyr yn cymryd mwy o rôl llysgenhadon<br>• Cyfle i wella – ac o bosibl yn fwy ffurfiol – y cysylltiad gydag elfennau eraill o CFf i sicrhau gweithrediad (e.e. mentora)<br>• Nid yw'r glir beth yw'r camau nesaf o ran cefnogaeth ar gyfer y ffermydd mwy blaengar/arloesol (o fewn CFf a thu hwnt) |

| Beth sy’n gweithio’n dda | Heriau / Cyfleoedd i wella |
|---|---|
| **Safle arddangos** | |
| • Mae gweithrediad ymarferol ar fferm weithiol yn ddefnyddiol er mwyn newid agweddau a dangos *sut* y gellir gweithredu newidiadau ar lawr gwlad<br>• Siaradwyr o safon uchel mewn digwyddiadau yn gweithio’n dda, ochr yn ochr â’r awyrgylch hamddenol gyda chyfle ar gyfer trafodaeth agored<br>• Mae ffermydd a berchir o fewn cymunedau lleol a bod yn agored i newid yn ffactorau llwyddiant allweddol<br>• Mae lledaenu y tu hwnt i ddigwyddiadau yn cynnwys erthyglau technegol, blogiau a fideos ar Facebook – mae’r fideos yn arbennig o effeithiol mewn ymgysylltu â phobl iau<br>• Wedi’i alinio’n dda gyda’r cynnig CFf ehangach (e.e. ochr yn ochr â grwpiau trafod, dilyn ymlaen o fodiwlau e-ddysgu neu gyngor un i un). Yn aml teimlir bod ffermydd arddangos yn “gatalydd” i greu syniad, ac yna gall ffermwyr geisio cefnogaeth bellach CFf i ddatblygu’r syniad. Fodd bynnag, mae buddiolwyr yn dal yn ddibynnol ar Swyddog Datblygu i lywio drwy’r cynnig. | • Heriau o ran galluedd ar gyfer perchennog y fferm arddangos, i gynnal ei fusnes a digwyddiadau fferm arddangos |
| **Grwpiau trafod** | |
| • Effeithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth gydag unigolion sy’n meddwl yn yr un ffordd<br>• Caiff ffocws y grwpiau eu hunanddiffinio gan y cyfranogwyr, ac mae’n bwysig cael nod lefel uchel a rennir. Mae cyfranogwyr yn dewis eu pynciau eu hunain i drafod ac felly dysgu am bynciau sydd fwyaf o ddiddordeb iddynt hwy.<br>• Mae hyblygrwydd yn bwysig - er mwyn ymateb i gyd-destunau ac anghenion sy’n newid, ac i gynnal sesiynau ar adegau (o’r dydd/flwyddyn) sy’n addas i’r cyfranogwyr, er mwyn sicrhau’r presenoldeb gorau posibl | • Rhai heriau ynglŷn â phresenoldeb oherwydd materion annisgwyl yn codi ar ffermydd<br>• Dim mecanwaith ffurfiol neu gyfrifoldeb i ledaenu’r wybodaeth a gafwyd mewn grwpiau trafod i gynulleidfaoedd ehangach. Hefyd yn gyfle i hwyluswyr rannu dysgu ynglŷn â ‘beth sy’n gweithio’ gyda hwyluswyr grwpiau trafod eraill.<br>• Mae rhai pryderon ynglŷn â galluedd Swyddogion Datblygu i sefydlu/hwyluso mwy o grwpiau i fodloni targedau, ac o bosibl gorbwyslais ar |

| Beth sy’n gweithio’n dda | Heriau / Cyfleoedd i wella |
| --- | --- |
| • Cyfleoedd i ddysgu gan gymheiriaid *a* siaradwyr gwadd sy’n arbenigwyr. Mae cael siaradwyr gwybodus, diddorol a diduedd sy’n cyfuno theori a thrafodaethau ymarferol yn gweithio’n dda<br>• Hwyluso yn hollbwysig i ysgogi trafodaeth, ac mae meithrin ymddiriedaeth gyda chyfranogwyr yn helpu gyda’r cyfraddau cadw<br>• Cyllideb gymhellol yn ddefnyddiol - £250/300 fesul fferm y flwyddyn, gan ganiatáu i gyfranogwyr roi cynnig ar rywbeth gwahanol a thrafod yn y sesiwn grŵp trafod nesaf<br>• Mae grwpiau bach yn gweithio’n dda (tua 8-10 o gyfranogwyr), defnyddiol i gael cymysgedd o ffermydd/cymeriadau ymhob grŵp<br>• Aliniad da gydag elfennau eraill CFf, e.e. meincnodi’n fwyaf effeithiol pan y’i trafodir mewn sesiynau, cyngor un i un gan siaradwyr neu hyfforddiant sgiliau. Fodd bynnag, mae’r hwylusydd/Swyddog Datblygu yn chwarae rhan hollbwysig mewn helpu i lywio’r cynnig ehangach. | niferoedd yn hytrach na darparu mwy o gefnogaeth i grwpiau sydd â’r mwyaf o angen/sydd â’r posibilrwydd gorau i gael effaith[32]. |
| **Safleoedd ffocws** | |
| • Mae safleoedd ffocws yn rhoi’r cyfle i brofi’n bersonol ymarferoldeb rhoi dulliau newydd ar waith, ochr yn ochr â chyngor arbenigol, a dysgu gwersi o brofiad y safle ffocws<br>• Ni asesir anghenion cyfranogwyr drwy’r gweithgaredd hwn<br>• Presenoldeb da hyd yma, yn cynnwys gan ffermwyr sy’n awyddus i gael gwybodaeth a syniadau, gyda’r bwriad o ailadrodd dulliau newydd ac ati<br>• Mae cymhelliant, brwdfrydedd a pharodrwydd ffermwyr safle ffocws i helpu wedi bod yn allweddol ar gyfer llwyddiant<br>• Fe wnaeth dysgu gan y safle ledaenu’n fwy eang drwy erthyglau technegol, blogiau a fideos ar gyfryngau cymdeithasol a gwefan CFf (teimlwyd bod fideos yn arbennig o effeithiol). | • Dod o hyd i siaradwyr o ansawdd uchel a phriodol fu’r elfen fwyaf heriol o’r astudiaeth achos hon<br>• Pryder bod rhai mynychwyr fel petaent yn mynychu am eu bod yn chwilfrydig ond mae’n annhebygol y byddant yn gweithredu newid |

[32] Sylwer, bydd Swyddogion Datblygu yn hwyluso tri yn hytrach na phump grŵp trafod yn y rhaglen wedi’i diweddaru a ddylai helpu i ysgafnhau pryderon am niferoedd.

| Beth sy’n gweithio’n dda | Heriau / Cyfleoedd i wella |
|---|---|
| • Dilynir safleoedd ffocws yn aml gan gefnogaeth i helpu ffermwyr i wireddu/gweithredu syniadau newydd, e.e. drwy’r grŵp cynghori. Cefnogaeth gan y Swyddog Datblygu yn werthfawr er mwyn llywio drwy’r cynnig | |
| **Cyfnewidfa rheolaeth** | |
| • Mae’r disgwyliad i ledaenu dysgu i’r diwydiant yn ehangach wedi’i gynnwys yn benodol yn y gweithgaredd hwn – cyfrifoldeb clir i’r cyfranogwr, yn gyfnewid am ysgoloriaeth deithio £4000. Mae’r cyfranogwr yn llunio adroddiad a rennir ar wefan a phlatfformau cyfryngau CFf (e.e. mewn digwyddiadau ffermydd ffocws).<br>• Tystiolaeth o aliniad gyda’r cynnig CFf ehangach, e.e. teimlir mai cyfnewidfa rheolaeth yw’r cam nesaf wedi mentora, Academi Amaeth ac Agrisgôp (er bod dibyniaeth ar Swyddog Datblygu/MaB i lywio drwy’r cynnig CFf), bydd cyfranogwyr cyfnewidfa rheolaeth yn dod yn fentoriaid ac yn cynnal safleoedd ffocws.<br>• Proses gais gystadleuol er mwyn sicrhau ymrwymiad, gallu i ledaenu dysgu, ac aliniad gyda chefnogaeth/anghenion ffermwyr. Mae symud y ffenestr ar gyfer gwneud ceisiadau i gyfnod llai prysur yn y byd ffermio wedi bod yn ddefnyddiol iawn.<br>• Dull sefyll nôl gan MaB, ffermwr yn cael yr hyblygrwydd i deilwra ymweliad(au) tramor i fodloni’r anghenion.<br>• Defnyddiol i ddefnyddio rhan o’r ysgoloriaeth i dalu staff i weithio ar y fferm yn ystod ymweliad tramor. | • Diffyg ymwybyddiaeth o adroddiadau ar wefan CFf, cyfranogwyr yn cael anhawster i ddod o hyd i adroddiadau ar y wefan[33] |

[33] O safbwynt MaB dylai’r wefan newydd ddatrys y broblem hon.

| Beth sy’n gweithio’n dda | Heriau / Cyfleoedd i wella |
|---|---|
| **Mentora** | |
| • Hyblygrwydd i ddefnyddio’r oriau mentora a glustnodir fel eu bod y mwyaf addas ar gyfer y sawl sy’n cael ei fentora, gan ganiatáu iddynt gael eu teilwra i anghenion ac amgylchiadau penodol cyfranogwyr unigol<br>• Mae’n darparu cyngor ymarferol o ffynonellau yr ymddiriedir ynddynt sydd â phrofiad perthnasol<br>• Wedi’i ysgogi gan y mentorai – mae mentoriaid yn monitro’r mentorai yn y cyfeiriad y mae’r mentorai am fynd yn hytrach na rhoi cyfarwyddiadau ynglŷn â’r cyfeiriad y dylai ei gymryd. Yn aml bydd mentoriaid yn rhoi tawelwch meddwl, yn ychwanegol at gyngor mewn cyd-destun ymarferol “pob dydd”<br>• Mae mentoriaid yn darparu cefnogaeth anffurfiol rhwng oriau a glustnodir, ac yn cyfeirio at gynnig ehangach CFf. Yn aml bydd mentoriaid a mentoreion yn cadw mewn cysylltiad wedi’r 22.5 awr o gefnogaeth ddod i ben, i gael rhagor o gyngor anffurfiol<br>• Chwaraeodd mentoriaid rôl mewn edrych ar draws anghenion mentoreion a chydlynu gwasanaethau cynghori grŵp drwy CFf<br>• Peth aliniad gyda’r cynnig CFf ehangach – e.e. mae mentora yn galluogi cynllun busnes i gael ei gyflawni, drwy nodi’r camau sydd eu hangen | • Mae mentoriaid yn agored i ystod eang o ddefnyddiau, yn cynnwys ffermwyr sydd am gynnal ffordd o fyw/busnes hamdden yn hytrach na thyfu mentrau masnachol<br>• Mae rheoli amrywiaeth o anghenion o fewn y 22.5 awr a glustnodir i bob mentor/mentorai yn her. Gall rhai ddefnyddio’r rhain yn gyflym iawn a byddent yn elwa o gael mwy o gefnogaeth, nid oes angen y dyraniad cyfan ar eraill pe bai materion yn gallu cael eu datrys yn gyflym<br>• Mae mentora wedi ei danddefnyddio hyd yma[34], gyda diffyg dealltwriaeth o botensial ei werth a materion “tabŵ”/delwedd yn ymwneud â chael mentor |
| **Cyrsiau sgiliau – Categori 1 (Gwella Busnes)** | |
| • Mae amrywiaeth o fecanweithiau cyflenwi – cyrsiau’n cael eu darparu’n lleol yn y gymuned, a chyfres o sesiynau dysgu ar fferm gyda dysgu a hunangyfarwyddir rhyngddynt - yn gweithio’n dda. Mae mynediad hawdd yn bwysig, gan nad oes gan lawer amser i deithio | • Mae annog mynychu cyrsiau gwella busnes wedi bod yn broblem, gyda ffermwyr ddim yn gweld hyn fel blaenoriaeth |

[34] Ar adeg yr ymchwil , yn gynnar yn 2019.

| Beth sy'n gweithio'n dda | Heriau / Cyfleoedd i wella |
|---|---|
| • Yn gyffredinol roedd ffermwyr angen cyrchu cyrsiau mewn modd amserol a chyfleus<br>• Mae "gwaith cartref" yn sicrhau bod dysgu yn cael ei gymhwyso<br>• Mae Swyddogion Datblygu yn chwarae "rôl hollbwysig" mewn arwyddbostio at gyrsiau, ochr yn ochr dulliau personol gan ddarparwyr hyfforddiant<br>• Darparwyr hyfforddiant o ansawdd uchel, credadwy ac yr ymddiriedir ynddynt gyda gwybodaeth a phrofiad mewn ffermio er mwyn rhoi deunydd hyfforddiant mewn cyd-destun a theilwra ar gyfer gofynion cyfrifyddu penodol ar gyfer y sector hwn<br>• Ymroddiad Lantra i weithio gyda chyfranogwyr a helpu i gefnogi yn y ffordd orau<br>• Mae'r gyfradd ymyrryd uwch wedi bod yn ddefnyddiol ar gyfer ffermwyr iau a'r rheini sydd â llai o adnoddau ariannol i'w ddefnyddio ar gyfer cyllido cyfatebol | • Mae cyfleustra a hygyrchedd yn allweddol ar gyfer cyfraddau mynychu, ond peth tystiolaeth o fannau gwan mewn darpariaeth gwasanaeth<br>• Mae ffenestri ar gyfer gwneud ceisiadau yn fwy effeithlon o safbwynt rheoli, ond maent wedi bod yn heriol o safbwynt y ffermwyr, yn arbennig ar gyfer cyrsiau sydd ddim yn cael eu cynnig yn aml. Yn gweithredu fel "brêc" ar recriwtio dysgwyr ac yn anfwriadol niweidiol i'r rheini oedd yn gorfod canslo llefydd oherwydd cyfrifoldebau gofalu, salwch neu amgylchiadau eraill nad oedd modd eu hosgoi<br>• Teimlir mai CFf yw'r prif ddarparwr hyfforddiant ar gyfer y sector ffermio, a phryder bod hyn yn cyfyngu ar ddarpariaeth breifat arall<br>• Nid oes mecanweithiau atgyfeirio ar waith / nid yn ydynt yn effeithiol mewn galluogi trosglwyddo esmwyth rhwng gweithgareddau CFf<br>• Teimlir bod CDPau yn "rhwystr" angenrheidiol i gyrchu hyfforddiant yn hytrach nag ymarferiad gwerthfawr i asesu anghenion dysgu |
| **Cyrsiau sgiliau – Categorïau 2 a 3 (Technegol a Defnydd Peiriannau)** | |
| • Mae'r galw am beth hyfforddiant wedi'i ysgogi gan newidiadau deddfwriaethol<br>• Mae darpariaeth yn gweithio orau lle gall darparwyr drafod anghenion ffermwyr cyn cofrestru ar gyrsiau. Mae darparwyr hyfforddiant yn gwerthfawrogi cysylltiad cychwynnol gyda ffermwyr i adolygu eu hanghenion a sicrhau bod y cynnig hyfforddiant wedi'i deilwra'n briodol<br>• Roedd sesiynau grŵp CDP am ddim yn ddefnyddiol i nodi anghenion/hyfforddiant priodol, fel arall gwelir CDPau fel cam | • Enghreifftiau o ffermwyr yn barod i dalu (lle bo ardystiad yn ofyniad cyfreithiol) yn cael ei hailgyfeirio i CFf. Er bod hyn wedi annog cofrestriadau newydd i CFf a chynnydd yn y nifer sy'n derbyn hyfforddiant, mae perygl ei fod hefyd yn ystumio'r farchnad. Peth pryder bod yr hyfforddiant a fynychwyd hyd yma o ganlyniad i |

| Beth sy’n gweithio’n dda | Heriau / Cyfleoedd i wella |
|---|---|
| angenrheidiol (ond nid yn arbennig o ddefnyddiol) i gyrchu cyllid ar gyfer hyfforddiant<br>• Hyblygrwydd i ledaenu presenoldeb mewn cyrsiau aml-ddydd dros gyfnodau hirach, yn hytrach na dyddiau olynol. | gost isel yn hytrach na gwir angen, gan arwain at fethiant i fanteisio ar gyllid/lleoedd ar gyrsiau<br>• Rhai enghreifftiau o ffermwyr yn cofrestru ar gyfer hyfforddiant amhriodol (lle na thrafodir anghenion gyda darparwyr hyfforddiant yn gyntaf), yn rhannol oherwydd dryswch mewn deall y wefan<br>• Ffenestri cyfyng ar gyfer peth hyfforddiant yn her, rhai problemau i reoli argaeledd llefydd ar gyrsiau o gymharu ag argaeledd cyfranogwyr<br>• Mae ariannu CFf ond yn cefnogi ardystiad sylfaenol (mewn cneifio) er gwaethaf y galw am hyfforddiant lefel uwch. Yn ymarferol darperir hyfforddiant ar gyfer gwahanol alluoedd, ond mae hyn yn cyfyngu ar y buddiannau i rai cyfranogwyr a fyddai’n deilwng o ardystiad uwch. |
| **E-ddysgu** | |
| • Mae’r rhan fwyaf o ddefnyddwyr e-ddysgu yn cymryd rhan mewn cyrsiau iechyd a diogelwch gorfodol; mae hyn yn darparu llwybr i e-ddysgu ehangach i rai<br>• Mae cynnwys fideos a deunydd rhyngweithiol yn gweithio’n dda<br>• Adborth cadarnhaol ar gynnwys, ond pryder bod symlrwydd yn gwanhau defnyddioldeb ar gyfer y rheini sy’n chwilio am ddeunydd mwy datblygedig<br>• Rhwyddineb a hyblygrwydd mynediad yn ddefnyddiol, a ddefnyddir ar amser sy’n addas i’r defnyddiwr. Arbennig o atyniadol ar gyfer ffermwyr iau, rhieni, busnesau ar raddfa fach gyda galluedd/adnoddau cyfyngedig i deithio i ddigwyddiad<br>• Llwybr mynediad / ategol i gynnig ehangach | • Argymhellion CDP ddim yn ddigon personol<br>• Mae diffyg gwelededd ac ymwybyddiaeth o e-ddysgu<br>• Her i gyrchu BOSS, anawsterau i lywio drwy’r cynnig e-ddysgu<br>• Ymgysylltiad uchel gyda chyrsiau iechyd a diogelwch ddim wedi’u defnyddio’n llawn er mwyn annog ymgysylltiad ehangach<br>• Integreiddiad cyfyngedig gyda’r cynnig CFf ehangach, darllen ehangach (o ffynonellau dibynadwy), offer ymarferol. Teimlir bod darpariaeth cefnogaeth gysylltiedig yn dameidiog ac yn anodd dod o hyd iddi |

| Beth sy’n gweithio’n dda | Heriau / Cyfleoedd i wella |
|---|---|
| | • Mae tystiolaeth ehangach yn dangos bod e-ddysgu ar ei ben ei hun yn effeithiol ar gyfer dim ond cyfran fechan o fuddiolwyr; yn y rhan fwyaf o achosion mae angen iddo fod yn rhan o becyn dysgu ‘cymysg’ sydd hefyd yn cynnwys dysgu wyneb yn wyneb |

Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW o dystiolaeth ymgynghoriad

3.17 Mae nifer o nodweddion sydd wedi gweithio'n dda ar draws ystod o weithgareddau.

- **Mynd i'r afael â beth sydd angen newid a sut i newid**: ar draws y cynnig, mae gweithgareddau ategol sy'n ceisio (i) newid agweddau tuag at wneud newidiadau a chodi hyder i roi'r newidiadau hyn ar waith, a (ii) darparu'r sgiliau a'r wybodaeth dechnegol/ymarferol ynglŷn â sut i newid.

- **Annog hunangymorth a gweithredu**: darparu ffermwyr a'r gallu i adlewyrchu, herio eu hunain, ystyried opsiynau a chanfod atebion. Mae dysgu gweithredol a "gwaith cartref" yn sicrhau ffocws ar weithredu/newid.

- **Aliniad agos gydag anghenion a hunanddiffinir**: mae nifer o'r gweithgareddau yn annog cyfranogwyr i ddiffinio eu nodau eu hunain, yn unigol a/neu fel rhan o grŵp, sy'n helpu i sicrhau perchnogaeth ac ymrwymiad i'r gweithgareddau.

- **Cefnogaeth ymarferol, ar fferm a rhwng cymheiriad**: mae llawer o'r gweithgareddau yn rhoi'r cyfle i arsylwi a dysgu gan leoliadau byd go iawn lle caiff cyngor/cefnogaeth ei ddarparu mewn "iaith gyffredin" y gall buddiolwyr uniaethu â hi.

- **Cyfuniad o gefnogaeth grŵp a chyngor un i un**: mae'r cyntaf yn arbennig o ddefnyddiol mewn creu syniadau a rhannu gwybodaeth a phrofiadau lle mae'r ail yn darparu cyngor penodol i'r fferm wedi'i deilwra yn aml ar gyfer pynciau penodol.

> *'roedd y cyngor yn gall, yn cynnig datrysiadau hawdd a rhad a gafodd effaith fawr.'*
> Buddiolwr grŵp ffocws

- **Hyblygrwydd**: mae'r gallu i siapio ac addasu ffocws gweithgaredd mewn ymateb i amodau sy'n newid (e.e. mewn grŵp trafod neu grŵp Agrisgôp) ac i drefnu gweithgareddau sy'n addas i batrymau gweithio'r sector (e.e. cyfarfodydd ar adegau penodol o'r flwyddyn/dydd) yn ddefnyddiol. Mae cyflenwi'n lleol hefyd yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan fuddiolwyr sydd â phrinder amser/adnoddau i deithio'n bell ar gyfer hyfforddiant neu gefnogaeth.

- **Hwyluso**: mae'r hwyluswr yn chwarae rôl allweddol mewn darparu strwythur, momentwm, her ac ati i sicrhau bod buddiolwyr yn gwneud cynnydd.

- **Cyngor personol a pherthnasol**: mae hyn yn ôl rhai yn ei gwneud hi'n haws i fuddiolwyr ei ddefnyddio ar gyfer eu busnes (o gymharu â gwybodaeth generig)

- **Tîm cyflenwi o ansawdd uwch ac un yr “ymddiriedir” ynddo**: mae ymrwymiad a brwdfrydedd hwyluswyr/Swyddogion Datblygu ac ati wedi rhoi egni i fuddiolwyr: fel y dywedodd un buddiolwr “yr unigolion sy’n gwneud Cyswllt Ffermio”. Ystyrir y siaradwyr/hyfforddwyr/hwyluswyr ar y cyfan i fod yn rhai a berchir, sy’n wybodus ac yn gredadwy, yn darparu cefnogaeth “wrthrychol” i’r sector.

- **Dull cystadleuol**: lle darperir gweithgareddau mwy dwys drwy gystadlaethau, mae cyfranogwyr wedi ymrwymo’n glir gan sicrhau bod y gweithgaredd yn arwain i newidiadau cadarnhaol o fewn y busnes.

3.18 Gofynwyd yn benodol i ymgynhgorion a oeddent wedi ymgysyllltu â chynlluniau meincnodi, samplo pridd, rheoli maetholion Cyswllt Ffermio ac, os felly, a oedd y rhain yn effeithiol. Roedd nifer o’r rheini yr ymgynghorwyd â hwy wedi gwneud ychydig o waith meincnodi, a rhai wedi gwneud ychydig o gynlluniau samplo pridd a rheoli maetholion. Ar y cyfan, roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn gan ffermwyr a rhanddeiliaid allanol. **Teimlwyd bod yr ymarferion hyn yn hollbwysig mewn helpu ffermwyr i ddeall sut mae eu harferion yn effeithio ar eu perfformiad ariannol – a oedd yn eu tro yn brif ysgogwyr newidiadau mewn ymddygiad**. Roedd meincnodi yn aml yn gweithio orau pan oedd yn cael ei wneud fel rhan o grŵp, lle mae cymheiriaid yn rhannu profiadau/gwersi ynglŷn â sut i wella perfformiad, a/neu mewn cydweithrediad â chyngor un i un penodol i fynd i’r afael â materion a nodwyd.

3.19 Mae’r dystiolaeth hefyd yn cyfeirio at rai heriau o ran cyflenwi hyd yma.

- **Amrywiaeth mewn ansawdd ac anghysondeb** yn null hwyluswyr/cynghorwyr ac ati i (yr hyn a ystyrir yn aml fel “anffurfiol”) arwyddbostio/darparu cefnogaeth gofleidiol.
- **Ffenestri ceisiadau a chyfyngiadau**: mae ffenestri ar gyfer ceisiadau yn fwy effeithlon o safbwynt rheoli, ond nid ydynt bob tro yn bodloni anghenion ffermwyr.
- **Heriau o ranrheoli’r defnydd o gefnogaeth “cyfyngedig i amser**”: mae hyn yn ymwneud â gweithgareddau lle defnyddir “glustnodiad” cefnogaeth a bennir ymlaen llaw (e.e. oriau mentora, achosion o gefnogaeth cynghori, sesiynau grŵp Agrisgôp) yn gyflym ac nid yw’n ddigonol i ffermwyr sydd ag angen gwirioneddol a’r rheini sydd am wneud newidiadau trawsnewidiol, ac a dan-ddefnyddir ar gyfer ffermwyr sy’n gallu mynd i’r afael â heriau gyda’r isafswm o gefnogaeth. Roedd yn benderfyniad rheoli penodol i gyfyngu’r achosion o gefnogaeth sydd ar gael i bob ffermwr o dan rhai elfennau Cyswllt Ffermio. Fodd bynnag, efallai y byddai mwy o hyblygrwydd (ar ddisgresiwn) yn

ddefnyddiol wrth edrych i'r dyfodol ar gyfer defnyddio adnoddau yn fwy effeithlon ac effeithiol.

3.20 Hefyd, mae rhai cyfleoedd sydd wedi'u colli:

- **Darpariaeth digon o gyfleoedd i ffermwyr sydd eisiau gwneud cynnydd a "gwthio ymlaen".** Codwyd hyn mewn nifer o gyd-destunau:

    - Awgrymodd ymgynghoreion yr astudiaeth achos a'r grŵp ffocws y gallai'r rhaglen gael arweiniad mwy "ysbrydoledig", drwy fewnbynnau gan arbenigwyr diwydiant/arloesedd – roedd mwyafrif y gweithgareddau yn cael eu harwain/diffinio "o'r gwaelod i fyny" gan ffermwyr - sy'n bwysig er mwyn sicrhau cefnogaeth ac er mwyn eu teilwra i'w anghenion, ond roedd rhai o'r ffermwyr mwy blaengar yr ymgynghorwyd â hwy yn chwilio am fwy o ysbrydoliaeth yn ymwneud â dulliau cwbl newydd ac arloesol er mwyn symud eu busnes yn ei flaen.
    - Teimlai rhai buddiolwyr mai cyfyngedig oedd y dewis o gyrsiau, ac mewn rhai achosion nid oedd yr hyn a gynigiwyd yn ddigon datblygedig. Datgelodd yr astudiaethau achos enghreifftiau lle teimlwyd bod y cynnig yn rhy sylfaenol, ac nid oedd iddo'r lefel o effaith y gobeithiwyd amdani.

> "Teimlaf fy mod wedi fy nghyfyngu gan y cyrsiau a gynigir. Mae gen i gymwysterau uwch mewn cyfrifyddeg a byddwn wedi hoffi cwrs hyfforddiant mwy datblygedig er mwyn datblygu'r uwch sgiliau hyn o fewn fy musnes ffermio."
> Mynychwr grŵp ffocws

- **Cyfleoedd a gollwyd ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth yn ehangach**: rhwng grwpiau a thu hwnt i'r rheini oedd yn uniongyrchol gysylltiedig â Cyswllt Ffermio. Mae'n ymddangos mai cyfnewidfa rheolaeth yw'r unig weithgaredd lle caiff y cyfrifoldeb am ledaenu dysgu ei ddiffinio'n glir (adeiladir goferu gwybodaeth yn effeithiol i'r gefnogaeth ac mae'n rhwymedigaeth ar gyfer y buddiolwyr). Er nad yw lledaenu yn amlwg yn briodol ar gyfer pob gweithgaredd (megis gwasanaethau cynghori cyfrinachol neu grwpiau Agrisgôp sy'n canolbwyntio ar faterion sensitif), efallai bod rhai cyfleoedd yn cael eu colli i adeiladu lledaenu i'r broses lle mae buddiolwyr yn derbyn cefnogaeth ddwys (e.e. annog cyn-fynychwyr yr Academi Amaeth i weithio fel "llysgenhadon" yn eu cymunedau) a/neu i hwyluso rhannu gwybodaeth fwy cyson ar draws staff cyflenwi (gan fwydo'n ôl i'r grwpiau y maent yn eu cefnogi).

3.21 Canfu ein harbenigwr amaethyddiaeth bod y ddau bwynt uchod yn cael eu trafod mewn cyd-destunau tebyg ar draws Ewrop. Gallai dull gwahanol ar gyfer mabwysiadwyr cynnar rhagweithiol, yn gweithio'n ddwys mewn partneriaeth â hwy i ddatblygu a gweithredu technoleg newydd, ynghyd ag ymrwymiad clir o'r dechrau bod aelodau'r grŵp hwn, oherwydd y gefnogaeth ddwys hon, yn cytuno i helpu i ledaenu'r hyn y maent wedi'i ddysgu i ffermydd eraill drwy ddigwyddiadau arddangos, gweithdai a'r cyfryngau.

**Ychwanegedd gweithgarwch**

3.22 Cwestiwn allweddol ar gyfer y gwerthusiad yw i ba raddau y byddai ffermwyr wedi ymgysylltu yn y gweithgareddau hyn beth bynnag, heb Cyswllt Ffermio. Ar y cyfan, roedd ymgynghoreion yn cytuno **na fyddai llawer o ffermwyr fel arall wedi mynychu cefnogaeth fusnes generig** (oherwydd diffyg ymwybyddiaeth sut i gyrchu'r gefnogaeth, amharodrwydd i geisio cyngor allanol, ac anallu i wneud cais); roedd barn glir hefyd na fyddai'r gefnogaeth generig hon yn berthnasol i'r sector ffermio. Roedd rhanddeiliaid allanol yn dweud bod **Cyswllt Ffermio yn ei ffurf bresennol wedi'i alinio'n llawer gwell gyda chefnogaeth amaethyddol a ddarperir gan gyrff eraill** (megis cyrff ardollau) yn arbennig gan fod MaB wedi cynnwys nifer o'r partneriaid perthnasol o fewn consortiwm cyflenwi Cyswllt Ffermio. Lle'r oedd rhywfaint o orgyffwrdd, teimlwyd bod Cyswllt Ffermio yn rhoi llawer mwy o alluedd i gefnogi ffermwyr.

3.23 Fodd bynnag, mae peth tystiolaeth i awgrymu **ychydig bach o ddi-fuddiant yn y rhaglen a allai ystumio'r farchnad sector preifat**. Canfu'r astudiaethau achos enghreifftiau lle'r oedd ffermwyr yn mynd at ddarparwyr sector preifat am gyngor/hyfforddiant a'u bod yn barod i dalu am hynny, ond cawsant eu hailgyfeirio i Cyswllt Ffermio er mwyn derbyn cefnogaeth am ddim/ar gyfradd gymorthdaledig. Fodd bynnag, dadleuodd y tîm rheoli bod hyn yn digwydd mewn lleiafrif bychan o achosion. Awgrymodd rhanddeiliaid allanol hefyd bod y defnydd o ymgynghorwyr sector preifat yn fwy niferus mewn rhai sectorau ffermio o gymharu ag eraill (er enghraifft, mae'r sector godro yn nodweddiadol yn defnyddio ymgynghorwyr, gydag elw uwch a ffermydd mwy yn gwneud cost mewnbwn allanol yn ymarferol o ran economeg, o gymharu â ffermydd cig a llaeth gydag elw tynnach a oedd yn llai abl i allu fforddio cyngor gan gynghorydd) ond ni wnaeth Cyswllt Ffermio roi ystyriaeth i brofiad

blaenorol o gefnogaeth sector ffermio neu fodd ariannol. Hefyd, nid oedd y cyfraddau ymyrraeth ar gyfer gwasanaethau cynghori wedi eu hailbrofi ar ddechrau'r rhaglen bresenol, ac ni chafodd chwaith ei addasu i adlewyrchu sawl gwaith yr oedd y buddiolwr wedi derbyn cyngor yn y gorffennol (mae pob ffermwr yn derbyn pedawr achos o gyngor yn ystod y rhaglen ar yr un gyfradd ymyrraeth). Er ein bod yn cydnabod y byddai newid y dulliau hyn yn golygu heriau sylweddol er mwyn eu rhoi ar waith, gallai'r rhaglen gael ei chyflenwi'n fwy effeithlon pe na bai'n cymorthdalu ffermwyr sy'n barod i dalu ac yn gallu talu. Mae hyn yn awgrymu y dylid ailbrofi cyfraddau ymrraeth, ac y dylid o bosibl gyflwyno system fwy graddedig wrth i ffermwyr fanteiso ar fwy o achosion o gefmogaeth (yn hytrach na mabwysiadu dull blanced o bedwar achos yn ystod oes y rhaglen 2015-2022).

*Bylchau mewn darpariaeth*

3.24 Ar y cyfan, teimlwyd bod y cynnig Cyswllt Ffermio yn gynhwysfawr, yn cynnig gwahanol fathau o gefnogaeth a mecanweithiau cyflenwi fel eu bod yn addas ar gyfer gwahanol anghenion a dulliau dysgu. Fodd bynnag, roedd tri maes lle teimlai ymgynghoreion y gellid cryfhau'r cynnig:

- Yn gyntaf, dywedodd nifer o fuddiolwyr **bod diffyg cyllid cyfalaf priodol yn y rhaglen er mwyn eu galluogi i roi syniadau/prosesau newydd ar waith**. Mae'r "gyllideb cymhelliant" ar gyfer grwpiau trafod sy'n caniatáu i gyfranogwyr roi cynnig ar rywbeth gwahanol a dod â'r canlyniadau i'r sesiwn grŵp trafod nesaf, yn symudiad cyfyngedig tuag at hyn, ac mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyflwyno'r Grant Busnes i Ffermydd newydd (dim y rhan o Cyswllt Ffermio, ond roedd mynychu digwyddiad "Ffermio ar gyfer y Dyfodol" a arweiniwyd gan Cyswllt Ffermio yn rhagamod ar gyfer gwneud cais am y grant). Er y teimlwyd bod y grant yn ddefnyddiol, mynegwyd rhwystredigaethau ynglŷn â (i) bod y galw yn gorbwyso'n fawr yr adnoddau sydd ar gael, (ii) golygai amseru'r ffenestri grant, a'r broses gais a deimlwyd oedd yn araf, na allai ffermwyr o reidrwydd gyrchu arian pan oedd ei angen a/neu golygai bod cyfleoedd marchnad wedi'u colli, a'r (iii) cham-gymharu a deimlwyd rhwng beth oedd yn gymwys o dan y grant, a oedd yn canolbwyntio ar ddarpariaeth offer "traddodiadol", ac anghenion busnesau. Awgrymodd rhai buddiolwyr y byddai gwerth mewn adnodd hyblyg a hygyrch i ganiatáu i ffermwyr brofi prosesau/offer mwy arloesol, sydd yn aml yn risg uchel i'r rheini sy'n ffermio ar lefel fach ond a allai o bosibl gael effaith sylweddol ar berfformiad eu busnes. Dim ond ychydig o gronfeydd sydd ar gael ar gyfer y math hwn o fuddsoddiad (y tu hwnt i ffermydd sy'n gysylltiedig yn y rhwydwaith arddangos). Dadleuwyd

bod EIP yn darparu cyllid ar gyfer y math hwn o weithgaredd - fodd bynnag, mae hyn yn gymharol gyfyngedig ac yn canolbwyntio mwy ar arloesedd mwy trawsnewidiol ac felly mae'n annhebygol o ddiwallu'n llawn yr angen a ddisgrifir uchod.

- Yn ail, **angen ymestyn y cynnig i gynnwys cyfleoedd arallgyfeirio**. Er enghraifft, soniodd ymgynghoreion grwpiau ffocws am gyfleoedd yn deillio o gyfraniadau i ddiwallu anghenion amgylcheddol/ecosystem, megis dal a storio carbon a chredydau carbon coetiroedd, ac arallgyfeirio i weithgareddau nad sy'n ffermio er mwyn rhoi gwytnwch i fusnesau ffermio[35].
- Yn drydydd**, hwyluso mynediad at brynwyr** (h.y. archfarchnadoedd, lladd-dai, arwerthwyr, grwpiau prynu a swyddogion caffael). Er enghraifft, teimlai un o'r grwpiau ffocws y byddai mwy o fynediad at brynwyr yn arbennig o werthfawr, gan gynorthwyo ffermwyr i ddeall eu manylebau, beth sy'n ysgogi'r rhain, sut mae systemau graddio yn gweithio, a'r ffordd orau i'w diwallu - ar hyn o bryd roeddent yn teimlo bod hyn yn niwlog iawn. Heb y wybodaeth hon, dywedasant y gall fod yn anodd iawn i fodloni gofynion y farchnad a chael y pris gorau posibl[36] . Dywedasant hefyd bod angen cefnogaeth arnynt i feithrin y sgiliau a'r hyder i siarad â phrynwyr. Awgrymodd rai bod prynwyr yn aml yn croesawu hyn, ond teimlai eraill y byddai cael cyfleoedd wedi'u strwythuro drwy Cyswllt Ffermio yn fuddiol iawn.

*Integreiddiad mewnol a llywio drwy'r cynnig*

3.25 Fel y trafodwyd yn Adran 2, mae rhai ffermwyr yn ymwneud yn ddwys mewn nifer o elfennau Cyswllt Ffermio ac yn symud drwy'r cynnig wrth iddynt ddod yn fwy hyderus. Rhoddodd yr astudiaethau achos enghreifftiau o siwrneiau cwsmeriaid (gweler Ffigur 3-1) lle mae gweithgareddau yn arbennig o ategol. Mae'r rhain yn cynnwys:


- Digwyddiadau agored, ffermydd arddangos a sesiynau grŵp gyda siaradwyr sy'n arbenigwyr sy'n ysgogi syniadau ac yn cyflwyno ffermwyr i gynghorwyr, ac sydd yn cael eu dilyn yn aml gan wasanaethau cynghori un i un sy'n darparu cefnogaeth wedi'i theilwra a chyd-destun benodol i fusnes
- Mae Academi Amaeth yn annog myfyrio ac arloesedd, a dilynir hyn gan gefnogaeth mentora er mwyn rhoi prosesau newydd ar waith
- Bydd grwpiau trafod yn aml yn ymweld â ffermydd arddangos, yn cyrchu gwasanaethau cynghori grŵp ac yn cynnal ymarferiadau meincnodi fel grŵp, lle mae cyfle i drafod/profi syniadau a materion a godwyd gyda grŵp o gymheiriaid o'r un meddylfryd

[35] Ar adeg ei ysgrifennu, roedd Sioe Arallgyfeirio ac Arloesedd wedi'i threfnu ar gyfer mis Medi 2019.
[36] Sylwer, mae'r rhaglen beilot gyda proseswyr yn mynd rhagddi a bydd yn parhau yn y rhaglen wedi'i diweddaru.


- Mae grwpiau Agrisgôp yn rhoi'r hyder i ffermwyr ymgysylltu ag elfennau eraill o Cyswllt Ffermio, megis yr Academi Amaeth neu gefnogaeth mentora.

**Ffigur 3-1: Delweddau o siwrneiau buddiolwyr**

**Enghraifft 1**[37]




**Enghraifft 2**




Ffynhonnell: Astudiaethau achos

*"Roeddwn i'n teimlo fy mod wedi fy ngadael rhywfaint yn yr anialwch. Hynny yw, nid oes parhad na chynnydd, neu efallai bod ond nid yw mor amlwg ag y gallai fod. Mae'n ymwneud â chysylltu popeth, oherwydd bod Cyswllt Ffermio eisoes yn gwneud llawer o'r rhain – teimlaf bod angen iddynt gysylltu i'w gilydd yn llawer gwell."*

[37] Sylwer, yn yr enghraifft gyntaf, byddai'n rhaid i'r ffermwr fod wedi ail-gofrestru ar gyfer y rhaglen Cyswllt Ffermio bresennol rhywbryd wedi mis Hydref 2015.

3.26 Nid oes “pwynt terfyn” ffurfiol yn rhaglen Cyswllt Ffermio - unwaith eu bod wedi cofrestru gall ffermwyr ymgysylltu â’r rhaglen cymaint ac am gyhyd ag y dymunant. Fodd bynnag, mae’r data’n awgrymu nad yw llawer o fuddiolwyr yn manteisio i’r eithaf ar y cynnig ac mae’r ymgysylltu ar draws y tair Lot yn brin. Gadawyd rhai o’r buddiolwyr mwyaf blaengar y gwnaethom ymgynghori â hwy yn gofyn “beth nesaf” wedi iddynt gwblhau gweithgaredd (gweler enghraifft yn y blwch hwn). O gofio’r cynnig - a’r pwysau cynyddol i wella perfformiad a gwytnwch y sector, yn arbennig yng nghyd-destun Brexit - mae o bosibl yn gyfle a gollwyd i ychwanegu mwy o werth/sicrhau gwell effaith drwy gefnogi mwy o ffermwyr drwy siwrnai’r cwsmer. Cwestiwn allweddol a ofynnwyd ar gyfer y gwerthusiad oedd a all ffermwyr lywio drwy’r gefnogaeth sydd ar gael, a pha ffactorau sy’n helpu neu’n llesteirio hyn.

> Buddiolwr astudiaeth achos

3.27 Roedd consensws ar draws ymgynghoreion bod y **Swyddogion Datblygu wedi chwarae rôl allweddol mewn hwyluso siwrneiau ffermwyr drwy Cyswllt Ffermio** - dywedodd un ymgynghorai mai Swyddogion Datblygu yw’r “glud” sy’n dal Cyswllt Ffermio at ei gilydd. Fodd bynnag, roedd pryderon bod galluedd Swyddogion Datblygu yn aml yn cael eu gorymestyn ac felly gall eu gallu i lywio ffermwyr drwy’r cynnig wrth i’w hanghenion newid fod yn amrywiol. Nododd mynychwyr grwpiau ffocws bod yn rhaid iddynt fod yn rhagweithiol mewn ymgysylltu â’r Swyddogion Datblygu “prysur”, a bod y trafodaethau hyn yn aml yn anffurfiol ac ad hoc. O fewn pob gweithgaredd, **mae cynghorwyr/hwyluswyr hefyd yn cyfeirio ffermwyr at gefnogaeth berthnasol arall** y teimlai buddiolwyr oedd yn ddefnyddiol dros ben - er, fel y nodwyd uchod, mae’r adborth yn awgrymu y gallai hyn fod yn anghyson ar draws staff cyflenwi.

> *“Po fwyaf rydych yn ei wneud gyda CFf, y mwyaf rydych yn dod i wybod pa wasanaethau eraill mae’n ei gynnig”*
> Buddiolwr astudiaeth achos

3.28 **Mae llywio drwy'r cynnig hefyd yn gyfrifoldeb ar y buddiolwyr eu hunain** - naill ai drwy fod yn rhagweithiol mewn cysylltu â Swyddogion Datblygu/staff cyflenwi neu drwy'r wefan. Mae adborth o'r ymgynghoriad yn awgrymu bod rhai yn gallu gwneud hyn, ond roedd y mwyafrif yn ei chael hi'n anodd (hyd yn oed y rheini sy'n gysylltiedig iawn yn y rhaglen). Mynegodd ffermwyr rwystredigaeth gyda'r diffyg un pwynt cyswllt o fewn Cyswllt Ffermio a'u bod yn gorfod egluro eu mater bob tro yr oeddent yn siarad â rhywun (er enghraifft, dywedodd un o fynychwyr grŵp ffocws 'mae'n rhaid i chi ailadrodd eich hun dro ar ôl tro'). Hefyd, teimlai'r rhan fwyaf o ymgynghoreion bod y wefan yn anodd dros ben i'w gwe-lywio ac nid oeddent yn glir ynglŷn â'r cynnig llawn. Mewn rhai achosion problem llythrennedd TG oedd hyn, ond roedd y wefan yn dal i beri her ar gyfer ffermwyr oedd yn hyderus gyda TG - er enghraifft, nid oedd hi'n glir ble i ddechrau, sut yr oedd gweithgareddau yn ategol, neu ble i ddod o hyd i ddeunyddiau. Cadarnhawyd y canfyddiadau hyn gan randdeiliaid allanol, yr oedd nifer ohonynt wedi'i chael hi'n anodd llywio drwy'r cynnig. Yn nodweddiadol, mae "gwifriad" cymhleth siop un stop wedi'i guddio, ond gyda Cyswllt Ffermio nid yw'r cynnig eangach yn weledol i fuddiolwyr - mae rhai wedi derbyn cefnogaeth gan Swyddogion Datblygu/eraill er mwyn gwneud hyn, ond mae'n ymddangos nad yw eraill.

> Roedd yn "hunllef a dweud y gwir *… ac rydw i'n ystyried fy hun yn un sy'n deall yn weddol savvy, gan fy mod ar y cyfrifiadur bob dydd ac mae'n rhywbeth rwy'n gyfforddus ag ef. Teimlais ei bod yn anoddach i ddod o hyd i bethau nag y dylai fod. Roeddwn yn teimlo fy mod yn clicio ym mhobman - dull gweddol ar hap ydoedd dod o hyd i bethau ac efallai y byddai rhai pobl yn cael eu digalonni gyda hyn, ac mae hynny'n anffodus."*
> Buddiolwr astudiaeth achos

3.29 Awgrymodd ffermwyr a rhanddeiliaid allanol **bod lle i ddarparu cefnogaeth fwy "personol" a "chyfannol" drwy siwrnai'r cwsmer** er mwyn integreiddio gweithgareddau Cyswllt Ffermio yn well. Yn hollbwysig, dywedodd rhai bod angen i Cyswllt Ffermio ddatblygu "pecyn cefnogaeth gwirioneddol" ar gyfer buddiolwyr (yn cyfuno gwybodaeth, sgiliau a buddsoddiad) er mwyn sicrhau effaith gwirioneddol a'r "newid sylweddol" sydd ei angen yn y sector. Gellid cyflawni hyn, o leiaf i ryw raddau, drwy fecanweithiau atgyfeirio mwy rhagweithiol/ffurfiol/cyson a gwelliannau i'r wefan ac ati. Fodd bynnag, awgrymodd nifer o randdeiliaid bod angen newid mwy sylfaenol - gydag asesiad mwy cyfannol o anghenion a phecyn hyblyg o gefnogaeth, wedi'i hwyluso a'i dargedu'n glir ar anghenion ffermwyr unigol. Byddai goblygiadau sylweddol ac amlwg o ran adnoddau, a byddai'n rhaid gwneud dewisiadau anodd wrth gynllunio

rhaglenni yn y dyfodol (er enghraifft, ynglŷn ag a yw'r pwyslais ar gefnogaeth eang/fas neu dwfn/cul).

3.30 Yn olaf, ar gyfer rhai, **y rhwystr allweddol i fwy o ymgysylltu gyda Cyswllt Ffermio oedd cyfyngiadau amser/galluedd**. Mewn ymateb, roedd MaB yn ymchwilio o fecanweithiau llai dwys/mwy hyblyg ar gyfer dysgu, megis fideos, gweminarau, blogiau a phodlediadau y gellid eu cyrchu ar adeg pan fyddai'n gyfleus i'r ffermwr - yn sicr croesawyd a gwerthfawrogwyd y rhain yn fawr gan yr ymgynghoreion. Wedi dweud hynny, fel y nodir mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn, teimlai'r mwyafrif mai ategol oedd y rhain, ac yn effeithiol dim ond pe byddent yn cael eu darparu ochr yn ochr ag ymyriadau mwy personol/dwys.

*Lledaenu a rhannu gwybodaeth o fewn a thu hwnt i Cyswllt Ffermio*

3.31 Teimlai ymgynghoreion fod partneriaid cyflenwi yn gweithio'n galed i rannu dysgu o fewn ac ar draws y rhaglen drwy ystod o fecanweithiau. Roedd cyfryngau cymdeithasol, gweminarau, blogiau a fideos yn arbennig o boblogaidd, gan ganiatáu i ffermwyr ymgysylltu â negeseuon/gwybodaeth hawdd eu cyrchu ar adeg oedd fwyaf addas iddynt hwy. Cefnogwyd hyn gan ddadansoddiad Press Data (gweler Atodiad C) sy'n dangos bod gan Cyswllt Ffermio ychydig dros 9.1 miliwn o ddilynwyr ar Twitter a bron i 3 miliwn ar Facebook, ac mae rhai o brif "ddylanwadwyr" [38] Cyswllt Ffermio yn gyrff partner gyda llawer o ddilynwyr eu hunain. Yn wir, mae rhaglenni cyfnewid gwybodaeth yn Ewrop wedi gweld bod blogiau, fideos a gweminarau yn cael eu defnyddio'n fwyaf gweithredol ac effeithiol gan y ffermwyr mwyaf blaengar a brwd[39].

3.32 Teimlai'r tîm rheoli bod deunydd o'r Hyb Gwybodaeth (ffeithlenni, erthyglau technegol ac ati) yn ffordd dda i gyflymu trosglwyddiad gwybodaeth rhwng academyddion a ffermwyr, drwy raeadru deunyddiau allan drwy weithgareddau Cyswllt Ffermio. Yn wreiddiol, bwriadwyd i'r Hyb Gwybodaeth fod yn broses dwyffordd, gydag academyddion yn trosglwyddo gwybodaeth i ffermwyr, a ffermwyr yn rhoi adborth er mwyn llywio agendâu ymchwil - er nad yw'n glir faint o'r adborth sy'n digwydd. Mae'n ymddangos bod staff cyflenwi yn defnyddio deunydd yr Hyb wrth ddarparu cefnogaeth ac wedi teimlo bod hyn yn ddefnyddiol, ond ychydig o wybodaeth oedd gan y ffermwyr a'r rhanddeiliaid allweddol yr ymgynghorwyd â hwy am waith yr Hyb (credai rhai bod hyn wedi'i "guddio" ar y wefan). Heb fawr wybodaeth am y deunyddiau, roedd hi'n

[38] h.y. y rheini sydd yn y 25 uchaf o bobl/sefydliadau sy'n cynhyrchu cynnwys yn ymwneud â "Cyswllt FFermio".
[39] Ein harbenigwr amaethyddol.

anodd i'r rheini yr ymgynghorwyd â hwy i wneud sylwadau am eu perthnasedd. Awgrymodd rhanddeiliaid allanol y dylid gwneud mwy o ddefnydd o gyfryngwyr a phartneriaid cyflenwi i "drosi'r" deunyddiau hyn, a thargedu'n well tuag at gynulleidfaoedd a fwriedir. Hefyd, wrth i swm y deunydd dyfu, yn gyflym bydd hi'n hanfodol i gatalogio a chynllunio ffordd effeithiol i lywio drwy'r system.

**Trenfiadau rheoli a llywodraethu**

3.33 **Ar y cyfan, mae'r trefniadau rheoli sydd ar waith ar hyn o bryd fel petaent yn gweithio'n dda**. Mae gan Lywodraeth Cymru a MaB/Lantra berthynas weithio brysur, gyda chyfnewid rheolaidd, agored a dwyffordd sy'n gyffredinol gadarnhaol. Canmolodd y rhanddeiliaid allanol y contractwyr sy'n cyflenwi Cyswllt Ffermio gan dynnu sylw at eu profiad a'u gallu i gyflenwi'r rhaglen cystal â phosibl.

3.34 Mae MaB a Lantra yn rhoi **pwyslais cryf ar adborth a gwelliant parhaus** er mwyn sicrhau bod Cyswllt Ffermio mor effeithiol â phosibl mewn amser real. Teimlir bod MaB yn ymatebol a rhagweithiol mewn cydnabod materion sy'n dod i'r amlwg a gwrando ar adborth gan staff cyflenwi, partneriaid a buddiolwyr, ac addasu'r cynnig, e.e.

- Mae MaB y casglu adborth gan fuddiolwyr ar ôl digwyddiadau ac am y cymorth ychwanegol sydd ei angen ac yna bydd Swyddogion Datblygu yn rhoi sylw i'r rhain.
- Nid oedd rhai gweithgareddau yn gweithio cystal ag y gobeithiwyd (e.e. Mentro a mentora) felly cynhaliwyd ymchwil er mwyn deall pam, ac addaswyd y cynnig mewn ymateb (e.e. gweithdai i feithrin hyder yn Mentro, newid sut y meddylir am fentora)
- Mae MaB wedi casglu adborth i wella gweithgareddau sydd eisoes yn llwyddiannus er mwyn eu gwneud mor ddefnyddiol â phosibl, e.e. Academi Amaeth
- Mae MaB hefyd yn casglu adborth parhaus gan bartneriaid (er bod problemau ynglŷn â hyn, fel y trafodir isod)
- Caiff clinigau eu harwain gan y galw - mae gan Swyddogion Datblygu yr adnoddau i ddarparu clinigau ar bynciau mewn ymateb i adborth/anghenion lleol
- Mae ffermwyr yn aml yn awgrymu pynciau ar gyfer Grwpiau Trafod, Grwpiau Agrisgôp, Ffermydd Arddangos ac ati, fel y trafodir uchod
- Mae Lantra wedi adolygu cyrsiau er mwyn sicrhau bod yr hyfforddiant yn parhau'n berthnasol, o ansawdd uchel, yn addas i'r diben, a'i fod yn diwallu anghenion ffermwyr.

3.35 O ran trefniadau llywodraethu, teimlai ymgynghoreion a oedd yn rheolwyr bod y Bwrdd Cynghori Strategol (SAB) a'r Is-grwpiau yn eu ffurf presennol yn rhoi bwrdd seinio ac adborth defnyddiol. Canfu aelodau o'r SAB yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer y gwerthusiad bod eu hymglymiad yn defnyddiol o ran darparu llwyfan ar gyfer hyrwyddo ac integreiddio eu gweithgarwch eu hunain, yn ogystal â dysgu am y datblygiadau diweddaraf mewn mannau eraill. Mae Llywodraeth Cymru, SAB, MaB a Lantra hefyd yn cydweithio'n agos er mwyn sicrhau bod gofynion ariannu yr UE wedi'u deall yn glir ac y bodlonir y targedau.

3.36 Fodd bynnag, **nid yw trefniadau llywodraethu yn ddigon cynhwysol o fuddiannau'r diwydiant i ddarparu arweiniad strategol parhaus er mwyn cynorthwyo i esblygu'r cynnig yn y dyfodol**. Roedd y diffyg cyngor a arweinir gan ddiwydiant, her strategol a golwg ehangach ar gyfleoedd a bygythiadau sy'n dod i'r amlwg, agendâu yn newid ac ati i lywio siâp a ffocws Cyswllt Ffermio yn bryder sylweddol ar gyfer staff rheoli a rhanddeiliaid allanol. Sefydlwyd Bwrdd Cynghori Diwydiannol ar gyfer y rhaglen ond cafwyd gwared arni wedi ychydig o gyfarfodydd. Mae MaB yn gweithio gyda grwpiau cynrychioli'r diwydiant yn ddwyochrog ar gyfer adborth, ond fe wnaeth MaB gydnabod nad hwn yw'r dull mwyaf effeithlon. Roedd yna hefyd enghreifftiau ad hoc o bartneriaid strategol/allanol yn llywio ffocws y gweithgareddau a ddarparwyd - e.e. cafodd materion brechu ŵyn a nodwyd gan filfeddygon eu cynnwys yn y rhaglen ddigwyddiadau. Fodd bynnag, roedd rhai o'r rhanddeiliaid allanol yr ymgynghorwyd â hwy yn siomedig nad ydynt wedi cael rôl uniongyrchol na llwybr clir er mwyn cynorthwyo i lywio cynllun na chyflenwad y rhaglen - teimlai rhai nad oedd Cyswllt Ffermio yn cael ei gyflawni fel partneriaeth gyda'r diwydiant. Roeddent hefyd yn dweud bod diffyg mewnbwn uniongyrchol ar lefel uwch yn y diwydiant i gynllun Cyswllt Ffermio wedi lleihau ei effeithiolrwydd, ac wedi arwain at ddiffyg ffocws ar anghenion y diwydiant yn y dyfodol a sut mae anghenion ffermio yn newid. Roedd teimlad bod cyfeiriad Cyswllt Ffermio yn cael ei yrru o'r "brig i lawr" gan flaenoriaethau Llywodraeth Cymru, gyda fawr ddim mewnbwn strategol gan y diwydiant o ran cynllun y rhaglen er mwyn sicrhau ei bod yn diwallu anghenion go iawn. Yn hytrach, dywedodd un ymgynghorai bod yn rhaid i Cyswllt Ffermio arloesi a diweddaru ei gynnig er mwyn adlewyrchu'r modd y mae'r diwydiant yn newid, yn seiliedig ar dystiolaeth ac adborth gan y diwydiant. Bydd mynd i'r afael â'r mater hwn

yn hollbwysig ar gyfer y dyfodol, yn enwedig yng nghyd-destun Brexit lle bydd cyfradd y newid yn cyflymu ac o gofio datgeliad posibl sector ffermio Cymru[40].

3.37 Fe wnaeth ymgynghoreion hefyd amlygu nifer fechan o feysydd eraill lle gellid cryfhau rheolaeth, llywodraethu a monitro, yn cynnwys y canlynol:

- Mae aelodaeth y Bwrdd Cynghori Strategol yn gorgyffwrdd gyda'r is-grwpiau, ac felly nid yw'r **SAB wedi rhoi golwg strategol annibynnol** a chyngor ynglŷn â lle i ganolbwyntio sylw, sganio'r gorwel a chyfeiriad strategol ar gyfer y dyfodol y teimlai rhai ymgynghoreion ym maes rheolaeth a llywodraethu fyddai'n werthfawr. Efallai y byddai angen mewnbwn mwy aml i wneud hyn.
- Er bod **systemau TG** wedi gwella'n sylweddol ers y rhaglenni cynharach, mae rhai problemau'n ymwneud â rheoli'r wefan. Cynhelir y cynnwys Cyswllt Ffermio gan Busnes Cymru ac oherwydd ei fod yn blatfform i'r cyhoedd ar gyfer Llywodraeth Cymru, rhaid i'r holl gynnwys gael ei wirio cyn y gall MaB lwytho deunyddiau iddo. Mae diffyg rheolaeth MaB dros wefan Cyswllt Ffermio wedi gwneud y broses newidiadau yn araf iawn[41].
- Gellid cyflymu **proses gwneud penderyfniadau Llywodraeth Cymru** er mwyn galluogi MaB/Lantra i addasu cefnogaeth yn well mewn ymateb i anghenion sy'n newid.

*Gweithio mewn partneriaeth*

3.38 Ar y cyfan, teimlai rhanddeiliaid allanol bod gweithio mewn partneriaeth wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf, ac roedd Cyswllt Ffermio yn ategu'r cynnig ehangach. Yn fewnol, mae MaB yn annog ei staff cyflenwi i greu cysylltiadau i gefnogaeth busnes eraill a chynigion gan bartneriaid ehangach, ac mae wedi ceisio cynyddu nifer y digwyddiadau ar y cyd gyda phartneriaid dros y blynyddoedd diwethaf. Wedi dweud hynny, roedd lle i wella. Yn unol â'r drafodaeth uchod, nododd rhai ymynghoreion bod cyfathrebu rhwng partneriaid yn y diwydiant a Cyswllt Ffermio yn "ad hoc" neu "afreolaidd", ac y byddai cyfathrebu mwy rheolaidd rhwng partneriaid yn ehangu dealltwriaeth pawb o bosiblirwydd cyfatebolrwydd ac annog cysylltiad mwy di-dor i raglenni cefnogi busnes eraill. Gwnaeth buddiolwyr a fynychodd ddau o'r pedwar grŵp ffocws hefyd awgrymu y gallai'r cysylltiadau rhwng Cyswllt Fermio a chyrff eraill (e.e. CFfI, y Gymdeithas Glaswelltir ac undebau ffermio) gael ei wella. Roeddent yn dweud y gallai mwy o weithio/digwyddiadau ar y cyd fod yn ddefnyddiol er mwyn cyrraedd y

[40] Ers hynny mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd yr undebau ffermio yn aelodau o'r SAB wedi'i ddiweddaru o fis Medi 2019.
[41] Mae gan MaB reolaeth dros y deunydd ysgrifenedig sy'n cael ei lwytho ar y wefan, ond nid y fformat, arddull na sut mae'r wefan yn gweithio.

rheini sydd ddim yn ymgysylltu ar hyn o bryd, i roi cyd-gyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau a gweithgareddau ei gilydd ac i ychwanegu gwerth i wasanaethau'r naill a'r llall[42].

[42] Wrth symud ymlaen, dylai'r cyfathrebu fod yn fwy ffurfiol ac effeithiol o gofio bod yr undebau ffermio wedi'u hychwanegu i'r SAB.

## 4. Canlyniadau ac effeithiau

4.1 Yn yr Adran hon rydym yn archwilio i ba raddau y mae ffermwyr yn gweithredu newid o ganlyniad i Cyswllt Ffermio, ffactorau sy'n helpu neu'n llesteirio hyn, a'r cynnydd tuag at sicrhau effeithiau. Rydym hefyd yn cyflwyno tystiolaeth ar y canlyniadau ac effeithiau sy'n deillio o Cyswllt Ffermio, ac i ba raddau y mae'r rhain yn ychwanegol (h.y. na fyddent wedi'u cyflawni heb Cyswllt Ffermio).

**Gweithredu newid**

4.2 Cwestiwn allweddol ar gyfer y gwerthusiad yw, a yw buddiolwyr mewn gwirionedd yn rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth newydd a gafwyd drwy Cyswllt Ffermio ar waith o fewn eu busnesau - er mwyn gwireddu'r canlyniadau/effeithiau y mae'r rhaglen yn ceisio eu cyflawni.

4.3 Mae tystiolaeth yr astudiaeth achos a grŵp ffocws yn awgrymu bod Cyswllt Ffermio, ar y cyfan, yn arwain at newidiadau graddol, ar raddfa fechan mewn llawer o fusnesau o ganlyniad i elfennau penodol y gefnogaeth y maent wedi'u derbyn. Er hynny, gyda'i gilydd mae gan y newidiadau graddol hyn y potensial i gael effaith sy'n fwy nag y byddent fel cydrannau unigol. Mewn nifer o achosion roedd newidiadau ar unwaith, mewn eraill roeddent yn cynnwys llawer o newidiadau bach dros gyfnod hwy. Mewn rhai sefyllfaoedd, mae CFf wedi rhoi sicrwydd bod arferion presennol neu gynlluniau newydd yn briodol, ac felly ni arweiniodd at unrhyw newidiadau o fewn y busnes (darparwyd enghreifftiau o e-ddysgu ac Agrisgôp). Gall hefyd roi llwyfan ar gyfer newid mwy trawsnewidiol yn y dyfodol (er enghraifft drwy grŵp Agrisgôp masnachu rhyngwladol). Mae'n bwysig nodi hefyd bod rhai o'r busnesau yr ymgynghorwyd â hwy yn rhai bach ac nid oedd ganddynt uchelgais i dyfu, felly roedd y newidiadau a ddeilliodd o CFf yn rai bach a fforddiadwy, yn canolbwyntio ar gynaliadwyedd busnes a gwelliannau amgylcheddol. Mae Tabl 4-1, isod, yn rhoi enghreifftiau penodol o'r astudiaethau achos o'r newidiadau a wnaed gan fuddiolwyr.

> *Roedd cyfranogwr mewn grŵp ffocws wedi cael cyngor am bridd a maetholion, ac arweiniodd hyn at dorri costau bwydo mamogiaid o 20c i 6.5c.*
> Buddiolwr grŵp ffocws

**Tabl 4-1: Tystiolaeth astudiaethau achos**

| Gweithgaredd | Enghreifftiau o weithredu |
|---|---|
| Gwasanaethau cynghori | • Newid cyflym, bach a newidiadau fforddiadwy, megis cyflwyno cyfleusterau storio slyri newydd fel na chaiff maetholion eu gwastraffu mwyach; cyflwyno canonau dŵr |
| Agrisgôp | • Newidiadau bach, graddol dros gyfnod hir o amser, e.e. newidiadau i fath a maint hadau a brynir a phrosesau plannu; rhannu offer a phrynu ar y cyd er mwy lleihau costau mewnbwn; gwerthu cynnyrch drwy lwybrau newydd; lleihau'r defnydd o blaladdwyr |
| Academi Amaeth | • Cyflwyno technegau newydd a newidiadau i'r ffordd y mae'r busnes yn cael ei reoli, e.e. newid cyfundrefnau bwydo gwartheg a rheoli pridd, arallgyfeirio gweithgareddau ac ychwanegu gwerth i gynnyrch (megis agor siop gigydd), cyflwyno cofnodi perfformiad |
| Safle arddangos | • Newidiwyd dulliau er mwyn lleihau'r defnydd o wrthfiotigau; cyflwyno ffermio manwl o ran defnydd gwrtaith; cyflwyno cynlluniau iechyd anifeiliaid newydd, arferion hylendid newydd a phroffilio metabolig mamogiaid; cyflwyno pori cylchdroadol; newid porthiant eidion ac arferion storio tail |
| Grwpiau trafod | • Mae'r newidiadau a roddwyd ar waith yn cynnwys: gwahanol fesurau i wella bylchau lloia; lleihau defnydd gwrthfiotigau; rheoli mastitis yn well drwy leihau nifer y gwartheg a gedwir ym mhob corlan; rheoli pydew silwair; a newid polisi golchi traed er mwyn lleihau dermatitis y digidau |
| Safleoedd ffocws | • Arallgyfeirio a buddsoddi mewn offer newydd o ganlyniad i arsylwi ar safle ffocws |
| Cyfnewidfa rheolaeth | • Gwnaed newidiadau i strategaethau bwydo ar gyfer moch; cyflwyno pori cylchdroadol; dulliau newydd ar gyfer rheoli gwrychoedd; cyflwyno ffensys trydan hyblyg; newidiadau i ddwyster cnydau plannu |
| Mentora | • Mae cyngor ac arweiniad ymarferol wedi galluogi i arferion newydd gael eu rhoi ar waith yn syth<br>• Osgoi gwneud penderfyniadau anwybodus ac amhriodol a allai fod wedi arwain at gamgymeriadau drud – er enghraifft, heb gefnogaeth mentor, efallai byddai'r ffermwr wedi prynu tir a fyddai efallai ddim wedi bod yn gwbl addas i'w anghenion |
| Cyrsiau sgiliau wyneb yn wyneb | • Gwelliannau mewn arferion diogel<br>• Sgiliau ymarferol y gellid eu cymhwyso ar gyfer "gwaith bob dydd" |

| Gweithgaredd | Enghreifftiau o weithredu |
|---|---|
| | • Defnyddio cynllun marchnata newydd, a ddatblygwyd drwy'r gefnogaeth, er mwyn gallu nawr marchnata'r busnes gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol |
| E-ddysgu | • Newidiadau i reoli cyfrif y fferm a chyflwyno cyfrifyddu ar-lein; newid mewn dulliau ar gyfer rheoli glaswelltir, ailhau a rheoli ysgall |

Ffynhonnell: Astudiaethau achos

*Ffactorau sy'n galluogi neu'n llesteirio gweithrediad a chynnydd tuag at ganlyniadau*

4.4 Archwiliodd yr astudiaethau achos hefyd ffactorau sydd wedi helpu neu lesteirio gallu ffermwyr i roi syniadau neu sgiliau newydd yr oeddent wedi eu hennill drwy Cyswllt Ffermio ar waith, a gwella perfformiad eu busnes. Ar y cyfan, mae'n ymddangos ei fod yn gyfuniad o i) ysbrydoliaeth a hyder i ystyried newidiadau a nodwyd drwy Cyswllt Ffermio, a'r ii) sgiliau a gallu ymarferol i wneud y newidiadau hyn (a gwneud hynny'n gynharach). Mae ffactorau ehangach sy'n gwneud gwahaniaeth yn cynnwys argaeledd cyfalaf buddsoddi, materion yn ymwneud â galluedd, olyniaeth a gwneud penderfyniadau o fewn y busnes, ochr yn ochr ag amodau rheoleiddiol, gwleidyddol a'r farchnad.

## Tabl 4-2: Tystiolaeth astudiaethau achos ar ffactorau sy'n helpu neu'n llesteirio gweithrediad a chynnydd tuag at ganlyniadau

**Galluogwyr**

**Materion cysylltiedig â chefnogaeth**

- Cyngor ac arweiniad ymarferol
- Arsylwi ar enghreifftiau perthnasol, ymarferol ar ffermydd gweithiol
- Trafod a mireinio cynlluniau mewn trafodaeth ag eraill (mentoriaid, cymheiriaid)
- Dysgu gan brofiadau pobl eraill ac arbenigwyr
- Cyngor ac argymhellion wedi'u teilwra, penodol i fferm
- Cyrraedd "dylanwadwyr allweddol" o fewn busnes er mwyn newid cyfeiriad meddwl, agweddau ac ymddygiad
- Syniadau/atebion cost isel, fforddiadwy a hawdd eu gweithredu
- Cyllid grant i brynu offer newydd
- Alinio cefnogaeth a negeseuon gan gyfryngwyr eraill yr ymddiriedir ynddynt, e.e. milfeddygon a agronomegyddion

**Materion mewnol cysylltiedig â busnes**

- Cymhelliant, parodrwydd i ddysgu a sgiliau ffermwyr
- Benthyg offer newydd gan gymheiriaid CFf er mwyn profi eu gwerth cyn buddsoddi'n llawn

**Ffactorau allanol**

- Ysbryd calonogol rhai is-sectorau, megis coedwigaeth, denu diddordeb ac arallgyfeirio
- Brexit, gwneud i ffermwyr feddwl am newid ac archwilio opsiynau

**Rhwystrau**

**Materion cysylltiedig â chefnogaeth**

- Peth gwybodaeth (e.e. e-ddysgu) "yn rhy syml", cyffredinol a bach i gael effaith sylweddol
- Bydd y dull "diferu" ar gyfer cefnogaeth yn cymryd yn hwy i sicrhau newid
- Diffyg gwerthfawrogiad o'r cynnig
- Amharodrwydd gan rai i ofyn am ragor o gymorth er mwyn gwneud i bethau newid, e.e. mentora, datblygiad sgiliau

**Materion mewnol cysylltiedig â busnes**

- Dim digon o arian a mynediad at gyllid ar gyfer twf, cynhyrchion/offer newydd neu arloesol ac ati
  - Heriau mewn cyrchu arian drwy fanciau
  - Prosesau cais/cymeradwyo grant yn araf, gyda'r perygl o golli cyfleoedd marchnad
  - Ffenestri cais grant, cylch gwaith a throthwyon gofynnol heb eu halinio gyda'r angen
- Newidiadau ddim yn gost effeithiol o gofio maint bach busnesau
- Materion sy'n gwrthdynnu, e.e. ymladd tân gyda busnesau bach iawn, angen mynd i'r afael â materion cyfreithiol/rheoleiddiol sydd â mwy o frys amdanynt
- Amser a galluedd ffermwyr i gyflwyno prosesau/offer newydd ac ati, gan gydnabod bod y mwyafrif o'r buddiolwyr yn fusnesau bach
- Strwythurau busnes a materion olyniaeth, lle mae gwneuthurwyr penderfyniadau yn ymwrthod â newid
- Heriau technegol sy'n gysylltiedig â rhoi systemau newydd ar waith

**Ffactorau allanol**

- Diffyg marchnad leol ar gyfer rhai cynhyrchion, e.e. sglodion coed ar gyfer ynni biomas
- Ansicrwydd economaidd ehangach, e.e. cyfnewidioldeb prisiau uchel o fewn y sector, Brexit yn dal penderfyniadau buddsoddi yn eu hôl, newidiadau polisi (e.e. aros am y grantiau amgylcheddol sydd i ddod, ac felly dim eisiau buddsoddi eu harian eu hunain)
- Ffermwyr yn aros nes y daw fframweithiau rheoleiddiol newydd i rym
- Amseru o ran tymhorau a thywydd
- Band eang gwledig gwael yn amharu ar y gallu i gyflwyno technolegau newydd neu gynnal e-fasnach.

Ffynhonnell: Astudiaethau achos, grwpiau ffocws ac ymgynghoriadau

4.5 Cynhaliwyd gwaith ymchwil ehangach hefyd yn ddiweddar gan AHDB i ffactorau sy'n dylanwadu ar ymddygiad gwneud penderfyniadau ffermwyr, yn seiliedig ar adolygu o dros 170 o bapurau (gweler y crynodeb yn Nhabl 4-1, isod). Roedd y ffactorau sy'n annog newid mewn ymddygiad, megis cyfnewid gwybodaeth wyneb yn wyneb, negeseuon a arweinir gan gyfleoedd, a gweithgareddau sy'n arddangos gwerth a pha mor hawdd yw mabwysiadu, yn debyg i'r rheini a nodwyd yn yr astudiaeth hon. Mae'r meysydd a amlygwyd yn adolygiad AHDB (yn seiliedig ar y dystiolaeth yn Adran 3) lle gallai Cyswllt Ffermio gryfhau ei gynnig, yn cynnwys negeseuon wedi'u targedu, pwysigrwydd ymgysylltu cynaledig, a'r angen i gynnwys rhwydweithiau anffurfiol a ffurfiol a phartneriaid i atgyfnerthu a lledaenu'r wybodaeth.

**Ffigur** Error! No text of specified style in document.**-4: Negeseuon o adroddiad AHDB (Ebrill 2018) ar "ddeall sut i ddylanwadu ar ymddygiad gwneud penderfyniadau ffermwyr: adolygiad llenyddiaeth gwyddor cymdeithasol**

Mae'r adroddiad hwn yn adolygu'r gwersi a ddysgwyd o waith newid ymddygiad sy'n bodoli mewn lleoliadau amaethyddol (adolygwyd 171 o bapurau). Gwnaed yr argymhellion canlynol yn y llenyddiaeth gyda'r nod o ddylanwadu ar ymddygiad ffemwyr:

- **Targedu negeseuon yn ofalus** – mae'n hollbwysig i nodi'r gynulleidfa cyn cyfathrebu gyda hwy ac yn gyffredinol mae ffermwyr yn ymateb yn well i negeseuon optimistig sy'n pwysleisio manteision mabwysiadu ymddygiadau penodol.
- **Ariannu ac annog gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth** – nodwyd cyfnewid gwybodaeth wyneb yn wyneb a mentrau addysgol fel y ffactorau allweddol mewn dylanwadu ar ymddygiad. Rhaid i gyfnewid gwybodaeth gynnwys ymgysylltiad parhaus a chynaledig, nid digwyddiadau unwaith yn unig.
- **Profi gwerth a rhwyddineb mabwysiadu** - ni fydd ffermwyr yn mabwysiadu arferion/technolegau newydd os nad ydynt yn gweld gwerth ychwanegol. Mae'n haws annog ffermwyr i fabwysiadu ffyrdd newydd o weithio os gellir eu gwreiddio yn eu patrymau gwaith presennol a mynd i'r afael ag anghenion/tasgau perthnasol.
- **Cymell newid ymddygiad** - mae tystiolaeth o newid cadarnhaol yn dilyn cymhelliannau, fodd bynnag, efallai na ellir cynnal y newid hwn yn yr hirdymor.

Y neges allweddol o'r adolygiad llenyddiaeth oedd y dylai gweithredu symud y tu hwnt i'r ffocws uniongyrchol ar ddylanwadu ar ymddygiad ffermwyr unigol, i gymell newid cymdeithasol a sefydliadol ehangach ar draws eu sector. Roedd argymhellion perthnasol i Cyswllt Ffermio yn cynnwys: cynyddu nifer y chwaraewyr sy'n gysylltiedig mewn cyfnewid gwybodaeth, yn cynnwys ffrindiau a theulu; cyfathrebu â ffermwyr drwy eu rhwydweithiau ffurfiol/anffurfiol presennol; buddsoddi mewn hwyluswyr hyfforddedig er mwyn cynyddu hyd a lled cyfnewid gwybodaeth wyneb yn wyneb.

Ffynhonnell: Adolygiad SQW o adroddiad AHBD

**Canlyniadau ac effeithiau**

4.6 Mae'r broses o fod yn rhan o Cyswllt Ffermio, ochr yn ochr â'r newidiadau a ddisgrifir uchod, yn arwain at ystod o fuddiannau i'r rheini sy'n gysylltiedig. Mae Ffigur 4-2 yn crynhoi - mewn termau pennawd - y mathau o ganlyniadau sy'n amlwg ar draws yr astudiaethau achos. Mae dau dic yn dangos tystiolaeth gref o'r canlyniad, ac un tic yn dangos peth tystiolaeth o'r canlyniad a/neu y canlyniad fel effaith eilaidd. Mae'n bwysig nodi nad yw'r ticiau yn dynodi maint cymharol yr effaith o un gweithgaredd i'r llall. Hefyd, nid yw dim tic yn erbyn canlyniad yn golygu nad yw'r gweithgaredd yn cael effaith yn erbyn y canlyniad hwn o gwbl - yn hytrach, yn yr enghreifftiau a gwmpesir gan yr astudiaethau achos, ni nodwyd y canlyniad hwn.

4.7 Wrth edrych ar draws y dystiolaeth astudiaeth achos, rydym yn amlygu tri sylw allweddol:

- Mae Cyswllt Ffermio yn cael **effaith ar ddatblygiad personol ffermwyr** yn gyffredinol, yn arbennig yn y modd y mae'n datblygu mwy o hyder a pharodrwydd i newid, gan mewn gwirionedd adeiladu'r "sylfeini" ar gyfer newid (er i nifer o fuddiolwyr ddisgrifio hyn fel "dechrau'r broses" i newid).

- Mae Cyswllt Ffermio yn **dylanwadu ar wneud penderfyniadau, gan roi ysbrydoliaeth ac opsiynau** i'w hystyried ac, mewn nifer, yn annog ffermwyr i ganolbwyntio ar "yr hyn sy'n bwysig".

- Mae'r gefnogaeth yn **rhoi sgiliau a gwybodaeth i fuddiolwyr ynglŷn â sut i newid** eu busnes, sy'n trosi'n fanteision ariannol. Efallai bod yr effeithiau hyn yn ymddangos yn gymharol fach yn gyfanredol, ond gallent arwain at effeithiau sylweddol o gofio maint y busnesau, fel y dangosir yn y blwch.

> *Trafodwyd meincnodi data fwlch lloia yn y grŵp trafod. Roedd y fferm a oedd yn fuddiolwr yn perfformio'n wael. Felly rhoddodd y ffermwr newidiadau ar waith, megis newid amseriad ac amlder ffrwythloni artiffisial, i leihau'r bwlch lloia. Drwy leihau'r bwlch lloia gan 40 diwrnod ar draws buches o 150 o wartheg, crëwyd arbedion gwerth tua £18k y flwyddyn.*
>
> Astudiaeth achos grŵp trafod

4.8 Canfu'r astudiaethau achos hefyd, pan fo buddiolwyr wedi ymgysylltu gyda mwy nag un elfen o Cyswllt Ffermio, roedd yn aml **cyfuniad o gefnogaeth ategol o wahanol rannau o Cyswllt Ffermio a wnaeth y gwir wahaniaeth** i berfformiad busnes yn gyffredinol, gan ailbwysleisio pwysigrwydd cynnig eang Cyswllt Ffermio a'r gallu i lywio

drwyddo. Yn ogystal, roedd rhai o’r agweddau mwyaf dwys o gefnogaeth fel petaent yn arbennig o bwysig mewn cyflanwi newid, megis Academi Amaeth, menotra ac Agrisgôp.

**Ffigur 4-2: Canlyniadau i’w gweld ar draws astudiaethau achos**

| | Gwasanaethau cynghori | Agrisgôp | Academi Amaeth | Safle arddangos | Grwpiau trafod | Safleoedd ffocws | Cyfnewidfa Rheolaeth | Mentora | Cyrsiau sgiliau wyneb yn wyneb | E-ddysgu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwell gwybodaeth a sgiliau (busnes a thechnegol) | ✓ | ✓✓ | ✓✓ | ✓✓ | ✓✓ | ✓✓ | ✓✓ | ✓✓ | ✓✓ | ✓✓ |
| Newidiadau mewn cyfeiriad meddwl ac agweddau tuag at newid | | ✓✓ | ✓ | ✓ | ✓✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ |
| Codi ymwybyddiaeth o syniadau newydd | ✓ | ✓ | ✓✓ | ✓✓ | ✓ | ✓✓ | ✓✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Mwy o hyder ac uchelgais i newid | ✓✓ | ✓✓ | ✓✓ | ✓ | ✓✓ | ✓ | ✓ | ✓✓ | | |
| Manteision iechyd meddwl | ✓ | ✓ | | | | | | ✓ | | |
| Mwy o ymddiriedaeth mewn cyngor allanol | ✓ | | | | | | | | | |
| Dull mwy proffesiynol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓✓ | ✓✓ | ✓ |
| Manteisio rhwydweithio (yn ystod ac wedi cefnogaeth) | | ✓✓ | ✓✓ | | ✓ | ✓ | | ✓ | | |
| Perfformiad busnes (costau, cynhyrchiant, trosiant, proffidioldeb) | ✓✓ | ✓ | ✓ | ✓✓ | ✓✓ | ✓ | ✓✓ | ✓✓ | ✓✓ | |
| Cynaliadwyedd/hyfywedd busnes | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓✓ | | ✓ | ✓✓ | ✓ | |
| Gwelliannau amgylcheddol | ✓✓ | | | | ✓ | | ✓ | | | |

Ffynhonnell: SQW

4.9 Yn y paragraffau sy’n dilyn rydym yn archwilio ac yn dangos canlyniadau mewn rhagor o fanylder.

*Gwell gwybodaeth a sgiliau, o ran busnes a thechnoleg*

4.10 Mae’r holl weithgareddau fel petaent yn gwella gwybodaeth a sgiliau drwy amrywiaeth o ddulliau. Mae Agrisgôp, er enghraifft, yn helpu i wella gwybodaeth a sgiliau mewn nifer o ffyrdd: drwy wybodaeth ar y cyd/wedi’i rhannu y grŵp, drwy wahodd siaradwyr gwadd gyda safbwyntiau o’r tu allan, a thrwy “ddysgu trwy wneud” fel grŵp. Roedd y rhanddeiliaid allanol yr ymgynghorwyd â hwy yn gytûn: er enghraifft, roedd un ymgynghorai yn dweud bod cwrs trin llif gadwyn Cyswllt Ffermio “yn ddiamheuol” wedi gwella diogelwch o ran rheoli fferm a choetir.

*Newidiadau mewn cyferiaid meddwl ac agweddau tuag at newid, codi ymwybddiaeth o syniadau newydd ac annog uchelgais*

4.11 Yn y grwpiau ffocws buddiolwyr, trafododd y cyfranogwyr sut yr oedd effaith Cyswllt Ffermio yn gynnil ac yn gysylltiedig â **newid yn sut maent yn gweld eu hunain a'u busnes:** roedd eu hymgysylltiad wedi gwneud iddynt edrych ar rai agweddau ar eu busnes mewn ffordd wahanol. Er bod hyn yn bwysig, roedd rhai rhanddeiliaid allanol yn bryderus nad oedd - os mai dyma unig effaith Cyswllt Ffermio i rai - yn ddigon i gyflawni swm y newid oedd ei angen yn y sector.

> *"Y newid mewn fford do feddwl ac agwedd yw'r peth … caiff hyn effaith raddol ond tymor hwy ar y busnes. Mae'n rhoi golwg hofrennydd i chi ar fusnes eich fferm"*
> *"Rydych yn casglu gwybodaeth yma ac acw ac yn rhwydweithio gyda phobl sy'n meddwl yr run fath sy'n barod i rannu gwybodaeth a phrofiad"*
> Cyfranogwyr grŵp ffocws

4.12 I eraill, roedd manteision Cyswllt Ffermio o ran **datblygiad personol, hyder ac uchelgais** yn fwy sylweddol.

4.13 Er enghraifft, drwy ddull dysgu gweithredol Agrisgôp, mae ffermwyr yn dysgu sut i feddwl ymlaen, myfyrio, gosod nodau, ystyried opsiynau a diffinio atebion - a thrwy wneud hyn, mae Agrisgôp yn eu helpu i ddeall sut i newid eu busnes. Mae annog newid diwylliannol fel petai'n fudd allweddol Agrisgôp. Cafodd un buddiolwr hyder i drafod cynllunio olyniaeth a chyfleoedd arallgyfeirio adref; disgrifiodd fuddiolwr arall sut y mae wedi rhoi "llais" iddo a datblygiad personol "llwyr"; ac roedd un wedi meithrin hyder i fynychu cynhadledd amaethyddol yn Llundain. Fe wnaeth buddiolwyr hefyd ddisgrifio sut yr oeddent yn teimlo mewn mwy "o reolaeth" o ddyfodol eu busnes. Yn yr astudiaeth achos Agrisgôp, cydnabu'r arweinydd nad oedd dau grŵp yr un fath, roedd gan bob un ffocws gwahanol a fydd yn arwain ar wahanol ganlyniadau (e.e. cynnyrch llaeth, cnydau, materion amgylcheddol). Fodd bynnag, yn gyffredin i bob un oedd swm "enfawr" o ddatblygiad personol i'r rheini a oedd yn gysylltiedig.

4.14 Mae Academi Amaeth hefyd fel petai'n perfformio'n dda yn hyn o beth, yn arbennig o ran codi uchelgais (er enghraifft, gweler y blwch gyferbyn). Yma canfu'r astudiaeth achos bod ffermwyr yn flaenorol yn teimlo'n gyfyngedig i barhau gydag arferion ffermio traddodiadol neu fod yr arferion ffermio y maent yn eu mabwysiadu wedi cael eu rheoli gan y tir a'r adnoddau y mae

> *"Newidiodd fy ffordd o feddwl yn llwyr, roeddwn i'n teimlo y gallwn goncro'r byd!"*
> Astudiaeth achos Academi Amaeth

ganddynt fynediad atynt, ond trwy Academi Amaeth cawsant y syniadau, yr hyder a mynediad at gefnogaeth rhwydwaith ehangach er mwyn eu galluogi i wneud newidiadau yn y dyfodol. Teimlai buddiolwyr bod y gefnogaeth yn ddefnyddiol dros ben, yn arbennig o ran ysbrydoli, codi ymwybyddiaeth a rhannu syniadau gyda phobl sy'n meddwl yn yr un ffordd. Fel gydag Agrisgôp, roedd yr arweinydd o'r farn bod carfanau yn amrywio bob blwyddyn ond bod meithrin yr hyder i roi cynnig ar rywbeth newydd a/neu symud ymlaen i gyflawniadau gwell yn nodwedd gyffredin ymhlith cyn-fynychwyr Academi Amaeth.

4.15 Yn yr astudiaethau achos, disgrifiodd y buddiolwyr hefyd sut yr oedd cymryd rhan mewn gweithgareddau Cyswllt Ffermio wedi "ehangu gorwelion" a'u cyflwyno i syniadau newydd, gan arbenigwyr yn y maes a/neu drwy drafodaethau gyda chymheiriaid. Roedd y rhan fwyaf o'r syniadau hyn yn canolbwyntio ar newidiadau ar raddfa fechan a oedd yn newydd i'r fermydd, megis newid i ddwyster plannu cnydau a strategaethau bwydo anifeiliaid (e.e. astudiaeth achos cyfnewidfa rheolaeth), proffilio metabolig mamogiaid (e.e. safle arddangos) a chyfundrefnau rheoli pridd (e.e. Academi Amaeth) fel y disgrifir ym mharagraff 4.3. Fodd bynnag, mae hefyd enghreifftiau o syniadau mwy trawsnewidiol yn dylanwadu ar arferion ffermwyr, yn cynnwys arallgyfeirio i fiomas o ganlyniad i fynychu safle ffocws, a chanolbwyntio ar wahanol fathau o dda byw sydd fwyaf addas ar gyfer y tir o ganlyniad i gyngor gan fentor.

*Manteision iechyd meddwl*

4.16 Ar gyfer rhai buddiolwyr, mae Cyswllt Ffermio yn rhoi ffordd ymlaen glir, ymarferol a fforddiadwy ar gyfer ffermwyr sy'n lleihau straen a phryder (sy'n aml wedi'i fewnoli ac yn hirsefydledig). Ni ragwelwyd y budd hwn yn nodau gwreiddiol y rhaglen ond mae'n dangos sut y caiff Cyswllt Ffermio effaith hollbwysig - ar yn aml un a danwerthfawrogir - ar iechyd a lles y rheini sy'n gysylltiedig yn y sector. Mae goblygiadau unigedd ar gyfer ffermwyr erbyn hyn yn cael eu cydnabod yn eang, a disgrifiodd buddiolwyr yn yr astudiaeth achos gwasanaethau cynghori sut yr oeddent wedi bod yn mewnoli'r straen oedd yn gysylltiedig â'r materion cydymffurfio yr oeddent yn eu wynebu am fisoedd ac, oherwydd y teimlir bod datrysiadau yn ddrud iawn, bydd ffermwyr yn aml yn cael anhawster i ganfod ffordd allan. Roedd y cyngor wedi rhoi "tawelwch meddwl" i fuddiolwyr bod ffordd ymarferol a fforddiadwy ymlaen yn bosibl. Yn y cyd-destun hwn,

mae'n werth nodi bod holl staff cyflenwi Cyswllt Ffermio yn derbyn hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl.

*Ymddiried mwy mewn cyngor allanol*

4.17 Mae peth tystiolaeth bod y Gwasanaeth Cynghori yn cynyddu ymddiriedaeth ffermwyr a'u parodrwydd i ymgysylltu â chyngor allanol, ac mewn rhai achosion eu parodrwydd i dalu am hyn. Er enghraifft, canfu'r cynghorydd bod rhai ffermwyr wedyn yn talu'n breifat am ymgynghoriaeth cynllunio. Mae Cyswllt Ffermio yn helpu drwy ddangos y manteision sy'n gysylltiedig â chyngor allanol (a gynorthwyir gan y cymhorthdal) ac y cyflwyno ffermwyr i gynghorwyr credadwy (gan fynd i'r afael â diffyg ymwybyddiaeth ffermwyr ynglŷn â lle i fynd am gyngor).

*Dulliau mwy proffesiynol*

4.18 Ar draws nifer o'r astudiaethau achos, mae'n amlwg bod Cyswllt Ffermio yn chwarae rôl allweddol mewn annog dull mwy proffesiynol ar gyfer rheoli a datblygu busnes, yn arbenig o ran defnydd cynlluniau busnes, ac (fel y trafodir uchod) rhoi i ffermwyr y sgiliau a'r hyder i roi'r rhain ar waith yn effeithiol. Mae'r astudiaeth achos mentora yn rhoi enghreifftiau da o hyn.

- Nododd un buddiolwr ei fod wedi bod ar 'gromlin ddysgu enfawr' drwy'r broses mentora a'i fod wedi dysgu rhywbeth newydd bob tro iddo fod mewn cysylltiad â'i fentor. Roedd y mentor wedi adolygu ei gynllun busnes a'i annog i ystyried blaenoriaethau, a ddechreuodd gyda'r mentor yn cefnogi'r mentorai i drafod contract llaeth gyda llaethdy lleol, gan benderfynu pa frid o wartheg oedd angen iddo eu cadw mewn stoc a'r math o adeiladau ac offer oedd eu hangen arno ar gyfer fferm odro organig. Drwy drafod a mireinio ei syniadau gyda'r mentor, roedd gan y buddiolwr hyder i roi'r syniadau hyn ar waith yn gynt yn hytrach na'n hwyrach.
- Nid oedd buddiolwr arall hyd yma wedi cyflawni ei nod o brynu tir ychwanegol, ond roedd yn teimlo bod cefnogaeth mentora wedi sicrhau ei fod wedi osgoi gwneud penderfyniadau anwybodus a allai fod wedi arwain at gamgymeriadau drud. Yn ei farn ef, heb gefnogaeth y mentor efallai y byddai wedi prynu tir na fyddai'n gwbl addas i'w anghenion, ac roedd nawr yn teimlo ei fod mewn sefyllfa i droi'r pryniant tir yn fenter gost-effeithiol.
- Roedd trydydd buddiolwr wedi cael cymorth gan y mentor i wella rheolaeth llif arian a rhagamcaniadau, gan helpu i sicrhau bod biliau'n cael eu rhagweld a'u talu ar amser.

4.19 Roedd gwella proffesiynoldeb y sector hefyd yn amlwg yn yr astudiaethau achos hyfforddiant. Er enghraifft, trafododd un buddiolwr y cwrs e-ddysgu Cyllid Fferm sut yr oedd hyn wedi gwella ei allu i reoli ei gyfrifon.

*Manteision rhwydweithio*

4.20 Mae gweithgareddau Cyswllt Ffermio yn datblygu ac yn cryfhau rhwydweithiau rhwng ffermwyr, yn ystod ac wedi cefnogaeth. Er enghraifft, mae grwpiau Agrisgôp a charfannau Academi Amaeth yn aml yn parhau i gefnogi ei gilydd yn anffurfiol wedi i'r gweithgareddau ddod i ben – mae hyn yn cynnwys rhannu problemau a llwyddiannau gyda gweddill y grŵp, gofyn i gymheiriaid am gyngor a hyd yn oed sefydlu mentrau busnes ar y cyd. Roedd nifer o'r ymgynghoreion yn dweud na fyddai'r rhwydweithiau hyn yn bodoli oni bai am Cyswllt Ffermio.

*Effeithiau ar fusnes*

4.21 Roedd nifer o'r buddiolwyr yr ymgynghorwyd â hwy wedi gwneud **arbedion cost** o ganlyniad i'r gefnogaeth y maent wedi'i chael drwy Cyswllt Ffermio, a oedd yn y rhan fwyaf o achosion wedi bod yn gyflym i'w gwireddu ac yn gymharol sylweddol. Mae llawer o agweddau ar y rhaglen fel petaent yn effeithiol mewn nodi arbedion cost, fel y dangosir isod:

- **Grŵp trafod**: Ar ôl trafod pydewau silwair mewn cyfarfod grŵp trafod, roedd un buddiolwr wedi newid y gorchudd ar ei bydew silwair er mwyn lleihau gwastraff. Mae hyn wedi gwella ansawdd y porthiant a, thrwy leihau gwastraff, hefyd wedi lleihau faint o silwair a brynir i mewn gan arbed £200 yr wythnos.
- **Meincnodi**: Roedd un o fuddiolwyr Agrisgôp hefyd wedi derbyn y gefnogaeth hon yn 2018, a arweiniodd at newidiadau mewn defnydd o beledi protein ar ei fferm. Mae hyn eisoes wedi arwain at arbedion cost ar gyfer y busnes (er nad oedd yr ymgynghorai yn gallu meintioli'r rhain).
- **Cyfnewidfa rheolaeth**: Ar ôl arsylwi ar wahanol arferion rheoli glaswelltiroedd dramor, roedd un buddiolwr wedi gweithredu newidiadau ar ei fferm gan arwain at leihad gwerth £5,000 y flwyddyn mewn gwariant ar wrtaith.

*Ar ôl mynychu digwyddiadau trosglwyddo gwybodaeth yn y Safle Arddangos, rhoddodd y tri buddiolwr, gyda chymorth eu swyddog datblygu ac arweiniad gan arbenigwyr, newidiadau ar waith ar eu ffermydd. Mae hyn wedi arwain at leihad yn y defnydd o wrthfiotigau, gwell perfformiad diadell a gwell proffidioldeb yn y tymor hwy.*
Astudiaeth achos fferm arddangos

- **Mentora**: yn dilyn cyngor gan ei fentor, roedd un buddiolwr yr ymgynghorwyd ag ef wedi cyrchu proses samplo pridd a noddodd hyn diffygion mewn ffosfforws ac roedd hyn yn cael effeithiau anffafriol ar ffrwythlondeb a chyfraddau geni ei fuches. Heb gefnogaeth y mentor ni fyddai wedi ystyried hon fel problem bosibl ac mae'n debygol y byddai'n dal i gael problemau lloia ac yn colli arian
- **Hyfforddiant**: roedd un ymgynghorai wedi gwella ei ddull cymysgu a gwanhau cynhyrchion plaladdwyr a oedd wedi gwella effeithiolrwydd cost ei ddefnydd.

4.22 Ceir hefyd dystiolaeth sy'n dangos sut mae Cyswllt Ffermio yn arwain at gynnydd mewn cynhyrchiant, refeniw a phroffidioldeb ar draws y ffermydd a gefnogir. Mae maint yr effaith yn amrywio yn yr astudiaethau achos. Ar gyfer llawer mae ar raddfa fechan - er enghraifft mae gan un o fuddiolwyr Agrisgôp erbyn hyn yr hyder a'r sgiliau marchnata i werthu llysiau cartref yn lleol.

*Roedd un o'r buddiolwyr yr ymgynghorwyd ag ef mewn grŵp Agrisgôp yn canolbwyntio ar gynyddu masnach ryngwladol mewn busnesau amaethyddol. Galluogodd Agrisgôp i unigolion oedd â diddordeb yn y maes hwn i ddod ynghyd, a dywed yr ymgynghoreion na fyddai wedi digwydd heb Agrisgôp, trafod syniadau gydag arbenigwyr a datblygu rhwydweithiau gyda busnesau allforio. O ganlyniad, crëwyd busnes i ddarparu cyngor i ffermwyr (e.e. ar fframweithiau cyfreithiol sy'n gysylltiedig ag allforio cynnyrch fferm) ac mae'r grŵp yn gobeithio cynnal sioe deithiol drwy Gymru yn ddiweddarach yn 2019 i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd allforio.*

Astudiaeth achos Agrisgôp

4.23 Mewn rhai achosion, nid oedd effeithiau ariannol yn amlwg ar adeg yr ymgynghoriad ond roedd disgwyl iddynt ddod i ffrwyth yn y tymor hwy - ac roedd ganddynt y potensial i fod yn sylweddol, nid yn unig ar gyfer y ffermwyr dan sylw ond hefyd ar gyfer y sector ehangach yng Nghymru, fel y dangosir yn y blwch neges. Roedd enghraifft arall yn cynnwys yr astudiaeth achos Cyfnewidfa Rheolaeth lle, yn dilyn yr ymweliad tramor, roedd y fferm wedi newid ei strategaeth plannu ar gyfer 2019, ac roedd disgwyl i hyn arwain at gynnyrch o ansawdd gwell (er mai'r cyfnod ar gyfer gwneud enillion ar y cnwd oedd pum mlynedd).

*Roedd dysgwr wedi cwblhau cynllun busnes a chynllun marchnata ar gyfer ei fenter newydd, sef datblygu gwersyll oedd yn eithaf di-nod yn rhywbeth mwy sylweddol a chynaliadwy. Cynorthwyodd ymchwil marchnad iddo ddiffinio*

*Creu busnes hyfyw a chynaliadwy*

4.24 Yn gysylltiedig â'r pwyntiau uchod, mae Cyswllt Ffermio hefyd yn helpu i wella gwytnwch a hyfywedd busnesau. Roedd ymgynghoreion yn dweud, gan fod llawer o'r gwelliannau'n gymharol gyflym i'w rhoi ar waith, eu bod yn gallu creu busnes mwy cynaliadwy yn gyflym. Nid oedd y rhain o reidrwydd yn newidiadau trawsnewidiol yn y busnes, ond fel y dywedodd buddiolwyr astudiaeth achos Agrisgôp, roeddent yn creu busnesau cynaliadwy a allai wedyn gael eu datblygu ar gyfer y genhedlaeth nesaf. Teimlwyd bod cadw pobl ifanc a busnesau hyfyw mewn ardaloedd gwledig yn bwysig ar gyfer cynaliadwyedd cymunedol (hyd yn oed os nad oedd gan y busnesau gynlluniau twf ar raddfa fawr).

> *ei fusnes 'niche' a chanfod partneriaid newydd. Dywedodd y dysgwr ei fod yn teimlo bod y cynllun busnes yn ddogfen ddefnyddiol dros ben oherwydd "eich bod yn dueddol o anghofio rhai o'ch syniadau ac mae'n ddefnyddiol os ydynt wedi'u cofnodi mewn du a gwyn". Mae'r busnes newydd yn tyfu'n raddol ac yn y tymor hwy mae'n gobeithio y bydd ei blentyn yn gallu parhau â'r busnes a fydd yn ei dro yn "cefnogi dyfodol ein cartref a'n dyddyn".*
>
> Astudiaeth sgiliau busnes

*Gwelliannau amgylcheddol ac mewn iechyd anifeiliaid*

4.25 Ar draws llawer o'r astudiaethau achos mae cyngor Cyswllt Ffermio wedi arwain at welliant amgylcheddol a manteision i iechyd anifeiliaid. Er enghraifft:

- O ganlyniad i gefnogaeth gwasanaeth cynghori, roedd un buddiolwr wedi cyflwyno canonau dŵr sydd wedi lleihau gwastraff dŵr, ac mae nifer o rai eraill wedi gwella eu rheolaeth ar slyri
- Roedd buddiolwyr grwpiau trafod wedi dysgu gan eu cymheiriaid sut i leihau defnydd gwrthfiotigau, rheoli mastitis yn well, a newid polisi golchi traed er mwyn lleihau dermatitis
- Roedd buddiolwyr safle arddangos hefyd wedi dysgu am arferion hylendid, gan leihau'r defnydd o wrthfiotigau a gwella cynlluniau iechyd anifeiliaid
- Roedd un o fuddiolwyr yr hyfforddiant wedi dod yn fwy effeithlon o ganlyniad i'r cwrs defnydd diogel ar blaladdwyr, a oedd wedi cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd bywyd gwyllt ar y fferm
- Roedd gan fuddiolwr y cwrs e-ddysgu ar sgorio cyflwr corff gwartheg fan cychwyn ar gyfer trafodaeth gyda'i milfeddyg; arweiniodd hyn iddi archwilio ymhellach ac yna mabwysiadu meincnodi (gan fod y cyfnod lloia yn dal i ddigwydd, nid oedd yn gallu dweud a oedd y newidiadau hyn wedi cael effaith gadarnhaol).

*Goferu ehangach a chanlyniadau anuniongyrchol*

4.26 Mae tystiolaeth gyfyngedig am fanteision canlyniadol ar gyfer y rheini sydd ddim yn derbyn cefnogaeth yn uniongyrchol, megis goferu gwybodaeth neu ymyrraeth cadwyn gyflenwi. Ar lefel strategol, mae MaB a Lantra yn cymryd rhan mewn digwyddiadau amaethyddol allweddol ledled Cymru, ac mae deunydd cyfnewid gwybodaeth ar gael am ddim ar y wefan. Hefyd, mae ffermwr safleoedd arddangos wedi lledaenu dysgu ledled Cymru ac yn fwy eang (e.e. mewn cynhadledd yn Llundain).

4.27 Fel y trafodwyd yn Adran 3, mae i ba raddau y mae dysgu gan weithgareddau/grwpiau Cyswllt Ffermio yn cael ei ledaenu'n fwy eang wedi amrywio, yn dibynnu ar y math o gefnogaeth a dderbyniwyd (ac, i rai, pwysigrwydd cyfrinachedd). Mae Cyfnewidfa Rheolaeth yn cynnwys rheidrwydd ffurfiol i gyfnewid gwybodaeth yn fwy eang, gyda gofyn i gyfranogwyr lunio adroddiad a rhoi cyflwyniadau i eraill. Mae Academi Amaeth yn annog cyfranogwyr i rannu dysgu, er enghraifft drwy siarad mewn digwyddiadau, ond nid yw hwn yn ofyniad ffurfiol. Ar gyfer mwyafrif y cynnig Cyswllt Ffermio ehangach, mae'r rhaglen yn tybio y bydd goferu gwybodaeth yn digwydd yn organig ar lafar, ac felly mae'n bennaf ddibynnol ar y ffermwyr eu hunain (ac i ba raddau y maent yn agored i rannu gwybodaeth a bod ganddynt rwydweithiau da yn y gymuned). Efallai bod dadl i "ymrwymo" goferu yn effeithiol drwy fecanweithiau mwy ffurfiol wedi'u cynnwys yng nghynllun gweithgareddau eraill Cyswllt Ffermio, er enghraifft lle bo hynny'n briodol, ei gwneud hi'n ofyniad (yn gyfnewid am gefnogaeth ddwys).

**Ychwanegedd**

4.28 Mae i ba raddau y mae'r canlyniadau a welwyd hyd yma yn ychwanegol (h.y. na fyddent wedi digwydd heb Cyswllt Ffermio) yn amrywio ar draws y rhaglen a'i buddiolwyr. Ar y cyfan dengys y dystiolaeth bod y gefnogaeth yn arwain at newidiadau ar gyfer y rhan fwyaf o fuddiolwyr na fyddai fel arall wedi digwydd, neu heb ddigwydd mor gyflym neu mewn ffurf wahanol.

- Cysylltir canlyniadau ychwanegol llawn gyda bod dim cefnogaeth debyg ar gael, neu lle na fyddai buddiolwyr wedi ceisio cyngor allanol. Er enghraifft, disgrifodd un o'r cynghorwyr sut y teimlir bod newidiadau rheoleiddiol yn rhy ddrud felly ni weithredir a bydd y fferm yn mynd allan o fusnes. Yn yr astudiaeth achos safle arddangos, roedd dau o'r tri buddiolwr yn dweud na fyddent wedi rhoi newidiadau ar waith o gwbl heb Cyswllt Ffermio.

- Lle mae canlyniadau wedi cael eu cyflymu, mae sut y mae Cyswllt Ffermio wedi hwyluso cynnydd (e.e. drwy drafodaethau a hwylusir, dulliau dysgu gweithredol) wedi bod yn hollbwysig mewn cynnal momentwm. Mae gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio i wella hyder ffermwyr, ynghyd â rhoi'r sgiliau iddynt i newid, hefyd wedi cyflymu cyflymder newid - er enghraifft, yn yr astudiaeth achos Cyfnewidfa Rheolaeth, teimlai un o'r buddiolwr y gallai fod wedi rhoi rhai o'r newidiadau ar waith heb gefnogaeth, ond daeth Cyfnewidfa Rheolaeth â'r amseru ymlaen gan fod ganddo fwy o hyder yn y newidiadau. Mae'r blwch gyferbyn yn dangos deinameg newid, lle mae newidiadau eraill yn dilyn unwaith bod y broses newid yn dechrau, gan fod y buddiolwr wedi dod yn fwy agored i bosibiliadau, ac mae ei fusnes mewn lle gwahanol.

> *"Byddem yn dal i ffermio fel yr oedd dad yn ei wneud heb CFf. Byddem wedi gwneud rhai newidiadau, ond ni fyddai cymaint, ac ni fyddem wedi gwella'r busnes yn y modd yr ydym wedi'i wneud heb CFf. Fe fyddem wedi bod flynyddoedd ar ei hôl hi,"*
> Astudiaeth achos Academi Amaeth

- Mae'r rhaglen hefyd wedi codi safon ac effeithiolrwydd newidiadau, o gymharu â beth allai fod wedi digwydd beth bynnag, sy'n bwysig o ran creu busnesau hyfyw ar gyfer y dyfodol. Er enghraifft, roedd un o'r cynghorwyr yn dweud bod cefnogaeth Cyswllt Ffermio yn sicrhau bod ffermwyr yn mabwysiadu'r dull mwyaf cost effeithiol i fynd i'r afael â heriau a wynebir o fewn y busnes.

4.29 Mae tystiolaeth hefyd i ddangos bod ychwanegedd yn amrywio ar draws y canlyniadau, ac mae'n ymddangos fel petai'n arbennig o uchel mewn perthynas â chanlyniadau meddalach ynglŷn â hyder, agweddau a chyfeiriad meddwl (e.e. astudiaeth achos Agrisgôp).

4.30 Roedd nifer fechan o enghreifftiau o ddi-fuddiant yn yr astudiaethau achos, lle byddai ffermwyr wedi talu'n breifat am gyngor neu hyfforddiant, ond cawsant eu llywio yn ôl i Cyswllt Ffermio gan y cynghorydd/darparwr hyfforddiant er mwyn derbyn y gefnogaeth am ddim/gyda chymhorthdal. Mae hyn fel petai'n fwy cyffredin lle byddai newidiadau rheoleiddiol wedi gorfodi newid mewn rhai meysydd (e.e. rheoli slyri, defnydd diogel o blaladdwyr). Wedi dweud hynny, roedd rhai buddiolwyr yn dweud bod y cyllid wedi galluogi iddynt fynychu hyfforddiant yn gynharach, ac o ganlyniad maent wedi cyflwyno arferion mwy diogel a mwy effeithlon yn gyflymach.

4.31 Y canfyddiad cyffredinol oedd, er gwaethaf cyfradd fechan o ddi-fuddiant, mae Cyswllt Ffermio yn arwain at newid cyflymach, o ansawdd gwell a mwy cynaliadwy yn y sector.

## 5. Casgliadau

5.1 Yn yr Adran olaf hon, rydym yn myfyrio ar y negeseuon allweddol yn erbyn ein cwestiynau ymchwil gwreiddiol ar gyfer y gwerthusiad, ac rydym yn ailymweld â'r theori o newid gwreiddiol ar gyfer Cyswllt Ffermio i brofi sut y cyflawnwyd hyn yn ymarferol a'r ffactorau sydd wedi cynorthwyo neu lesteirio cynnydd. Rydym hefyd yn nodi gwersi i'w hystyried wrth gynllunio polisi'r dyfodol.

**Crynodeb o ganfyddiadau allweddol**

*Pa weithgareddau sydd wedi'u cyflawni hyd yma, o gymharu â'r disgwyliadau?*

5.2 Cynlluniwyd Cyswllt Ffermio yn fwriadol i gynnig ystod eang o gefnogaeth, gan ystyried gwahanol anghenion, camau datblygiad a dulliau dysgu a ffafrir ar draws y sector ffermio. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth grŵp a chyngor un i un, a chyfnewid gwybodaeth rhwng cymheiriaid ac arbenigedd allanol gan eraill. Gyda'i gilydd, mae'r gweithgareddau wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â rhwystrau seiliedig ar agweddau i newid, meithrin hyder a darparu ffermwyr gyda'r ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i weithredu newid. Mae hefyd yn cynnig y cyfle i wneud cynnydd tuag at newid mwy arloesol a thrawsnewidiol wrth i brofiad a hyder unigolion gynyddu. Mae'r rhaglen "yn gyfarwydd", "yn un yr ymddiriedir ynddi" ac "yn un a berchir" ledled Cymru, ac mae hirhoedledd a pharhad Cyswllt Ffermio wedi bod yn bwysig yn hyn o beth.

5.3 Gwnaed cynnydd da yn erbyn ein targedau allbwn hyd yma ar draws y tair "Lot"[43]. Aethpwyd eisoes y tu hwnt i rai targedau (hyd at 19 Awst 2019 ), yn cynnwys mentora, digwyddiadau rhwydwaith arddangos, grwpiau trafod a chymorthfeydd un i un, cyngor grŵp a chyfran meincnodi grwpiau trafod. Mae'r targedau ar gyfer ffeithlenni, erthyglau technegol a hysbysiadau'r wasg eisoes wedi eu cyrraedd gan dros ddwbl. Fodd bynnag, mae cynnydd tuag at dargedau Cyfnewidfa Rheolaeth wedi bod yn arafach.

*Pa mor ddwys mae ffermwyr yn ymgysylltu â'r rhaglen ac yn gwneud cynnydd drwy'r cynnig, a beth sy'n ysgogi hyn?*

5.4 Roedd bron i 20,000 o unigolion wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio erbyn Rhagfyr 2018, sy'n cwmpasu ychydig dros 9,500 o fusnesau. Roedd ychydig dros ddau draean (69%) o'r unigolion oedd wedi cofrestru wedi ymgysylltu â'r gefnogaeth sydd ar gael. O'r rheini sydd wedi ymgysylltu, mae bron i ddau drawan ohonynt wedi ymgysylltu ag

[43] Lot 1: Cyfnewid Gwybodaeth; Lot 2: Hyfforddiant; Lot 3: Gwasanaethau Cynghori.

un “Lot” yn unig (ac mae’r rhan fwyaf o’r rhain wedi ymgysylltu gyda gweithgareddau trosglwyddo gwybodaeth yn unig[44]) ac mae bron i un rhan o dair wedi ymgysylltu â dwy “Lot” (lle mae’n ymddangos bod trawsgroesi rhwng trosglwyddo gwybodaeth a hyfforddiant[45] neu wasanaethau cynghori, ond fawr ddim rhwng hyfforddiant a gwasanaethau cynghori). Ychydig iawn sydd wedi ymgysylltu o dan bob un o’r tair “Lot”.

5.5 Mae adborth o’r ymgynghoriad hefyd yn awgrymu bod grŵp llai o fuddiolwyr yn ymgysylltu’n ddwys gyda nifer o agweddau o’r rhaglen ac yn gwneud cynnydd drwy’r cynnig wrth iddynt ddod yn fwy hyderus ac uchelgeisiol. Fodd bynnag, ar gyfer llawer, gall ymgysylltu â’r cynnig fod yn gymharol gul a/neu yn ysgafn. Mae hyn yn rhannol o ganlyniad i gyfyngiadau amser ffermwyr, ond mae llywio drwy’r cynnig a gwybod lle i fynd nesaf ar ôl derbyn cefnogaeth gan un elfen o’r rhaglen fel petai’n broblem i nifer. Mae Swyddogion Datblygu wedi chwarae rhan allweddol mewn hwyluso siwrneiau rhai ffermwyr drwy Cyswllt Ffermio, ond yn aml mae hi i fyny i’r ffermwyr eu hunain lywio ac roedd llawer yn gweld hyn yn her. Mynegodd y buddiolwyr rwystredigaeth gyda diffyg un pwynt cyswllt o fewn y rhaglen ac anawsterau mewn llywio drwy’r wefan (hyd yn oed y rheini sy’n llythrennog iawn o ran TG). Awgrymodd ffermwyr a rhanddeiliaid allanol bod lle i ddarparu cefnogaeth fwy “personol” a “chyfannol” drwy siwrnai’r cwsmer er mwyn integreiddio gweithgareddau Cyswllt Ffermio yn well. Yn hollbwysig, dywedodd rhai bod angen i Cyswllt Ffermio ddatblygu “pecyn cefnogaeth gwirioneddol” ar gyfer buddiolwyr (yn cyfuno gwybodaeth, sgiliau a buddsoddiad) er mwyn sicrhau effaith gwirioneddol a’r “newid sylweddol” sydd ei angen yn y secto.

*Pa mor effeithiol ac effeithlon y mae’r rhaglen yn cael ei chyflenwi, ei rheoli a’i llywodraethu?*

5.6 Mae Cyswllt Ffermio yn mabwysiadu dull amlweddog ar gyfer hyrwyddo, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau a mecanweithiau sy’n adlewyrchu amrywiaeth y farchnad darged. Mae gan bresenoldeb cyfryngau cymdeithasol y rhaglen ddilyniant cryf ac un sy’n tyfu, ac mae hyn yn galluogi ffermwyr i gyrchu gwybodaeth/cyngor ar adeg sy’n gyfleus iddynt hwy. Teimlir bod presenoldeb Swyddogion Datblygu yn y gymuned yn hollbwysig i hwyluso mynediad at y rhaglen, ac mae ehangu’r meini prawf

[44] Nifer ohonynt wedi mynychu digwyddiadau ymwybyddiaeth strategol.
[45] O edrych ar yr holl ymgysylltu mewn hyfforddiant, ar gyfartaledd mae un cwrs hyfforddi wedi’i fynychu am bob unigolyn.

cymhwysedd a chyflwyno presenoldeb mewn digwyddiadau fel rhagamod ar gyfer cymorth grant wedi cynorthwyo i ehangu'r cyrhaeddiad. Mae ehangu ymgysylltiad yn parhau'n her ar gyfer y rhaglen, ond cwestiynodd rhai rhanddeiliaid allanol a buddiolwyr a ddylai hwn barhau i fod yn nod (neu a ddylai dwysau cymorth lle mae potensial ar gyfer newid gwirioneddol fod yn flaenoriaeth). Wedi dweud hynny, awgrymodd ymgynghoreion bod lle i ddefnyddio rhwydweithiau partneriaid a chyfryngwyr yn fwy effeithiol, cael gafael ar fuddiolwyr y teimlir sy'n "ddylanwadwyr allweddol" i hyrwyddo'r rhaglen, a theilwra a thargedu deunydd marchnata yn fwy effeithiol.

5.7 Asesir anghenion ffermwyr ar y dechrau mewn nifer o ffyrdd er mwyn eu cyfeirio at y gefnogaeth fwyaf priodol. Mae Swyddogion Datblygu hefyd yn chwarae rôl allweddol yn hyn, drwy drafodaeth anffurfiol gyda ffermwyr yn eu cymuned. Mae rhai gweithgareddau o fewn y rhaglen hefyd yn asesu angen, er bod hyn yn dueddol o fod yn canolbwyntio'n gul ar y mater penodol dan sylw. Nid yw Cynlluniau Datblygu Personol (CDP) wedi bod yn arbennig o effeithiol – yn rhy aml teimlir mai "ymarferiad ticio'r blychau" ydynt i gyrchu hyfforddiant yn hytrach nag asesiad mwy cyflawn, ac rydym wedi canfod mai anaml y bydd ffermwyr yn ailymweld â'r rhain. Roedd y broses CDP wedi gweithio'n well lle llenwyd y ffurflen ac ailedrychwyd arni gyda chefnogaeth gan hwylusydd.

5.8 Ar draws y gweithgareddau Cyswllt Ffermio, mae nifer o nodweddion sydd wedi gweithio'n dda hyd yma, yn cynnwys dulliau hunangymorth a dysgu gweithredol, gan annog buddiolwyr i hunanddiffinio nodau er mwyn sicrhau eu bod yn cyfateb yn agos i'w hanghenion a pherchnogaeth o'r broses, dysgu ymarferol ar fferm a chefnogaeth rhwng cymheiriaid, a hyblygrwydd i addasu i ffocws gweithgaredd mewn ymateb i amodau sy'n newid ac i fod yn addas i batrymau gweithio'r rheini sy'n gysylltiedig. Mae'r cyfuniad o gefnogaeth grŵp a chyngor pwrpasol/cyfrinachol un i un hefyd wedi bod yn bwysig, ynghyd â gweithgareddau sy'n mynd i'r afael â beth sydd angen newid a sut y gellir gwneud hyn. Mae hwyluswyr mewn gweithgareddau grŵp yn chwarae rôl allweddol mewn rhoi strwythur, momentwm a (phan fo angen) her er mwyn sicrhau bod buddiolwyr yn symud ymlaen, ochr yn ochr â mewnbwn gan gynghorwyr/siaradwyr o'r radd flaenaf yr ymddiriedir ynddynt i ddarparu ysbrydoliaeth ac arbenigedd. Darperir rhai o'r gweithgareddau mwy dwys drwy gystadleuaeth yn hytrach na mynediad agored ac, er nad yw'r dull hwn yn addas ar gyfer pob elfen o

Cyswllt Ffermio, mae'n ymddangos ei fod yn sicrhau ymrwymiad cadarn a chryf i'r gefnogaeth a'r newid sy'n dilyn. Mae gweithgareddau meincnodi hefyd wedi bod yn ddefnyddiol mewn helpu ffermwyr i ddeall sut mae eu harfer yn effeithio ar eu perfformiad ariannol, sy'n ysgogwr allweddol ar gyfer newid ymddygiad. Unwaith eto, mae meincnodi fel petai'n fwyaf effeithiol pan y'i gwneir mewn trafodaeth â chymheiriaid neu hwyluswyr.

5.9 Gwelwyd rhai heriau o ran cyflenwi, yn cynnwys adrodd am amrywiaeth yn ansawdd a chysondeb hwyluswyr/cynghorwyr (yn arbennig mewn perthynas â chyfeirio/gofal cofleidiol), galluedd Swyddogon Datblygu, a defnydd ffenestri gwneud cais am hyfforddiant, a rheoli'r defnydd o gefnogaeth "cyfyngedig o ran amser". Awgrymodd ymgynghoreion hefyd y gallai fod cyfleoedd wedi'u colli ar gyfer ffermwyr sydd eisiau symud ymlaen, gyda gweithgareddau mwy ysbrydoledig a datblygedig a llwybrau clir ar gyfer y ffermwyr mwyaf blaengar. Amlygwyd cyllid fel bwlch allweddol yn y cynnig Cyswllt Ffermio presennol ac, fel y trafodir isod, nodwyd bod diffyg cyfalaf yn un o'r rhwystrau mwyaf pwysig i weithredu. Yn benodol, dywedodd rhai ymgynghoreion y byddai cronfa hyblyg a hygyrch i ffermwyr brofi a rhoi syniadau newydd/arloesol ar waith yn helpu i hwyluso newid mwy sylweddol yn y sector. Er bod y Grant Busnes i Ffermydd newydd yn ddefnyddiol, mynegodd ymgynghoreion bryderon ynglŷn â maint, amseru a ffocws y cyllid sydd ar gael drwy'r mecanwaith hwn.

5.10 Mae hefyd beth pryder bod Cyswllt Ffermio yn cael ei "gymryd yn ganiataol" gan lawer yn y sector, gyda'r nifer sy'n manteisio yn cael eu hysgogi gan bresenoldeb cefnogaeth am ddim yn hytrach na gwir angen/cymhelliant i newid (ac o ganlyniad mae rhai'n dweud bod hyn yn lleihau effaith y rhaglen). Hefyd, mae tystiolaeth i awgrymu y byddai lleiafrif o fuddiolwyr wedi talu'n breifat am gyngor neu hyfforddiant, ond iddynt gael eu hailgyfeirio at gefnogaeth am ddim/cymorthdaledig, yn arbennig pan fo newid rheoleiddiol ar y gorwel. Daethom hefyd o hyd i enghreifftiau lle mae Cyswllt Ffermio wedi annog ffermwyr i baratoi ar gyfer y newidiadau hyn yn gyflymach nag y byddent wedi gwneud fel arall (gweler y canfyddiadau ar ychwaneged isod).

5.11 O ran rheoli, mae'r trefniadau sydd ar waith fel petaent yn gweithio'n effeithiol. Rheolir y gwaith cyflenwi o ddydd i ddydd gan MaB a Lantra mewn cysylltiad agos â Llywodraeth Cymru. Mae MaB a Lantra yn rhoi pwyslais cryf ar adborth a gwelliant parhaus er mwyn i Cyswllt Ffermio fod mor effeithiol â phosibl mewn amser real. Fodd bynnag, roedd diffyg her strategol ac allanol, a arweinir gan y diwydiant a mewnbwn i

gynllunio a chyflenwi Cyswllt Ffermio yn bryder a rannwyd gan nifer o ymgynghoreion, yn arbennig o gofio pa mor gyflym y mae angen i'r sector newid. Ar lefel weithredol, mae gweithio mewn partneriaeth wedi gwella'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, ond teimlai ymgynghoreion bod lle i gryfhau cysylltiadau ymhellach, yn arbennig parthed marchnata ar y cyd, negeseuon cyffredin ac atgyfeirio/arwyddbostio di-dor.

*I ba raddau y mae newidiadau a roddir ar waith ar ffermydd yn arwain at y canlyniadau a'r effeithiau a fwriadwyd?*

5.12 Ar y cyfan mae Cyswllt Ffermio yn chwarae rhan hollbwysig mewn creu'r "sylfeini ar gyfer newid", gydag effaith sylweddol ar ganlyniadau personol - megis newid cyfeiriad meddwl, agweddau, hyder ac uchelgais - sy'n amlwg ar draws llawer o'r gweithgareddau yr edrychwyd arnynt mewn manylder ar gyfer y gwerthusiad hwn. Mae Cyswllt Ffermio hefyd yn cael effaith (a gydnabyddir ond yn aml a dan-werthfawrogir) ar iechyd meddwl ffermwyr, drwy gynorthwyo i ganfod atebion clir a fforddiadwy i faterion sydd wedi achosi straen a phryder sylweddol.

5.13 O ran gweithredu, ar gyfer nifer o ffermwyr mae'r gefnogaeth yn arwain at newidiadau ar raddfa fach, cynyddraddol dros gyfnod o amser, yn aml drwy gyflwyno dulliau mwy proffesiynol ar gyfer rheoli busnes a gwelliannau iechyd ac amgylcheddol. Mae'r dull cynyddraddol hwn yn adlewyrchu'r ffaith bod nifer o fusnesau bach iawn wedi'u llesteirio gan alluedd ac adnoddau, felly mae angen i newidiadau fod yn fforddiadwy ac yn hawdd eu rheoli. Gall hefyd adlewyrchu'r modd y mae ymgysylltu â Cyswllt Ffermio (a llywio drwy'r cynnig) ac mae diffiniad nodau o fewn nifer o weithgareddau yn cael eu harwain gan ffermwyr. Gwnaethom ganfod fod yn enillion bach hyn ar draws llawer o agweddau o'r busnes, yn gyfanredol, yn cynorthwyo i greu mentrau mwy hyfyw a chynaliadwy yn y tymor hwy. Hefyd, ar gyfer rhai o'r rheini sy'n gysylltiedig, mae Cyswllt Ffermio wedi cael effaith fwy trawsnewidiol ar y busnes, drwy leihau costau'n sylweddol, arallgyfeirio a mentrau busnes newydd.

5.14 Ar y cyfan, mae'n ymddangos bod Cyswllt Ffermio yn rhoi canlyniadau na fyddent wedi cael eu cyflawni o gwbl, y byddent wedi cymryd mwy o amser, wedi bod yn is o ran ansawdd neu'n llai cynaliadwy, heb y rhaglen. Pan oedd buddiolwyr yn ymgysylltu mewn mwy nag un elfen o'r cynnig, yn aml cyfuniad o gefnogaeth ategol gan wahanol rannau o Cyswllt Ffermio a wnaeth y gwahaniaeth gwirioneddol i berfformiad busnes, gan ailbwysleisio pwysigrwydd cael cynnig eang a gallu llywio drwyddo.

5.15 Mae'r modd y mae Cyswllt Ffermio wedi cael ei gynllunio a'i gyflenwi ar y cyfan wedi bod yn ffafriol i annog newid (e.e. darparu cyngor ymarferol, dysgu drwy brofiadau ymarferol cymheiriaid ac at), yn unol ag arfer da. Fodd bynnag, bu nifer o rwystrau i weithrediad, yn cynnwys materion amser/galluedd/ymladd tân mewn busnesau bach iawn, diffyg cyfalaf i fuddsoddi a materion olyniaeth, ochr yn ochr â ffactorau allanol megis marchnadoedd, darpariaeth band eang a'r tywydd. Dywedodd rhai rhanddeiliaid allanol hefyd er bod Cyswllt Ffermio wedi arwain at newidiadau mewn ymddygiad ac agweddau, mae'r gefnogaeth eang (ac mewn llawer o achosion ysgafn) wedi gwanhau effaith y rhaglen.

*Beth* yw'r gwersi allweddol i hysbysu cyflenwi *parhaus a chynllunio ymyriadau yn y dyfodol?*

5.16 Roedd consensws ymhlith y gwahanol randdeiliaid a buddiolwyr yr ymgynghorwyd â hwy y bydd cefnogaeth i gynorthwyo'r sector ffermio i addasu a pharhau'n gystadleuol yn dod yn fwyfwy pwysig yn y dyfodol agos a thu hwnt, a bod y rhaglen bresennol yn rhoi llwyfan cryf, ac yn un a werthfawrogir yn eang, ar gyfer hyn. Mae canfyddiadau'r gwerthusiad hwn, fodd bynnag, yn codi rhai cwestiynau y credwn ni y dylai Llywodraeth Cymru a phartneriaid eu hystyried wrth gynllunio rhaglenni yn y dyfodol.

- Yn gyntaf, mae lle - a galw amlwg gan rai ffermwyr - i gyflwyno syniadau mwy ysbrydoledig a heriau allanol i'r rhaglen er mwyn ysgogi ffyrdd newydd o weithio. Mae hyn yn codi'r cwestiwn strategol ynglŷn â'r cydbwysedd rhwng datblygiad gwybodaeth rhwng cymheiriaid, a arweinir gan fuddiolwyr ac a arweinir yn allanol wrth gynllunio a chyflenwi'r math hon o raglen.
- Yn ail, mae mewnbwn strategol gan y diwydiant i gynllunio a chyflenwi yn hanfodol, yn cynnwys gweithio'n agos, yn ffurfiol ac yn rheolaidd gyda phartneriaid allweddol yn y broses. Yn gysylltiedig â hyn, mae lle i gryfhau gweithio mewn partneriaeth er mwyn gwneud gwell defnydd o rwydweithiau partneriaeth i godi ymwybyddiaeth/gwella cyrhaeddiad y cynnig, lledaenu gwybodaeth ymhellach, sicrhau negeseuon cyson, a galluogi cyfeirio mwy effeithiol. O gofio'r galw, a'r newidiadau sy'n debygol mewn cyfnod o ansicrwydd economaidd a sefydliadol, gallai Llywodraeth Cymru ystyried gwahodd partneriaid allweddol (er enghraifft, y rheini a fyddai wedi bod yn gysylltiedig yn y Bwrdd Cynghori Diwydiannol) i ymuno â'r SAB[46], rhoi llais a

[46] Cywir ar adeg yr ymchwil. Fodd bynnag, ers hynny mae partneriaid o'r fath wedi'u gwahodd.


dylanwad i bartneriaid, ond hefyd sicrhau bod mewnwelediad mwyaf cyfoes gan ddiwydiant yn siapio'r cynnig.

- Yn drydydd, gyda chyfyngiad o ran adnoddau, mae cwestiwn strategol ynglŷn ag a ddylai pwylais gael ei roi yn y dyfodol ar gefnogaeth fanwl wedi'i chanolbwyntio yn hytrach na swm/cyrhaeddiad. Er bod y rhesymeg yn parhau'n gryf i godi ymwybyddiaeth/rhannu gwybodaeth gyda'r gymuned ffermio yn gyfan, mae tystiolaeth gynyddol i awgrymu y gallai cynnig mwy dwys, wedi'i bersonoleiddio ac integredig ar gyfer y rheini sydd â'r potensial mwyaf/â'r angen mwyaf/mwyaf parod i newid arwain at fwy o effaith yn gyffredinol. Bydd hyn yn amlwg yn golygu goblygiadau ar adnoddau.
- Yn bedwerydd, mae'r llwybrau i gael effaith ar y gymuned ehangach (y tu hwnt i'r rheini a gefnogir yn uniongyrchol gan y rhaglen) yn dueddol o ganolbwyntio ar weithgarwch marchnata gan MaB/Lantra a deunyddiau ysgrifenedig ar y wefan. Anaml y bydd y cyfrifoldeb am ledaenu gan y buddiolwyr eu hunain wedi'i gynnwys yn y gweithgareddau, er y dywedir yn aml mai rhannu gwybodaeth ar lafar neu rhwng un cymheiriad a'r llall yw un o'r mecanweithiau mwyaf effeithiol ar gyfer y sector hwn. Gallai fod lle fodd bynnag i'w gwneud hi'n ofynnol i ffermwyr sy'n derbyn cefnogaeth fwy dwys gynorthwyo i ledaenu'r hyn y maent wedi'i ddysgu i ffermwyr eraill. I bob diben, byddai'r rhaglen yn ymrwymo i oferu fel rhan o'r cynnig.

5.17 Archwilir y materion hyn ymhellach yng ngham nesaf y gwerthusiad, yn ogystal â mwy o bwyslais ar ganlyniadau ac effeithiau wrth i'r rhaglen hon dynnu at ei therfyn.

5.18 I grynhoi'r negeseuon allweddol o'r gwerthusiad hwn, rydym wedi ailedrych ar theori o newid Cyswllt Ffermio er mwyn dangos – ar ffurf penawdau – sut mae'r rhaglen wedi perfformio yn erbyn yr allbynnau, canlyniadau ac effeithiau disgwyliedig, ac i amlygu'r ffactorau sydd wedi helpu neu lesterio'r gwaith cyflenwi ar bob cam o'r broses.

## Ffigur 5-1: Theori o newid … ar waith




Source: SQW

## Atodiad A: Trosolwg o astudiaethau achos

**Ffigur A-1: Trosolwg o weithgareddau astudiaethau achos a dull**

| Gweithgaredd Cyswllt Ffermio | Trosolwg o'r gweithgaredd | Trosolwg astudiaeth achos |
|---|---|---|
| **Grŵp Trafod** | • Fel arfer mae Grwpiau Trafod yn cynnwys 8-10 aelod sy'n magu'r un anifeiliaid/tyfu'r un cnydau yn yr un gymdogaeth ac felly mae ganddynt heriau a chyfleoedd tebyg<br>• Hwylusir pob grŵp gan aelod staff CFf, Swyddog Datblygu yn aml, sy'n trefnu'r cyfarfodydd ac yn trefnu siaradwyr. Mae pob cyfarfod yn ymdrin ag un pwnc ac yn para tua dwy awr, yn cynnwys cyflwyniad gan siaradwr sy'n arbenigwr.<br>• Darperir cyllideb cymhelliant gwerth £250/300 y fferm y flwyddyn er mwyn caniatáu i ffermwyr roi cynnig ar rywbeth gwahanol ar eu fferm.<br>• Cyflwynwyd Grwpiau Trafod ar ddechrau rhaglen bresennol CFf. | Ffocws: Dyddiadur Grŵp Trafod<br>Roedd yr astudiaeth achos yn cynnwys:<br>• ymgynghoriad gyda hwylusydd y Grŵp<br>• mynychu cyfarfod Grŵp a grŵp ffocws dilynol gyda phob mynychwr<br>• ymgynghoriad dilyn i fyny manwl gydag un person a fynychodd y Grŵp |
| **Safle Arddangos** | • Mae Safleoedd Arddangos yn llunio rhan o'r Rhwydwaith Arddangos ehangach. Mae'r deuddeg Safle Arddangos presennol wedi'u dewis er mwyn dangos enghreifftiau o arfer gorau, technegau arloesol a thechnolegau newydd. Mae safleoedd yn gweithredu ac yn arddangos ystod o brosiectau sy'n canolbwyntio ar | Ffocws: Safle Arddangos<br>Roedd yr astudiaeth achos yn cynnwys:<br>• ymgynghoriad gydag arweinydd technegol CFf (Swyddog Technegol)<br>• ymgynghroriad gydag arweinydd Safle Arddangos<br>• ymgynghoriadau gyda thri buddiolwr |

| Gweithgaredd Cyswllt Ffermio | Trosolwg o’r gweithgaredd | Trosolwg astudiaeth achos |
|---|---|---|
| | integreiddio technoleg newydd a/neu ddulliau newydd ar gyfer rheoli, gwella effeithlonrwydd a chynyddu proffidioldeb.<br>• Dewisir a rheolir safleoedd gan aelod staff CFf (Swyddog Technegol fel arfer) ac fe’i cefnogir gan arbenigwyr yn y diwydiant.<br>• Bydd safleoedd yn cynnal diwrnodau agored a digwyddiadau datblygu rheolaidd er mwyn lledaenu gwybodaeth ac annog mwy i fanteisio ar arferion/technolegau newydd.<br>• Roedd enghreifftiau cynharach o’r rhaglen CFf yn cynnwys Safleoedd Arddangos, ond mae’r Rhwydwaith Arddangos ehangach yn newydd i’r rhaglen. | |
| **Safle Ffocws** | • Mae Safleoedd Ffocws yn rhan o’r Rhwydwaith Arddangos ehangach. Diben Safleoedd Ffocws yw darparu prosiectau a threialon unwaith yn unig ar draws ystod eang o bynciau.<br>• Lledaenir dysgu drwy ddigwyddiadau ar y safle a chyhoeddiadau, ac yn aml bydd perchnogion safle hefyd yn darparu cyngor a chyfleoedd ad hoc ychwanegol ar gyfer ymweld â’r safle.<br>• Sefydlir a rheolir Safleoedd Ffocws gan Swyddogion Technegol CFf ond mae ffermwr y | Ffocws: Safle Ffocws<br>Roedd yr astudiaeth achos yn cynnwys:<br>• ymgynghoriad gydag arweinydd technegol CFf (Swyddog Technegol)<br>• ymgynghoriad gyda pherchennog y safle<br>• ymgynghoriadau gyda phedwar o fuddiolwyr (ac ymgynghoriad byr gyda buddiolwr ychwanegol) |

| Gweithgaredd Cyswllt Ffermio | Trosolwg o'r gweithgaredd | Trosolwg astudiaeth achos |
|---|---|---|
| | safle yn chwarae rhan amlwg hefyd.<br>• Nid oedd gweithgarwch Safle Ffocws, yn ei ffurf bresennol, wedi'i gynnwys yn CFf cyn 2014. | |
| **Agrisgôp** | • Bydd Agrisgôp yn dwyn ynghyd grwpiau bach o bobl sy'n meddwl yn yr un ffordd i ddatblygu galluoedd y rheini sy'n aelodau ohonynt, gwella busnesau sy'n bodoli'n barod ac archwilio cyfleoedd newydd.<br>• Nod Agrisgôp yw newid cyfeiriad meddwl, agweddau, hyder a galluedd yr unigolion sy'n cymryd rhan, sy'n helpu ffermwyr i nodi a datblygu syniadau a chyfleoedd yn eu busnesau.<br>• Darperir cefnogaeth yn hyblyg drwy ddysgu gweithredol a dull cyfranogol. Yn nodweddiadol bydd yr hwylusydd wedi'i aseinio i MaB ac mae'n gyfrifol am gydlynu a hwyluso trafodaethau ym mhob cyfarfod grŵp.<br>• Mae grwpiau (fel arfer) yn hunanddewisol, ac mae ganddynt gyllideb fechan i dalu am 10 cyfarfod, llogi lleoliad a siaradwyr.<br>• Cyflwynwyd yn wreiddiol yn 2003. | Ffocws: Dau grŵp Agrisgôp<br>Roedd yr astudiaeth achos yn cynnwys:<br>• ymgynghoriadau gyda phob un o hwyluswyr y grwpiau<br>• ymgynghoriadau gyda phump buddiolwr ar draws y ddau grŵp |
| **Academi Amaeth (Rhaglen Busnes ac Arloesedd)** | • Wedi'i gynllunio i alluogi datblygiad a dysgu yn y sector amaethyddiaeth yng Nghymru. | Ffocws: Rhaglen Busnes ac Arloesedd<br>Roedd yr astudiaeth achos yn cynnwys : |

| Gweithgaredd Cyswllt Ffermio | Trosolwg o’r gweithgaredd | Trosolwg astudiaeth achos |
|---|---|---|
| | • Rhaid i unigolion lenwi ffurflen gais ar-lein a bydd panel o arbenigwyr yn eu hadolygu.<br>• Mae’r rhaglen un darparu hyfforddiant, mentora, cefnogaeth ac arweiniad dros 3 sesiwn breswyl ddwys.<br>• Mae tair elfen benodol i’r Academi o fewn rhaglenni sydd wedi’u cymorthdalu’n llawn: Rhaglen Arweinyddiaeth Gwledig; Rhaglen Busnes ac Arloesedd; Rhaglen Iau.<br>• Sefydlwyd yn 2012. | • ymgynghoriad gydag arweinydd Academi Amaeth<br>• ymgynghoriadau gyda dau o gyn-fynychwyr yr Academi Amaetha gyfranogodd yn rhaglen 2016. |
| **Cyfnewidfa Rheolaeth** | • Mae Cyfnewidfa Rheolaeth yn darparu ysgoloriaeth deithio gwerth hyd at £4,000 er mwyn galluogi ffermwyr i ddysgu am wahanol ffyrdd o weithio y tu allan i Gymru. Gall cyfranogwyr deithio i rannau eraill o’r DU neu rywle arall yn Ewrop i archwilio ffyrdd i wella un agwedd ar eu busnes presennol neu er mwyn arallgyfeirio.<br>• Asesir ymgeiswyr drwy ddwy ffurflen gais a chyflwyniad terfynol, lle mae’n rhaid iddynt fod yn glir ynglŷn â sut mae’r gweithgaredd yn addas i’w hanghenon.<br>• Goruchwylir Cyfnewidfa Rheolaeth gan MaB ond y buddiolwyr eu hunain sy’n gyfrifol am ganfod fferm y tu allan i Gymru er mwyn ymweld â hi, cysylltu â’r | Roedd yr astudiaeth achos yn cynnwys:<br>• ymgynghoriad gyda’r arweinydd MaB<br>• ymgynghoriad gyda phedwar o fuddiolwyr yr ysgoloriaeth |

| Gweithgaredd Cyswllt Ffermio | Trosolwg o'r gweithgaredd | Trosolwg astudiaeth achos |
|---|---|---|
| | ffermwyr, a threfnu eu hymweliadau.<br>• Ar ôl dychwelyd disgwylir i'r buddiolwyr ledaenu'r dysgu yn fwy eang. | |
| **Mentora** | • Sefydlwyd y rhaglen Mentora er mwyn galluogi ffermwyr a choedwigwyr i dderbyn arweiniad gan eu cymheiriaid ar ystod eang o bynciau.<br>• Gall mentoreion cymwys dderbyn 22.5 awr o wasanaethau mentora wedi'u hariannu'n llawn (a'u darparu'n hyblyg) gyda'r mentor ffermio neu goedwigaeth o'u dewis, dros gyfnod o 18 mis. Bydd y mentoreion yn dewis eu mentoriaid o'r rhestrau proffil sydd wedi'u cynnwys ar yng Nghyfeirlyfr Mentoriaid Cyswllt Ffermio.<br>• Mae cwblhau CDP yn rhagamod cyrchu'r gefnogaeth hon.<br>• Mae'r cynllun mentora yn rhaglen gymharol newydd, a sefydlwyd yn 2016. | Ffocws: Mentora<br>Roedd yr astudiaeth achos yn cynnwys:<br>• ymgynghoriadau gyda dau fentorai a'u mentoriaid |
| **Cyngor un i un** | • Mae'r Gwasanaeth Cynghori (Lot 3) yn cynnig cyngor un i un (hyd at 80% wedi'i ariannu) a chyngor grŵp (wedi'i ariannu 100%).<br>• Mae cyngor penodol ar gael ar draws ystod o bynciau, yn cynnwys cynllunio busnes, rheoli coedwigoedd, newydd-ddyfodiaid, da byw, rheoli coetir, garddwriaeth ac arallgyfeirio. | Roedd yr astudiaeth achos yn cynnwys:<br>• ymgynghoriad gyda chynghorydd<br>• ymgynghoriad gyda phedwar buddiolwr |

| Gweithgaredd Cyswllt Ffermio | Trosolwg o'r gweithgaredd | Trosolwg astudiaeth achos |
|---|---|---|
| | • Bydd buddiolwyr fel arfer yn derbyn cefnogaeth – yn nodweddiadol wyneb yn wyneb ar yr ymweliad fferm gan y cynghorydd a dilynir hyn gydag adroddiad ysgrifenedig sy'n cynnwys atebion posibl ac argymhellion – dros gyfnod o fis.<br>• Mae'r gwasanaethau cynghori gyda chymhorthdal wedi bod o dan ambarél Cyswllt Ffermio ers 2008. | |
| **Cyrsiau hyfforddi wyneb yn wyneb** | • Mae CFf yn cynnig y cyfle i gyrchu cyllid ar gyfer cyrsiau hyfforddi achrededig byr. Cefnogir dros 30 o gyrsiau hyfforddi o fewn y Rhaglen Dysgu Gydol Oes a Datblygu a gyflwynir ar draws 23 o sefydliadau hyfforddiant sydd wedi'u lleoli ar draws Cymru.<br>• Mae'r cyrsiau hyfforddi hyn yn dod o fewn un o'r categorïau canlynol: Gwella Busnes; Cyrsiau Technegol a Defnydd Peiriannau ac Offer.<br>• Gall y rheini sy'n gymwys am y gefnogaeth gyrchu cyllid am hyd at dri chwrs hyfforddi bob blwyddyn, gyda rhai dan 40 oed y gymwys am hyd at bump cwrs y flwyddyn.<br>• Mae gofyn i unigolion sy'n mynychu cyrsiau hyfforddi drwy Cyswllt Ffermio gwblhau CDP.<br>• Cyflwynir y cwrs defnydd diogel ar blaladdwyr dros dri diwrnod fel arfer yng | Cyrsiau Defnydd Diogel o Blaladdwyr, cyrsiau Cneifio Defaid â Pheiriant (categorïau 2 a 3 yn y drefn honno).<br>Roedd yr astudiaeth achos yn cynnwys :<br>• ymgynghoriadau gyda dau ddarparwr hyfforddiant sy'n darparu cyrsiau Defnydd Diogel o Blaladdwyr a darparwr hyfforddiant sy'n cydlynu ac yn darparu'r cyrsiau Cneifio Defaid â Pheiriant<br>• ymgynghoriad manwl gyda thri o gyfranogwyr yr hyfforddiant, yr oedd dau ohonynt wedi cyfranogi yn y cwrs cneifio defaid â pheiriant a'r llall y cwrs defnydd diogel o blaladdwyr<br>• ymgynghoriadau byr gydag un cyfranogwr arall y cwrs defnydd diogel o blaladdwyr a dau gyfranogwr arall y cwrs cneifio defaid â pheiriant |

| Gweithgaredd Cyswllt Ffermio | Trosolwg o’r gweithgaredd | Trosolwg astudiaeth achos |
|---|---|---|
| | nghanolfan darparwr yr hyfforddiant.<br>• Cyflwynir y cyrsiau cneifio defaid â pheiriant dros gyfnod o ddau ddiwrnod, gan ganolbwyntio ar wahanol dechnegau cneifio ar y diwrnodau gwahanol.<br>• Mae hyfforddiant wyneb yn wyneb yn weithgarwch rhaglen sydd wedi’i sefydlu ers tro. | |
| **E-ddysgu** | • Ar hyn o bryd mae’r e-ddysgu yn cynnwys 74 o gyrsiau a gynhelir ar BOSS, sydd wedi’u datblygu gan Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) ym Mhrifysgol Aberystwyth gyda chefnogaeth gan Lantra a MaB.<br>• Y llwybr mwyaf cyffredin i e-ddysgu oedd cwblhau CDP. Ar ôl cwblhau CDP, bydd defnyddwyr Cyswllt Ffermio yn derbyn rhestr hir o gyrsiau y disgwylir iddynt fod yn berthnasol i’w sefyllfa, sydd wedi’i seilio ar gymwyseddau arferol.<br>• Bwriedir i gyrsiau gynnig cyflwyniadau byr i ystod eang o bynciau a chymryd 15-30 munud i’w cwblhau.<br>• Elfen newydd o raglen 2014-2020. | Roedd yr astudiaeth achos yn cynnwys:<br>• Cynhaliwyd ymgynghoriadau gyda 13 o bobl – yr arweinwyr yn IBERS a Lantra ac 11 o ddefnyddwyr:<br>• roedd chwech o’r grŵp defnyddwyr wedi cwblhau Cyllid Fferm a Rheoli Pori;<br>• roedd tri wedi cwblhau Cyllid Fferm; a<br>• dau wedi cwblhau Rheoli Pori.<br>Mae’r astudiaeth achos hefyd yn cynnwys rhai o’r safbwyntiau a fynegwyd mewn grwpiau ffocws a gynhaliwyd yn nhymor yr hydref 2018. |

Ffynhonnell: SQW

## Atodiad B: Ymgynghoreion

*Ymgynghoreion sy'n rheolwyr a staff cyflenwi*

- Einir Davies (Rheolwr Datblygu a Mentora, Menter a Busnes)
- Eirwen Williams (Cyfarwyddwr rhaglenni gwledig, Menter a Busnes)
- Sara Jenkins (Rheolwr Datblygu – Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth Cyswllt Ffermio, Menter a Busnes)
- Sian Tandy (Rheolwr Marchnata, Menter a Busnes)
- Delyth James (Canolfan Wasanaethau , Menter a Busnes)
- Dewi Hughes (Rheolwr Datblygu Technegol, Menter a Busnes)
- Nerys Hammond (Swyddog Datblygu, Menter a Busnes)
- Geraint Jones (Swyddog Technegol Coedwigaeth, Menter a Busnes)
- Sarah Lewis (Rheolwr Prosiect, Lantra)
- Phillipa Gregory (Rheolwr Cyflenwi Cyswllt Ffermio, Lantra)
- Rhys Pugh (Amaethyddiaeth – Isadran Cynaliadwyedd a Datblygiad, Llywodraeth Cymru)
- Laura Griffiths (Cangen Cefnogi Pennaeth Busnes Amaethyddiaeth, Llywodraeth Cymru)
- Llinos Roberts (Cymorth Busnes Amaethyddol, Llywodraeth Cymru)
- Mark Alexander (Dirprwy Bennaeth Amaethyddiaeth – Isadran Cynaliadwyedd a Datblygiad, Llywodraeth Cymru)
- Martine Spittle (Rheolwr Prosiect – Dysgu o Bell, IBERS)
- Yr Athro Wynne Jones (Cadeirydd Grŵp Cynghori Strategol)
- Yr Athro Mike Gooding (Cadeirydd Is-grŵp Lot 1)
- Peter Rees (Cadeirydd Is-grŵp Lot 2)
- Euryn Jones (Cadeirydd Is-grŵp Lot 3)

*Grwpiau ffocws*

- 22 o fuddiolwyr, dienw

*Astudiaethau achos*

- 14 staff cyflenwi, dienw
- 53 o fuddiolwyr, dienw


*Rhanddeiliaid ehangach*

- Tim Cyflenwi Arloesedd, Llwodraeth Cymru
- Busnes Cymru
- AHDB
- Ffederasiwn CFfl Cymru
- HCC
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Coed Cymru
- CLA Cymru
- Bwrdd Cynghori Amaethyddol
- NFU

## Atodiad C: Gweithgareddau cyfryngau cymdeithasol

C.1 Mae Press Data wedi cynnal adolygiad o weithgarwch cyfryngau cymdeithasol, a fydd wedyn yn cael ei dracio a'i ddiweddaru y n yr ail adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf. Cyflwynir y canlyniadau yn Ffigur C-1 isod.

**Ffigur C-1: Gweithgareddau cyfryngau cymdeithasol**




Ffynhonnell: Cyflwyniad SQW o wybodaeth Press Data

## Ffigur C-2: 25 prif ddylanwadwr Cyswllt Ffermio

| Influencers | Posts | Sentiment | Reach | Reach per mention | Engagement | Engagement per mention |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Farming Connect @FarmingConnect | 484 ↗ 4.3K% | | 2.2M ↗ 4.5K% | 4.5K ↗ 3.7% | 1K ↗ 6.2K% | 2.1 ↗ 43.9% |
| Geraint Hughes @MadrynFoods | 101 ↗ 2.4K% | | 463.4K ↗ 2.7K% | 4.6K ↗ 12% | 320 ↗ 2.4K% | 3.2 ↙ 2.5% |
| Dr Edward Thomas Jones @EThomasJones | 43 ↗ 4.2K% | | 34.8K ↗ 4.6K% | 810.4 ↗ 9.4% | 111 | 2.6 |
| Lesley Griffiths @wgmin_rural | 41 ↗ 1.3K% | | 371.3K ↗ 1.3K% | 9.1K ↗ 4.2% | 22 ↗ 175% | 0.5 ↙ 79.9% |
| nigel pugh @nspugh | 30 | | 141.6K | 4.7K | 46 | 1.5 |
| Jessica Williams @WelshBlackGB | 29 | | 17.8K | 613.4 | 161 | 5.6 |
| Wales Rural Network @WalesRuralNet | 25 | | 35.9K | 1.4K | 17 | 0.7 |
| WG Farming & Food @WG_FarmingFood | 25 | | 41.2K | 1.6K | 16 | 0.6 |
| HCC @HybuCigCymru | 25 | | 93.7K | 3.7K | 34 | 1.4 |
| Llŷr Derwydd @LlyrDerwydd | 24 | | 42.6K | 1.8K | 132 | 5.5 |
| Rosy.Lane Holsteins @Rosy_Lane | 23 | | 37.1K | 1.8K | 7 | 0.3 |
| Aled Rhys Jones @AledTyllwyd | 23 ↗ 1.1K% | | 51.7K ↗ 1.1K% | 2.2K ↗ 5.5% | 50 ↙ 18% | 2.2 ↙ 92.9% |
| NFU Cymru @NFUCymru | 21 ↗ 950% | | 125.4K ↗ 1K% | 6K ↗ 5.8% | 48 | 2.3 |
| Grŵp NPTC Group @NPTCGroup | 20 ↗ 900% | | 84.3K ↗ 945.4% | 4.2K ↗ 4.5% | 0 | 0 |
| Elizabeth Westaway @EWestaway | 19 | | 99.2K | 5.2K | 7 | 0.4 |
| Jones Crisps @JonesoGymru | 18 | | 478.5K | 26.6K | 0 | 0 |
| Woodland Trust Cymru @CoedCadw | 16 | | 45.4K | 2.8K | 27 | 1.7 |
| Gareth Wyn Jones @1GarethWynJones | 16 | | 331.2K | 20.7K | 2 | 0.1 |
| Food&Farming Futures @FarmingFutures | 15 | | 336.1K | 22.4K | 17 | 1.1 |
| IBERS .Aber @ibers_aber | 15 ↗ 650% | | 45K ↗ 685.7% | 3K ↗ 4.8% | 0 | 0 |
| RABI Cymru .Wales @RABICymru_Wales | 14 | | 15.3K | 1.1K | 0 | 0 |
| Sara Pedersen @SaraPedersen3 | 14 | | 34.6K | 2.5K | 25 | 1.8 |
| Horticulture Wales \| Garddwriaeth Cymru @HortWales | 14 | | 30.4K | 2.2K | 0 | 0 |
| LLM Farm Vets @LLMteam | 13 | | 29.6K | 2.3K | 25 | 1.9 |
| Huw Llandre @Llandre | 13 ↗ 1.2K% | | 22.6K ↗ 1.3K% | 1.7K ↗ 5.7% | 11 | 0.8 |

Ffynhonnell: Press Data